Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 22ain Mai, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

| **AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDDAelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 MAI | | | 3 - 4 |
| 6 | RHAGLEN ADFYWIO NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU - TRIP | Cyng. Ioan Thomas | Llyr B Jones | 5 - 99 |
| 7 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng / Cllr. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 100 - 109 |
| 8 | CYFRIFON TERFYNOL 2017-18 - ALLDRO REFENIW | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 110 - 130 |
| 9 | RHAGLEN GYFALAF 2017-18 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 131 - 136 |
| 10 | PARATOI AT DDYFODOL ARIANNOL ANEGLUR | Cyng / Cllr Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 137 - 142 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 8 MAI 2018**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Dewi Owen

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 6: Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo), Arwel Wyn Owen (Uwch Reolwr Tai a Llesiant)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Nia Jeffreys ar gyfer eitem 6 gan ei bod yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 EBRILL 2018**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 10 Ebrill 2018, fel rhai cywir

## 6. GWERTHIANT CYN SALFE YSGOL ABERDYFI

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Dirprwyo hawl i'r Uwch Reolwr Eiddo ddefnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i werthu cyn safle Ysgol Aberdyfi yn uniongyrchol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) am lai 'na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Clustnodi'r dderbynneb cyfalaf ar gyfer ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at wella adeiladau ysgolion o dan y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr ysgol wedi cau yn 2013 a bod y plant bellach yn mynychu Ysgol Penybryn. Ychwanegwyd ers cau'r ysgol fod ymdrechion wedi bod i chwilio am ddefnydd amgen o'r safle. Nodwyd fod Cartrefi Cymunedol yn awyddus i brynu'r tir er mwyn adeiladu11 o dai fforddiadwy.

Esboniwyd fod y Prisiwr Dosbarth wedi nod fod gwerth y safle ar y farchnad agored yn £320,000, ond nodwyd fod y Cyngor yn teimlo pris o £187,000 yn swm addas ar gyfer gwerthiant y tir oherwydd y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mynegwyd fod angen dybryd am eiddo fforddiadwy yn yr ardal, ac nid oes datblygiad eiddo cymdeithasol wedi bod yn Aberdyfi ers dros 11 mlynedd. Yn ychwanegol at hyn nodwyd fod darpariaeth am dai fforddiadwy yn flaenoriaeth sydd yw gweld yng Nghynllun y Cyngor ac ym Maniffesto Plaid Cymru.

Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn gefnogol i'r eitem a bwysleisiwyd angen yr ardal am dai fforddiadwy.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd pa sicrwydd y gall Cartrefi Cymunedol Gwynedd mai pobl leol fydd yn cael y denantiaeth yn y tai newydd, nodwyd fod hyn angen ei nodi yn y cais cynllun a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio a'r amodau a pholisïau cynllunio a fydd yn cael ei rhoi gan y Parc Cenedlaethol
- Nodwyd fod yr adroddiad yma yn nodi fod yr arian o'r gwerthiant yma yn mynd yn ôl i'r Adran Addysg er mwyn gwella adeiladau ysgolion, ond ychwanegwyd fod tair ysgol arall wedi cau yn yr ardal a holwyd ble mae'r arian am y lleoliadau yma wedi mynd ar ôl eu gwerthu. Nodwyd bydd yr adran yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Aelod Lleol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.30 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22ain o Fai, 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **Est 32219** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, Llywodraeth Cymru** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

a) Cymeradwyo'r Strategaeth Adfywio Ranbarthol drafft er mwyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru

b) Nodi gofyniad y Cabinet fod ymrwymiad o fewn y Strategaeth ddrafft bod gwaith adnabod ac ymateb i faterion sy'n ymwneud ag amddifadedd gwledig yn derbyn sylw yn ystod 2018/9

c) Fod gwaith pellach yn cael ei wneud er mwyn ystyried cyfloedd posib o'r Rhaglen TRI gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn amlinellu cynigion arfaethedig

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen am Gynllun Adfywio Rhanbarthol yn cynnig fframwaith strategol a chyd-destun ar gyfer cynigion fel rhan o'i Raglen Adfywio newydd. Mae angen cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol cyn bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau am fuddsoddiad.

**3. CYFLWYNIAD**

<u>Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio</u>

3.1 Yn ystod mis Hydref 2017, cafodd Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) ei lansio gan Lywodraeth Cymru. Dyma raglen sy'n olynu Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP), ac mae cyfanswm o hyd at £100 miliwn ar gael yn y gyllideb yn ystod cyfnod cychwynnol o dair blynedd ar gyfer 2018-2021.

3.2 Nod y rhaglen yw cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo adfywiad economaidd, gyda gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Bydd y rhaglen yn medru ystyried cyfraniad buddsoddiad cyfalaf o hyd at 70% o gostau cymwys. Mae copi o ganllawiau'r Rhaglen TRI wedi eu cynnwys fel Atodiad 1.

3.3 Yn wahanol i drefniadau blaenorol, gofyniad y rhaglen hon yw bod trefniadau cadarn ar waith o ran partneriaeth a llywodraethu rhanbarthol o'r dechrau er mwyn cytuno ar gynllun adfywio cyffredinol, blaenoriaethu cynigion buddsoddi a darparu sicrwydd ynghylch y broses benderfynu.

3.4 Mae'r Rhaglen TRI hefyd yn nodi'r angen am Gynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio yn cynnwys fframwaith strategol a darparu cyd-destun ar gyfer cynigion. Nodir hefyd fod angen cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol cyn bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau am fuddsoddiad.

3.5 Mae'r Mae'r rhaglen hefyd yn amlinellu dyraniad tybiannol rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2018-21:

| **Rhanbarth** | **Dyraniad tybiannol** |
|---|---|
| Gogledd Cymru (6 ALI) | £22 miliwn |
| Canolbarth Cymru (2 ALI) | £7 miliwn |
| De-ddwyrain Cymru (10 ALI) | £44 miliwn |
| De-orllewin Cymru (4 ALI) | £27 miliwn |

3.6 Bydd y dyraniadau gwirioneddol yn dibynnu ar ansawdd y prosiectau a gymeradwyir o dan y Rhaglen. Cyllideb cyfalaf sydd yn cael ei darparu drwy'r gronfa ac uchafswm cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru fesul prosiect yw 70%.

3.7 Unwaith y bydd y Cynlluniau Rhanbarthol ar gyfer Adfywio wedi'u cyflwyno a'u derbyn bydd Cronfa Datblygu Prosiect ar gael ar gyfer pob rhanbarth. Pwrpas y gronfa fydd archwilio ymhellach hyfywedd cynigion y prosiect ac i gynorthwyo i fireinio manylion y prosiect. Gellid defnyddio cyllid datblygu o hyd at £200k fesul rhanbarth yn flynyddol dros y cyfnod 3 blynedd gychwynnol i gynorthwyo i ddatblygu prosiectau'n gynnar. Bydd y Gronfa Datblygu Prosiectau yn darparu cyfraniad o 50% ar gyfer costau o'r fath.

Strategaeth Adfywio Ranbarthol drafft ar gyfer Gogledd Cymru

3.8 Mae swyddogion o Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru a Grŵp Rheoli Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn arwain yr ymateb o Ogledd Cymru i'r cyfle hwn. Yn ystod y trafodaethau hyn, cytunwyd y dylid paratoi Strategaeth Adfywio ar gyfer Gogledd Cymru, ac y dylai hwn nodi gweledigaeth ac amcanion ar gyfer adfywio tan 2035, gan roi blaenoriaethau i lywio datblygiad rhaglenni gwaith yn y dyfodol, a dylai helpu i alinio'r broses adfywio â'r broses ar gyfer twf economaidd sy'n dilyn yr un amserlen.

3.9 Y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y Strategaeth Adfywio drafft yw:

- Lleihau anghydraddoldeb
- Cynyddu cyflogaeth
- Moderneiddio canol trefi
- Gwella'r cynnig tai
- Cryfhau'r economi ymwelwyr

- Amddiffyn yr economi wledig
- Gwella iechyd pobl leol

3.10 Mae copi o'r Strategaeth Adfywio Ranbarthol wedi ei chynnwys fel Atodiad 2.

3.11 Er mwyn adnabod ardaloedd o angen, mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfeirio'n bennaf at ddata Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (gweler Atodiad 2 o'r Strategaeth). Mae'r Strategaeth hefyd defnyddio methodoleg dadansoddi clwstwr er mwyn adnabod yr ardaloedd (trefi) hynny gyda chanran uchaf o'r boblogaeth sydd o fewn 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r rhestr o'r trefi mwyaf difreintiedig yn cynnwys Rhyl, Wrecsam, Bangor, Bae Colwyn a Llysfaen, Caernarfon, Newbridge/Cefn/Plas Madog, Treffynnon, Shotton, Llandudno, Dinbych, Caergybi ac Aberele/Phensarn.

3.12 O safbwynt blaenoriaethau rhaglen TRI dros y cyfnod 2018-21, mae'r Strategaeth yn argymell y blaenoriaethu prosiectau adfywio canol tref y 4 anheddle ar frig y rhestr, sef Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn.

3.13 Yn ogystal, mae'r Strategaeth hefyd yn adnabod prosiectau blaenoriaeth ar sail Themâu penodol

- Thema Tai (adnewyddu adeiladau gwag) - Mynd i'r afael ag anghenion o ran tai ac adfywio gan gynnwys y sector rhentu preifat
- Thema Tai (ardaloedd adnewyddu) – gan ystyried parhad o'r rhaglenni Adnewyddu Tai
- Adeiladau Pwysig – cefnogaeth ar gyfer prosiectau i ailddatblygu neu ailddefnyddio adeiladau pwysig y tu allan i'r pedair tref o flaenoriaeth ar gyfer anghenion adfywio.

3.14 Fel rhan o'r trafodaethau rhanbarthol, mae dyraniadau ariannol tybiannol sy'n seiliedig ar y gyllideb TRI bresennol wedi eu crybwyll ar gyfer gweithredu agweddau o'r Strategaeth ranbarthol :

| | **Gweithgaredd / Blaenoriaeth** | **Dyraniad tybiannol** | ***Cyfanswm*** |
|---|---|---|---|
| 1. | Adfywio Canol Trefi | | *£11.25m* |
| | *Rhyl* | *£4m* | |
| | *Wrecsam* | *£2m* | |
| | *Bangor* | *£3m* | |
| | *Bae Colwyn* | *2.25m* | |
| 2. | Tai : Adnewyddu Adeiladau Gwag / Ardaloedd Adnewyddu | | *£9.2m* |
| | *Gwynedd* | *£1.5m* | |
| | *Ynys Môn* | *£1.8m* | |
| | *Sir Dinbych* | *£1.5m* | |
| | *Sir Flint* | *£0.9m* | |
| | *Sir Conwy* | *£1.5m* | |
| | *Sir Wrecsam* | *£2.0m* | |
| 3. | Adeiladau Allweddol | | *2.5m* |
| | Manylion i'w datblygu | *£2.5m* | |
| | **Cyfanswm** | | ***£22.95m*** |

3.15 Dylid pwysleisio mai dyraniad ariannol tybiannol yn unig ydynt, a byddai unrhyw ymrwymiad ariannol yn ddibynnol ar gyflwyno Cynlluniau Prosiect fyddai yn cwrdd â gofynion Rhaglen TRI. Dylid nodi hefyd fod Cynllun Gweithredu o fewn y Strategaeth Ranbarthol drafft yn cynnwys buddsoddiad posib o £29m o'r Gronfa TRI gan amlygu'r angen pellach am fuddsoddiad yn y rhanbarth, a'r uchelgais i ddenu buddsoddiad pellach i Ogledd Cymru.

Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor

3.16 Mae'r Strategaeth Ranbarthol ddrafft yn adnabod dinas Bangor ymysg prif flaenoriaethau ar gyfer targedu adnoddau adfywio ar gyfer y cyfnod 2018-21. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ddinas wedi wynebu sawl her a chyfnod o newid gan danseilio ei swyddogaeth fel canolfan fanwerthu isranbarthol.

3.17 Yn ystod 2016, fe sefydlwyd Partneriaeth Dinas Bangor gan ddwyn ynghyd ystod o bartneriaid yn awyddus i gyd-weithio i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd ar gyfer y ddinas. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o nifer o wahanol sefydliadau gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Pontio, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Partneriaeth Tai, Grŵp Llandrillo Menai, ac Ardal Gwella Busnes y ddinas.

3.18 Yn dilyn sefydlu'r Bartneriaeth, gwnaethpwyd gwaith pellach i baratoi strategaeth adfywio ar gyfer y ddinas. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dair prif thema

a) Datblygu a'r Amgylchedd – sydd yn canolbwyntio ar ymateb i gyflwr gwael adeiladau ac amgylchedd ardal fasnachol canol y ddinas.
b) Economi a Hyrwyddo - gan gynnwys cryfhau sectorau proffesiynol yn y ddinas drwy wneud defnydd o adeiladau segur, pecynnau cefnogi busnes a gweithgareddau i hyrwyddo a marchnata'r ddinas ac annog buddsoddiad sector breifat
c) Tai, Iechyd a Llesiant – gan gynnwys uwchraddio a gwella stoc dai yn y ddinas, adnewyddu adeiladau segur, ynghyd â mesurau perthnasol i gefnogi amodau byw iach a chynnig mynediad i wasanaethau iechyd a llesiant

3.19 Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnig pecyn o gynigion arfaethedig ar gyfer ymateb i'r anghenion a chyfloedd sydd berthnasol i'r themâu hyn. Serch hynny, rhagwelir fod angen gwaith rhagbaratoi pellach ar gyfer datblygu cynigion amlinellol yn prosiectau manwl, ac mae'r rhaglen waith yn cael ei adolygu gan y Bartneriaeth.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae Rhaglen TRI yn cynnig fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru, gyda chyllideb o hyd at £100m ar gael yn ystod cyfnod cychwynnol o dair blynedd ar gyfer 2018-21. Bydd awdurdodau lleol, ynghyd â sefydliadau partner, yn gallu gwneud cais am fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd gyda'r nod o sicrhau datblygu cynaliadwy ehangach lle mae gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr unigolion a'r ardaloedd y mae ei angen fwyaf arnynt.

4.2 Yn unol â chanllawiau'r Rhaglen TRI, mae angen Cynllun Rhagbarthol ar gyfer adfywio cyn cynnwys fframwaith strategol a darparu cyd-destun ar gyfer cynigion. Mae arweiniad clir wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r angen i

bob un o’r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru gefnogi strategaeth ranbarthol er mwyn i Ogledd Cymru gael mynediad at gyllid Rhaglen TRI.

4.3 Mae’r Strategaeth Adfywio Ranbarthol drafft wedi ei pharatoi ar y cyd gyda grŵp swyddogion adfywio Gogledd Cymru, a hynny mewn cyfnod byr o amser. Mae bwriad o adolygu’r Strategaeth yn flynyddol, a gobeithir y bydd cyfle i’r ddogfen esblygu o flwyddyn i flwyddyn.

4.4 Er mwyn ceisio adnabod ardaloedd o angen, mae’r Strategaeth ddrafft yn cyfeirio’n bennaf at ddata Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. O ystyried mai’r Mynegai yw’r ffordd gydnabyddedig o fesur amddifadedd, ystyrir fod y fethodoleg hon yn addas fel ffordd o dargedu arian ar gyfer adfywio trefol.

4.5 Yn ystod trafodaethau rhanbarthol nodwyd hefyd yr angen i fynd i’r afael â thlodi ac anghenion adfywio mewn trefi llai ac mewn ardaloedd gwledig. Mae angen gwaith pellach i ddatblygu’r agweddau hyn, ond yn sgil yr amserlen, nid oedd modd eu hymgorffori i’r Strategaeth ddrafft. Serch hynny, mae’r Strategaeth ddrafft (tud 6) yn nodi’r bwriad o ddatblygu methodoleg ar gyfer categoreiddio amddifadedd mewn cyd-destun gwledig fel rhan o esblygiad y strategaeth.

4.6 Byddai oediad mewn cytuno a chyflwyno Cynllun Rhanbarthol yn debygol o effeithio amserlen ar gyfer cyflwyno cynigion o dan Rhaglen TRI. O ganlyniad, argymhellir fod y Cabinet yn cefnogi’r Strategaeth ddrafft, gan nodi’r gofyn fod ymrwymiadau sy’n ymwneud âg amddifadedd gwledig yn derbyn sylw yn ystod cyfnod 2018/9.

4.7 Yn unol â blaenoriaethau’r Strategaeth Adfywio Ranbarthol drafft, ystyried hefyd fod cyfloedd i ddenu buddsoddiadau ar gyfer Cynllun Adfywio Dinas Bangor drwy’r Rhaglen TRI. Yn wahanol i’r rai o’r trefi eraill ar draws y Gogledd, nid yw dinas Bangor wedi bod yn rhan o’r Rhaglen Adfywio VVP, ac felly mae gwaith cychwynnol i sefydlu rhaglen.

4.8 Gofynnir am gefnogaeth y Cabinet i ystyried cyfloedd posib drwy dargedu adnoddau Rhaglen TRI, ac i fwrw ymlaen gyda’r gwaith o baratoi pecyn a chynigion cysylltiedig Bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i’r Cabinet ar y pecyn arfaethedig, gan gynnwys manylion prosiectau / gweithgareddau, pecyn ariannol (gan gynnwys unrhyw arian cyfatebol), allbynnau a threfniadau rheoli / llywodraethu.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Yn amodol o dderbyn cefnogaeth chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, bwriedir cyflwyno’r Strategaeth Adfywio Ranbarthol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mai 2018.

5.2 Yn amodol i gymeradwyo’r Strategaeth Ranbarthol, rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn gwahodd cynigion o’r Rhaglen TRI o tua fis Gorffennaf 2018 ymlaen.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro

Er nad oes gennyf sylwadau penodol o safbwynt priodoldeb y cynnig deallaf fod gwaith pellach yn dilyn yn y dyfodol fydd yn rhoi cyfle i sicyrhau fod y trefniadau llywodraethu yn y Strategaeth yn bwrpasol ac eglur.

ii. Y Pennaeth Cyllid

Llwyddwyd i gytuno dyraniad tybiannol hael o £4.5 miliwn i Wynedd o'r cyfanswm o hyd at £100 miliwn sydd ar gael i Gymru gyfan gan Raglen Adfywio Llywodraeth Cymru yn ystod 2018-2021. Bydd £3m ohono ar gyfer adfywio canol tref Bangor, a £1.5m ar gyfer adnewyddu tai / adeiladau gwag o fewn cyfanswm £22.95m yn strategaeth rhanbarth gogledd Cymru. Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yw 70%, felly bydd angen cyfraniad 'lleol' o 30% ar gyfer costau prosiectau. Gofynnir yn rhan 4.8 o'r adroddiad am gefnogaeth rŵan i ystyried cyfleodd a pharatoi cynigion, gyda'r bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar y pecyn arfaethedig, gan gynnwys pecyn ariannol, a manylion yr arian cyfatebol fydd angen gan y Cyngor, ar ôl cynnal trafodaethau am brosiectau gweithredol gyda phartneriaid a 3ydd partïon.

6.2 Barn yr Aelod Lleol

Dim yn fater lleol

6.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Dim i'w nodi

**ATODIADAU**

Atodiad 1 : Canllawiau Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio

Atodiad 2 : Strategaeth Adfywio Ranbarthol drafft ar gyfer Gogledd Cymru

# Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir

## Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid darparu

20 Hydref 2017

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Ffyniant i Bawb | 5 |
| Nodau ac amcanion y rhaglen | 6 |
| Cynlluniau rhanbarthol ar gyfer adfywio | 8 |
| Datblygu a chyflwyno prosiectau | 9 |
| Trosolwg o'r cyllid | 10 |
| Proses cymeradwyo prosiectau | 12 |
| Cymorth pellach a'r camau nesaf | 13 |
| Atodiad 1 – Cynllun rhanbarthol ar gyfer adfywio | 14 |
| Atodiad 2 – Cynllun Cyflenwi Prosiectau | 15 |
| Atodiad 3 – Prif allbynnau | 16 |
| Atodiad 4 – Meini Prawf Prosiectau | 17 |
| | |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymagwedd ar gyfer y rhaglen wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

**Nod** - cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd gyda gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen, tra'n gwasanaethu nodau datblygu cynaliadwy ehangach.

**Rhanbarthol** - mae awdurdodau lleol yn cydweithio ar lefel ranbarthol ac mae trefniadau llywodraethu yn dod i'r amlwg. Un o nodweddion allweddol y rhaglen yw nodi prosiectau blaenoriaeth trwy broses o weithio'n rhanbarthol gyda'r cyd-destun a amlinellir yn y Cynlluniau Rhanbarthol ar gyfer Adfywio y cytunwyd arnynt.

**Wedi'i dargedu** - buddsoddiad wedi'i dargedu mewn nifer fach o Ardaloedd Adfywio er mwyn creu mwy o effaith, yn hytrach na lledaenu adnoddau yn denau ym mhob rhan o Gymru.

**Yn bwrpasol** - gan gydnabod bod yna heriau a chyfleoedd unigryw ym mhob rhan o Gymru a bod yn rhaid i'r atebion gael eu nodi a'u blaenoriaethu gan bartneriaethau rhanbarthol.

**Ffyniant i Bawb** - dylai datblygu prosiectau adfywio gefnogi cyflawni'r amcanion lles a nodir yn y strategaeth ond gyda'r nod pwysicaf o ehangu ffyniant economaidd. Dylai rhaglenni a phrosiectau adlewyrchu'r ymrwymiad tuag at ddatblygu ymagweddau integredig at anghenion cymunedau penodol gyda phwyslais cryf ar weithio traws-sector.

**Rhaglen raddol** - bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd buddsoddiadau adfywio i'w cyflwyno'n raddol. Ni fydd dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a bydd prosiectau'n cael eu hystyried pan fydd cynnig yn barod.

**Cyllid** - mae cyllideb gyfanswm o hyd at £100 miliwn ar gael dros gyfnod 3 blynedd cychwynnol am y cyfnod ar gyfer 2018-21. Bydd rhanbarthau'n gweithio o fewn dyraniadau cyllid tybiannol. Y gyfradd ymyrraeth uchaf ar gyfer pob prosiect yw 70% a rhaid iddo fod yr isafswm o arian sydd ei angen i alluogi'r prosiect i symud ymlaen.

**Cefnogaeth ac asesu** - cefnogaeth gadarn a her o ddechrau'r cynlluniau a phrosiectau. Bydd y broses o wneud penderfyniadau ar lefel prosiect yn cael ei gefnogi gan feini prawf asesu clir ac ystyriaeth gan Banel Buddsoddi Adfywio Cenedlaethol.

## Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen newydd o fuddsoddiad adfywio sy'n cychwyn yn 2018. Mae'n disgrifio prif nodau'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a sut y dylid integreiddio cyllid adfywio mor effeithiol â phosib gyda lleoliadau eraill a mentrau cenedlaethol.

2. Gwahoddir awdurdodau lleol a phartneriaethau rhanbarthol i ddatblygu cynigion buddsoddi cyfalaf ar gyfer adfywio sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol. Hefyd, bydd angen i gynigion ar gyfer buddsoddi fod wedi bod yn destun ymgysylltiad helaeth â chymunedau lleol. Mae'r rhaglen yn ystyried ymrwymiad ehangach y llywodraeth i fynd ati i weithredu ar y cyd gyda'r nod o ehangu ffyniant a gwella ansawdd bywyd pobl.

3. Mae'r rhaglen yn rhannol yn gydnabyddiaeth nad yw buddion ffyniant mae economi Cymru wedi mwynhau dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyrraedd pob cymuned. Fel rhan o'i ymateb i'r her hon, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu rhaglen o fuddsoddiad adfywio wedi'i dargedu yn y cymunedau hynny sy'n cefnogi datblygiad economaidd ehangach.

4. Mae gan fuddsoddiad adfywio wedi'i dargedu ran hanfodol i'w chwarae wrth ehangu ffyniant a chreu cymunedau gwydn ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n cynnig yr adenillion masnachol gorau. Mae heriau penodol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac wrth ddatblygu cymunedau cysylltiedig a chynaliadwy mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd neu sydd wedi eu difetha gan ddiwydiannau trwm cynharach. Rydym hefyd yn cydnabod bod yna heriau gwahanol mewn ardaloedd gwledig.

5. Diffinnir adfywio fel "set integredig o weithgareddau sy'n ceisio gwrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol i sicrhau gwelliant parhaus, mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn gwneud hyn yn unig heb rywfaint o gymorth gan y llywodraeth".

6. Gall adfywio fod yn gatalydd ar gyfer newid a gall uno ei gilydd, a gwella buddsoddiadau strategol ehangach. Lle mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn buddsoddi, wrth greu cyfleoedd cyflogaeth, wrth adeiladu ysgolion ac wrth gefnogi cysylltedd trafnidiaeth, er enghraifft, mae adfywio yn cynnig y cyfle i wneud y gorau o'r buddsoddiad hwn mewn ffordd gydlynol ac integredig; y cyfan yn fwy na swm ei rannau. Gall y ffordd yr ydym yn cynllunio ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf gael effaith fawr ar yr economi, yn helpu sefydliadau gwahanol i gyflawni eu gwasanaethau mewn un lle, a lleihau'r angen i unigolyn deithio.

7. Mae gan awdurdodau lleol, gan weithio gyda rhanddeiliaid ehangach ac ymgysylltu'n agos â chymunedau, rôl hanfodol i'w chwarae wrth nodi blaenoriaethau a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau ar lawr gwlad. Dylai'r

cynigion ar gyfer buddsoddi hefyd ystyried prif raglenni eraill sydd eisoes ar y gweill gan gynnwys Metros, Bargeinion Dinesig, Tasglu'r Cymoedd a Wylfa Newydd. Rydym yn edrych ar bartneriaethau rhanbarthol i flaenoriaethu prosiectau sy'n cysoni amgylchiadau lleol a lle bynnag y bo'n bosibl, gwella'r effaith y gall y rhaglenni ehangach hyn ei gyflawni.

8. Yn unol ag agenda diwygio llywodraeth leol, mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r ffordd newydd y mae awdurdodau lleol yn cydweithio ar lefel ranbarthol. Rydyn ni am adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi digwydd o fewn partneriaethau sefydledig a dod i'r amlwg yn y Fargen Ddinesig. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i chynllunio i wneud defnydd o'r trefniadau llywodraethu sydd eisoes yn ymddangos i gefnogi gweithio rhanbarthol. Yn fwy cyffredinol, ein bwriad yw y bydd y rhaglen hon yn rhan o fodel newydd o ddatblygu economaidd ac adfywio sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth.

9. Rydym am annog prosiectau adfywio sydd wedi'u cynllunio i ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau presennol, refeniw a chyfalaf, a'u hategu. Golyga hyn na ddylai prosiectau adfywio gael eu gweld yn ynysig. Mae angen gosod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu yng nghyd-destun rhaglenni ehangach i adeiladu cymunedau mwy gwydn. Dylent ddod i'r amlwg o'r uchelgais a'r dadansoddiad a nodir mewn cynlluniau lles a dylent gael eu cynllunio i harneisio ymrwymiad a brwdfrydedd cymunedau a sefydliadau partneriaid lleol.

10. I ddechrau, mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau am gynigion prosiect awdurdodau lleol wedi'u cymeradwyo'n rhanbarthol am gyfnod o dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2018. Fodd bynnag, yng nghyd-destun datblygu rhaglen olynol i gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, mae partneriaid hefyd yn cael eu hannog i ddechrau nodi prosiectau a allai ymddangos mewn rhaglen dreigl o brosiectau adfywio ym mlynyddoedd i ddod.

## Ffyniant i Bawb

11. Mae'r cynigion hyn ar gyfer y rhaglen yn adlewyrchu'r ymrwymiad i weithio cydgysylltiedig a gwneud pethau a nodir yn wahanol yn 'Ffyniant i Bawb', strategaeth genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth honno'n egluro, er bod cyfoeth o bwys yn hanfodol, mae ffyniant hefyd yn ymwneud â phob un ohonom yn cael ansawdd bywyd da, ac yn byw mewn cymunedau cryf a diogel. Ein nod hirdymor yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. O dan y penawdau hyn, rydym wedi tynnu sylw at y deuddeg nod lles ar gyfer y llywodraeth:

**Ffyniannus a Diogel**
- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

**Iach ac Egnïol**
- Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell

**Uchelgeisiol ac yn Dysgu**
- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid

**Unedig a Chysylltiedig**
- Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

12. Mae strategaeth *Ffyniant i Bawb* hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu sef:

blynyddoedd cynnar;
tai;
gofal cymdeithasol;
iechyd meddwl; a
sgiliau a chyflogadwyedd.

13. Disgwylir i gynigion ar gyfer buddsoddi o dan y rhaglen newydd hon ddangos cyswllt clir i un neu ragor o'r amcanion a'r themâu hyn i gefnogi effaith economaidd go iawn. Fodd bynnag, ein nod fydd sicrhau bod y prosiectau a gefnogir maes o law yn atgyfnerthu ymrwymiad tuag at atebion cydgysylltiedig sy'n gweithio ac integredig sydd wrth wraidd y newidiadau y mae'r strategaeth yn ceisio eu cyflwyno.

## Nodau ac amcanion y rhaglen

14. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo adfywiad economaidd - creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a chreu'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu - gan ganolbwyntio ar unigolion a'r ardaloedd sydd eu hangen fwyaf i sicrhau bod ffyniant yn cael ei ledaenu i pob rhan o Gymru.

15. Rydym yn ceisio datblygu rhaglen o fuddsoddiad adfywio wedi'i dargedu yn isadeiledd ffisegol y cymunedau hynny sy'n gallu hyrwyddo adfywiad economaidd.

16. Nod y rhaglen hon yw hwyluso datblygu cynigion buddsoddi adfywio rhanbarthol a sylweddol yn Ardaloedd Adfywio diffiniedig. Yn y pen draw, mae'r math hwn o wydnwch economaidd yn gyfraniad hanfodol i les ehangach cymunedau.

17. At ddibenion y rhaglen hon, mae 'Ardal Adfywio' Llywodraeth Cymru yn lleoliad daearyddol diffiniedig lle mae adfywio a gweithgarwch integredig y prosiect yn digwydd. Bydd cwmpas daearyddol yr ardal yn amrywio yn unol ag amgylchiadau lleol - fel canol trefi, trefi marchnad gwledig, trefi glan môr, ystadau tai, er enghraifft - ond fe'i dewiswyd fel ardal ar gyfer buddsoddiad adfywio wedi'i dargedu oherwydd ei fod yn gymdeithasol-proffil economaidd, ystod gymhleth yr heriau sy'n wynebu'r ardal a'r cyfle i wrthdroi dirywiad gyda chymysgedd priodol o ymyriadau dros gyfnod penodol o fuddsoddiad.

18. Rhaid targedu buddsoddiad adfywio mewn nifer fechan o Ardaloedd Adfywio er mwyn creu mwy o effaith na lledaenu adnoddau yn denau ym mhob rhan o Gymru.

19. Rydym wedi ymrwymo i ymagwedd draws-lywodraethol. Felly, byddwn yn cefnogi prosiectau buddsoddi sy'n cyd-fynd yn glir o fewn weledigaeth ranbarthol ehangach tra'n dangos ategolrwydd ac yn ychwanegu gwerth at bolisïau a rhaglenni ehangach Llywodraeth Cymru.

20. Bydd y rhaglen yn darparu buddsoddiad cyfalaf i gefnogi cynigion prosiect sy'n cyfrannu at yr amcanion hyn. Rydym am weld cynigion sy'n lledaenu ffyniant i bawb ac yn cyfrannu tuag at gyflawni deuddeg amcanion y llywodraeth, ond gyda phwyslais cadarn ar adfywio economaidd.

21. Dylai'r blaenoriaethau a gyflwynir ar gyfer cefnogaeth fuddsoddi fod yn ymatebol i'r dadansoddiad o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r rhanbarth. Dylai cynigion ddangos sut y maent yn bwriadu ymateb i anghenion unigolion a chymunedau difreintiedig, gan dynnu, fel y bo'n briodol, ar ddata fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

22. Bydd y Panel Cenedlaethol ar Fuddsoddi Adfywio yn craffu ar gynigion rhanbarthol ar gyfer buddsoddi. Bydd angen i bob prosiect ddangos

gwerth am arian a bydd hyn yn ganolog i'r gwaith craffu a ddefnyddir gan y Panel. Bydd y Panel hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y buddsoddiad sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosib ledled Cymru. Bydd y Panel hefyd yn darparu cyngor sydd wedi'i anelu at sicrhau rhywfaint o gydlyniad ar draws rhaglenni rhanbarthol a sicrhau bod cyllidebau'n cael eu defnyddio mewn modd sy'n gwneud y defnydd gorau o ffynonellau cyllid posibl eraill i ddarparu'r canlyniadau adfywio mwyaf posibl.

## Cynlluniau rhanbarthol ar gyfer adfywio

23. Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u gilydd ar lefel ranbarthol ac mae trefniadau llywodraethu yn dod i'r amlwg y mae'r rhaglen hon yn ceisio ei adeiladu a'i gryfhau. Mae'r gwaith rhanbarthol hwn yn un elfen o ddiwygio llywodraeth leol ond mae hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau'r effaith strategol fwyaf posibl o'r buddsoddiad hwn.

24. Mae gofyniad y rhaglen hon ar gyfer sefydlu partneriaeth ranbarthol gadarn a threfniadau llywodraethu ar y cychwyn i gytuno ar gynllun cyffredinol ar gyfer adfywio, i flaenoriaethu cynigion buddsoddi a darparu sicrwydd o ran gwneud penderfyniadau. Pan fo trefniadau llywodraethu o'r fath eisoes ar waith, neu yn dod i'r amlwg, dylid addasu'r cylch gorchwyl ar gyfer partneriaethau o'r fath i gynnwys cylch gwaith adfywio ehangach, fel yr amlinellwyd yn y canllawiau hyn.

25. Bydd angen i'r rhanbarthau ddatblygu eu fframweithiau sicrwydd, gwerthuso a blaenoriaethu eu hunain er mwyn sicrhau bod prosiectau sy'n dod i'r afael â gofynion cyfreithiol yn cael eu cyflawni, ac yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd angen i ranbarthau hefyd ddangos bod cynigion ar gyfer buddsoddi yn adlewyrchu ymgysylltiad ystyrlon â'r cymunedau dan sylw.

26. Dylai trefniadau partneriaeth rhanbarthol gynnwys ystod eang o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a thynnu ar arbenigedd perthnasol o ystod o feysydd polisi.

27. Ar lefel y prosiectau unigol, bydd angen i awdurdodau lleol a phartneriaethau rhanbarthol hefyd ystyried trefniadau llywodraethu priodol ar lefel leol i oruchwylio datblygu, cyflwyno a monitro effeithiol ar gyfer prosiectau.

28. Fel rhagflaenydd i nodi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, dylid ystyried y cyd-destun strategol ehangach ar gyfer adfywio. Mae gan bob rhanbarth strategaethau sydd wedi'u paratoi sy'n nodi'r sialensiau economaidd y maent yn eu hwynebu, y cyfleoedd a gyflwynir ac yn amlinellu'r dull eang o ymdrin â hwy. Felly, dylai'r cyd-destun strategol ar gyfer adfywio fod ar gael eisoes.

29. Prif nod y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio fydd disgrifio'r fframwaith strategol ehangach hwn a darparu'r cyd-destun ar gyfer cynigion prosiect unigol. Gellir ystyried Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio fel dogfen sy'n datblygu y gellir ei haddasu i ddiwallu heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Darperir templed a awgrymir yn **Atodiad 1** a bydd angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried cyn i unrhyw brosiectau gael eu cyflwyno yn ceisio am fuddsoddiad.

## Datblygu a chyflwyno prosiectau

30. Fel rhan o'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio, dylai'r Cynllun Cyflenwi Prosiectau nodi ac amlinellu prosiectau y gellir eu datblygu a'u cyflwyno dros gyfnod amser amrywiol:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | Prosiectau y gellir eu cyflwyno o fewn 12 mis. Pe bai arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyflwyno, bydd y prosiectau sy'n barod yn y rhestr tymor byr yn cael eu datblygu yn y lle cyntaf. |
| Tymor canolig | Prosiectau y gellir eu datblygu a'u cyflwyno o fewn cyfnod o 1-3 blynedd. |
| Hir dymor | Prosiectau y gellir eu datblygu yn barod i'w darparu yn y blynyddoedd i ddod (3 blynedd +). |

31. Dylid ystyried y Cynllun Cyflenwi Prosiectau (gweler y templed yn **Atodiad 2**) fel dogfen sy'n esblygu sy'n gallu ei ddiweddaru'n rheolaidd. Bydd yn amlinellu 'llinell gynhyrchu' y prosiectau o dan ystyriaeth, sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno. Efallai y bydd y prosiectau tymor hwy yn fwy dyheadol ond yn anelu at ddangos uchelgeisiau'r rhanbarth dros gyfnod hwy.

32. Dylai prosiectau egluro pa Ardal Adfywio ddynodedig y maent yn gysylltiedig â hwy. Dylai'r cynigion ar gyfer buddsoddi hefyd ddisgrifio sut maent yn cysylltu â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol mewn Cynlluniau Lles. Dylai prosiectau adfywio hefyd egluro sut maent yn cyfrannu at yr amcanion lles a'r themâu a nodir yn Ffyniant i Bawb.

33. Mae prosiect yn weithgaredd arbennig gyda chynnig clir y gellir gwneud penderfyniad buddsoddi ynddo. Rhaid i gynigion prosiect fod yn SMART (yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn seiliedig ar ganlyniadau, yn llawn amser) a byddant yn cael eu cyflwyno trwy Ffurflen Gais Prosiect. Dylai prosiectau nodi'n glir allbynnau bwriadedig gyda diffiniad clir o ba lwyddiant fyddai yn ei fwriadu (rhestrir ein hallbynnau prosiect pennawd yn **Atodiad 3**).

34. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion cydweithredol, ar y cyd gan ddau awdurdod lleol neu fwy. Efallai y bydd lle i gynlluniau 'ymbarél' gael eu cynnig mewn Ardaloedd Adfywio diffiniedig ar draws rhanbarth cyfan. Er enghraifft, gellid datblygu cynigion gyda chyffredindeb a chanllawiau clir ar gyfer gweithredu, megis Rhaglen Gwella Adeiladau neu raglen Cartrefi uwchben Siopau, gyda dull cyson a'u gweinyddu gan un awdurdod lleol.

## Trosolwg o'r cyllid

35. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd buddsoddiadau adfywio i ddod ymlaen dros amser. Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau er y byddwn yn disgwyl i gynigion ar gyfer gwariant yn ystod 2018-19 gael eu derbyn erbyn 31 Mawrth 2018. Bydd prosiectau fel arall yn cael eu hystyried pan fydd cynnig yn barod.

36. Mae cyllideb gyfanswm o arian cyfalaf hyd at £ 100 miliwn ar gael dros gyfnod cychwynnol o 3 blynedd ar gyfer y cyfnod ar gyfer 2018-21.

37. Mae dyraniad cyllid tybiannol yn cael ei amlinellu i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio'r rhaglen ym mhob rhanbarth. Nid cyllideb sefydlog yw hwn, ond mae'n arwydd o'r gyllideb sydd ar gael dros y cyfnod 3 blynedd cychwynnol. Bydd y dyraniadau gwirioneddol yn dibynnu ar ansawdd y prosiectau a gymeradwyir a phenderfyniadau'r Panel Cenedlaethol.

38. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyraniad tybiannol, sydd wedi'i ddyrannu fesul pen. Dylid cynllunio a datblygu prosiectau yn unol â'r cyllidebau tybiannol hyn a rhaid iddynt hefyd ystyried cyllidebau blynyddol.

| **Rhanbarth** | **Dyraniad tybiannol 2018-21** |
|---|---|
| Gogledd (6 Cyngor Sir) | £22 miliwn |
| Canolbarth (2) | £7 miliwn |
| De Ddwyrain (10) | £44 miliwn |
| De Orllewin (4) | £27 miliwn |

39. Rhaid i brosiectau adfywio fanteisio'n llawn ar ba ffynonellau buddsoddi eraill sydd ar gael gan y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

40. Mae uchafswm cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru fesul prosiect yn 70% a dylid ei osod ar y lefel isaf o arian sydd ei angen er mwyn galluogi'r prosiect i symud ymlaen. Rhaid i bob prosiect sy'n ceisio buddsoddiad adfywio ddarparu cyfraniad ariannol lleiaf posibl o 30% i'r prosiect o ffynonellau nad ydynt yn Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Cyllid Llywodraeth Cymru** (methu cael ei ddefnyddio fel rhan o'r 30% cyfraniad ariannol) | e.e. SHG, WHQS, TISS, i.e. unrhyw gyllid wedi'i neilltuo sy'n ariannu sydd ar gael at ddiben penodol. |
| **Nid cyllid Llywodraeth Cymru** (medrir ei ddefnyddio fel rhan o'r 30% cyfraniad ariannol) | e.e. cyllid awdurdodau lleol, arian Loteri, yr UE, sector preifat, trydydd sector, cyllid benthyciadau Llywodraeth Cymru. |

41. Os yw'r prosiect yn ceisio cyllid i ymgymryd â gweithgareddau lle mae gan Lywodraeth Cymru raglen ar waith eisoes (e.e. Grant Tai Cymdeithasol) yna bydd y canllawiau a'r cyfraddau ymyrryd ariannu ar gyfer y rhaglenni hynny yn cael blaenoriaeth.

42. Ni fydd cyllideb refeniw ynghlwm yn benodol â'r rhaglen gyfalaf hon ond bydd angen i awdurdodau ddangos eu bod yn defnyddio mecanweithiau ac adnoddau grant presennol - refeniw a chyfalaf - i gefnogi prosiectau ac i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor eu cynnig gweithgareddau.

43. Unwaith y bydd y Cynlluniau Rhanbarthol ar gyfer Adfywio wedi'u cyflwyno a'u derbyn bydd Cronfa Datblygu Prosiect ar gael ar gyfer pob rhanbarth. Pwrpas y gronfa fydd archwilio ymhellach hyfywedd cynigion y prosiect ac i gynorthwyo i fireinio manylion y prosiect. Bydd yn rhaid i'r Panel Cenedlaethol gytuno ar gynigion ar gyfer defnyddio'r gronfa.

44. Gellid defnyddio cyllid datblygu o hyd at £200k fesul rhanbarth yn flynyddol dros y cyfnod 3 blynedd cychwynnol i gynorthwyo i ddatblygu prosiectau'n gynnar. Bydd y Gronfa Datblygu Prosiectau yn darparu cyfraniad o 50% ar gyfer costau o'r fath.

## Proses cymeradwyo prosiectau

45. Gellir cyflwyno prosiect sy'n ymddangos yn y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio ac sydd wedi ei gymeradwyo gan y rhanbarth ar gyfer ystyriaeth Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno gan awdurdod lleol fel prif bartner a derbynydd grant, gan weithredu ar ran partneriaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, lle bo'n briodol.

46. Yn y lle cyntaf, bydd Panel Adfywio Buddsoddi Cenedlaethol yn ystyried pob cais prosiect a bydd yn gwneud argymhellion buddsoddi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Bydd y Panel yn cwrdd yn rheolaidd a gellir ystyried prosiectau ar unrhyw adeg.

47. Bydd y Panel Cenedlaethol yn gyfrifol am gynghori Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch a yw prosiectau'n cynrychioli gwerth am arian ac yn cyfateb i ofynion y rhaglen. Byddant yn gwneud hynny yng ngoleuni'r meini prawf a nodir yn **Atodiad 4**.

48. Dim ond ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol y Panel y bydd y prosiectau'n cael eu hystyried pan fydd manylion llawn y prosiect yn eu lle, pan fydd caffael wedi'i gwblhau a chadarnhawyd cyllid cyfatebol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ymdrechion arian a staff yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl, bydd partneriaethau rhanbarthol hefyd yn gallu cyflwyno cynigion sy'n ceisio 'Cymeradwyaeth mewn Egwyddor' er mwyn i'r gwaith cynllunio fynd ymlaen gyda chymeradwyaeth lawn yn cael ei geisio yn nes ymlaen.

49. Ni chynigir unrhyw arian na chyhoeddir llythyr grant nes bod y cynnig prosiect llawn wedi ei gyflwyno.

## Cymorth pellach a’r camau nesaf

50. Dylid cyfeirio pob ymholiad am yr arweiniad hwn at:

    regenerationpolicy@wales.gsi.gov.uk

51. Am gyngor a chymorth ar ddatblygu'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio, cysylltwch â'ch tîm adfywio Llywodraeth Cymru lleol.

52. Y disgwyl yw bod gan Lywodraeth Cymru gyfle i drafod Cynlluniau Rhanbarthol drafft ar gyfer Adfywio gyda phob rhanbarth cyn diwedd y flwyddyn galendr gyda'r Cynlluniau wedi eu cwblhau erbyn diwedd Ionawr 2018.

53. Bydd y Gronfa Datblygu Prosiect yn agor ar gyfer ceisiadau ym mis Chwefror 2018 gyda phrosiectau yn cael eu cyflwyno i'w hystyried o fis Mawrth 2018.

54. Cyhoeddir dogfennau pellach, megis y Ffurflen Gais Prosiect a'r canllawiau ategol, ym mis Ionawr 2018.

55. Bydd Bwrdd Rhaglen Adfywio, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn goruchwylio cyflwyno rhaglenni ledled Cymru a bydd yn gofyn am gynrychiolaeth o bob rhanbarth.

## Atodiad 1

## Cynllun Adfywio Rhanbarthol (templad awgrymol)

| | |
|---|---|
| 1 | **Gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth** |
| 2 | **Trosolwg rhanbarthol**<br>• Dadansoddiad o faterion a heriau sy'n wynebu'r rhanbarth, gan gynnwys dadansoddiad o anfantais ac amddifadedd gan dynnu ar dystiolaeth fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;<br>• Dadansoddiad o gyfleoedd ar gyfer adfywio;<br>• Dadansoddiad o gyfleoedd ar gyfer cyd-fynd â blaenoriaethau strategol rhanbarthol ehangach, e.e. Bargeinion Dinesig, Tasglu'r Cymoedd. |
| 3 | **Trefniadau Partneriaeth a Llywodraethu**<br>• Trefniadau amlinellol sydd ar waith i gytuno ar gynllun cyffredinol ar gyfer adfywio, i flaenoriaethu cynigion buddsoddi a darparu sicrwydd ynghylch gwneud penderfyniadau. |
| 4 | **Ymagwedd at fuddsoddiad adfywio wedi'i dargedu**<br>• Dull o gefnogi adfywiad economaidd yng nghyd-destun amcanion Ffyniant i Bawb ac amcanion Llywodraeth Cymru<br>• Nodau ac amcanion ar gyfer adfywio<br>• Nodi Ardaloedd Adfywio a'r rhesymeg dros fuddsoddi |
| 5 | **Trosolwg o brosiectau allweddol**<br>• Crynodeb o'r prosiectau sy'n cael eu cynnig<br>• Crynodeb o'r allbynnau sy'n cael eu cynnig |
| 6 | **Cynllun Cyflawni Prosiectau (gweler Atodiad 2)**<br>• Manylion prosiectau a throsolwg ariannol |

## Atodiad 2

## Cynllun Cyflawni Prosiectau (templad awgrymol)

| **Enw'r prosiect & disgrifiad byr** | **Cyllid adfywio** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** | **Dyfodol £** |
| Tymor byr | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Tymor canolig | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Hir dymor | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | |

## Atodiad 3

## Prif allbynnau

| Cyfeirnod | Allbwn |
|---|---|
| TRI 1 | Swyddi gros wedi'u creu |
| TRI 2 | Nifer y Swyddi a Lletyir (wedi'u galluogi trwy fuddsoddiad adfywio) |
| TRI 3 | Nifer y swyddi a grëwyd yn y sector adeiladu o ganlyniad i fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru. |
| TRI 4 | Cyfanswm nifer yr hyfforddeion ar y prosiect. |
| TRI 5 | Nifer yr ymadawyr hyfforddeion sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach (ar lefel uwch) neu gyflogaeth (gan gynnwys cyflogaeth gyda'r contractwr) |
| TRI 6 | Buddsoddiad a ysgogwyd (£) |
| TRI 7 | Mentrau wedi'u lletya |
| TRI 8 | Hectarau Tir wedi'i ddatblygu |
| TRI 9 | Adeiladau Di-breswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd (sgwâr) |
| TRI 10 | Adeiladau Di-breswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd (rhif) |
| TRI 11 | Nifer yr unedau tai marchnad ychwanegol (Adeiledig neu barod ar gyfer Galwedigaeth - o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth adfywio) |
| TRI 12 | Nifer yr unedau tai Cymdeithasol Ychwanegol a gyflwynir (Adeiladwyd neu yn barod ar gyfer Galwedigaeth - o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth adfywio) |
| TRI 13 | Nifer yr unedau tai Canolradd Ychwanegol a gyflwynir (Adeiladwyd neu barod ar gyfer Galwedigaeth - o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth adfywio) |
| TRI 14 | Nifer yr aelwydydd a helpodd tuag at sicrhau gwelliant ym mherfformiad ynni eu cartrefi |
| TRI 15 | Nifer y cartrefi gwag a ddygwyd yn ôl i ddefnydd |
| TRI 16 | Nifer yr unedau dibreswyl a ddygir yn ôl i ddefnydd |
| TRI 17 | Amcangyfrif o Gostyngiad mewn Allyriadau Cyfwerth CO2 |
| TRI 18 | Nifer sy'n cwblhau cyrsiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth neu ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth |
| TRI 19 | Nifer y busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n llwyddiannus wrth sicrhau contractau / is-gontractau |
| TRI 20 | Gwerth contractau / is-gontractau a ddyfernir i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru (£) |

Darperir diffiniadau allbwn o fewn canllawiau Ffurflen Gais y Prosiect yn ddiweddarach.

## Atodiad 4

## Meini Prawf Prosiectau

| Maen prawf | Prif ystyriaethau | Sgor | Pwysau |
|---|---|---|---|
| Dadansoddiad cyd-destunol a ffit strategol | • Alinio gyda nodau Ffyniant i Bawb ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru<br>• Aliniad o fewn cyd-destun rhanbarthol ehangach<br>• Yn dangos strategaeth glir ar gyfer ardal<br>• Ymwybyddiaeth o heriau a chyfleoedd lleol<br>• Ymateb i nodau ac amcanion adfywio | /5 | X3 |
| Asesiad Lles Cenedlaethau'r Dyfodol | • Tystiolaeth o bum ffordd o weithio<br>• Tystiolaeth o gyfrannu at nodau lles<br>• Tystiolaeth o alinio â Chynlluniau Lles Lleol | /5 | X3 |
| Rhesymeg a Dull Gweithredu'r Prosiect | • Cyfrannu'n glir at strategaeth ardal<br>• Tystiolaeth o angen am brosiect<br>• Rhesymau dros ymgymryd â'r gweithgaredd<br>• Achos clir ar gyfer newid<br>• Ansawdd cyffredinol ac eglurder y cynnig | /5 | X2 |
| Budd-dal ac effaith | • Cyfraniad at adfywio economaidd<br>• Cyfraniad at ledaenu ffyniant a mynd i'r afael ag amddifadedd<br>• A yw'r prosiect yn darparu buddion mesuradwy?<br>• Cynnig clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau<br>• Cynnig manwl ar gyfer sut y caiff y rhain eu mesur | /5 | X4 |
| Costau prosiect a Gwerth am Arian | • Cynnig ariannol clir gyda dadansoddiad o gost<br>• Mae'r costau'n realistig ac yn cynrychioli gwerth gorau?<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian wrth ystyried buddion ac effaith | /5 | X4 |
| Y gallu i'w gyflawni | • Ymagwedd Llywodraethu a Phartneriaeth gadarn<br>• Rheoli Prosiectau - Tîm a Phrofiad<br>• Cynllun prosiect clir<br>• Cynnig gwerthuso<br>• Hyfywedd, Cynaliadwyedd a Chyflawnadwyedd<br>• Strategaeth ymadael | /5 | X4 |
| | | 30 | 100 |

**Sgorir pob maen prawf o 5 (caniateir hanner marc)**

| | |
|---|---|
| 0 | Mae'r cynnig yn methu â mynd i'r afael â'r maen prawf dan archwiliad neu ni ellir ei farnu oherwydd gwybodaeth sydd ar goll neu'n anghyflawn. |
| 1 | Gwael iawn. Rhoddir sylw i'r maen prawf mewn modd anfoddhaol. |
| 2 | Gwael. Mae gwendidau cynhenid difrifol mewn perthynas â'r maen prawf. |
| 3 | Teg. Er bod y bwriad yn mynd i'r afael â'r maen prawf yn fras, mae yna wendidau sylweddol y byddai angen eu cywiro. |
| 4 | Da. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r maen prawf yn dda, er bod rhai gwelliannau'n bosibl. |
| 5 | Rhagorol. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â phob agwedd berthnasol o'r maen prawf yn llwyddiannus ac mae unrhyw ddiffygion yn fach. |

# *Cynllun Adfywio Gogledd Cymru*

## 2018-2035

## Drafft Terfynol

## MYNEGAI

**Gweledigaeth** .................... 3

**Cyflwyniad** .................... 4

**Trosolwg Rhanbarthol** .................... 5

**Y Cyd-destun Economaidd Rhanbarthol** .................... 8

**Materion a heriau** .................... 10

**Amcanion** .................... 11

**Cysylltiadau â Strategaethau Eraill** .................... 12

**Blaenoriaethau Adfywio Gogledd Cymru: 2018-2035** .................... 15

**Trefniadau Llywodraethu** .................... 37

**Monitro** .................... 38

**Cyfathrebu** .................... 40

**ATODIAD 1** .................... 43

**1.1 Cynigion Newydd - Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio Llywodraeth Cymru (2018-21)** .................... 43

**ATODIAD 2: Dadansoddi Data - methodoleg a rhesymeg** .................... 55

**ATODIAD 3 - Proffiliau Ardal** .................... 57

## GWELEDIGAETH

### Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru - Gweledigaeth Drawsnewidiol

Mae'r Strategaeth hon yn nodi’r weledigaeth a’r amcanion a rennir ar gyfer buddsoddiad a gweithgarwch sector cyhoeddus cydlynol yng Ngogledd Cymru hyd 2035. Gweler isod ein cyd-ddatganiad o weledigaeth:-

**Erbyn 2035, bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, mwy o gyflogaeth, canol trefi wedi'u moderneiddio, gwell cynnig tai, economi ymwelwyr cryfach, economi gwledig gwydn, a gwell iechyd i bobl leol.**

Mae'r Strategaeth yn rhoi arweiniad ar sut ddylid blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael, ac yn ein helpu i alinio'r broses adfywio â mentrau eraill i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael i gymaint o bobl a chymunedau â phosib ar draws y rhanbarth.

## CYFLWYNIAD

Mae Gogledd Cymru yn cael ei ddiffinio gan ardaloedd chwe awdurdod lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Fodd bynnag, mae daearyddiaeth economaidd pob sir fymryn yn wahanol. Mewn termau economaidd, yn fras, mae Gogledd Cymru wedi'i rhannu'n ddwyrain-gorllewin, gyda Sir y Fflint a Wrecsam yn Nwyrain Cymru, gyda chysylltiadau cryf â Chaer a Gorllewin Swydd Caer - drwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ac mae'r pedair sir arall wedi'u cynnwys yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae'r rhaniad hwn yn bwysig gan ei fod yn adnabod ffyniant perthynol rhannau'r rhanbarth, gyda gogledd ddwyrain Cymru'n perfformio'n well yn economaidd na gogledd orllewin Cymru - sy'n egluro pam fod gan ogledd orllewin Cymru fynediad i symiau sylweddol o arian o gronfa datblygu rhanbarthol yr UE. Wedi dweud hyn, mae gogledd Cymru gyfan ar ôl gweddill y DU o ran perfformiad economaidd.

Mae Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru 2017-2035 wedi'i sefydlu sy'n adnabod sectorau allweddol a all yrru a gwella perfformiad economaidd y rhanbarth gan adeiladu ar gryfderau allweddol.

O ganlyniad i'r newidiadau yn yr economi, mae prif drefi rhanbarth gogledd Cymru hefyd wedi bod yn dirywio'n araf, ac mae hyn wedi dod yn amlwg ar ffurf dirywiad ffisegol ac eithrio cymdeithasol. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar y cyd ag ymyraethau economaidd strategol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy lle mae'r trigolion yn meddu ar y sgiliau a'r amgylchedd i gael mynediad at y cyfleoedd fydd yn newid cyfeiriad y rhanbarth i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gan Ogledd Cymru gyflenwad priodol o opsiynau tai o ansawdd da. Mae'n debygol y bydd y galw am dai yn cynyddu'n sylweddol mewn blynyddoedd i ddod ac mae angen i ogledd Cymru ymateb i hyn er mwyn bodloni'r galw.

Mae adfywio yn cael ei ddiffinio fel y broses lle rydym yn ***"rhoi bywyd newydd i ardal"*.** Yn yr achos hwn, mae cymunedau Gogledd Cymru wedi dioddef cenedlaethau o ddirywiad a than-fuddsoddiad a lle mae'r diffyg ymyrraeth sector cyhoeddus wedi arwain at fawr ddim neu ddim diddordeb o gwbl gan y sector preifat.
Mae'n bwysig cydnabod, ar ôl cenedlaethau o ddirywiad araf, nid yw Adfywio'n rhywbeth sy'n digwydd dros nos.

Mae Adfywio'n broses hirdymor, ac mae angen canfod datrysiadau cyllido o'r sector preifat, sy'n rhoi parhad a sicrwydd, er mwyn ymdrin â gwir symptomau'r dirywiad a denu hyder a buddsoddiad o'r sector preifat i'r rhanbarth.

Mae Cynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru'n gosod strategaeth ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhanbarth hyd 2035.

## TROSOLWG RHANBARTHOL

Ers cryn amser, mae'r chwe ALl a phartneriaid yn y sector preifat, y trydydd sector, AU ac AB, wedi cydnabod bod angen newid a bod gogledd Cymru angen hwb sylweddol os ydyw'n dymuno peidio â syrthio ymhellach ar ôl gweddill y DU.

Mae'r achos hwn dros newid yn seiliedig ar:

- y dirywiad parhaus mewn perfformiad economaidd
- y mesurau caledi ariannol parhaus, a'r
- gydnabyddiaeth y bydd gwneud yr un pethau'n cyflawni'r un canlyniadau ac oni bai bod y rhanbarth yn cydio yn y cyfle i ddatblygu ffocws clir ar gyfer yr economi, ac yn blaenoriaethu camau gweithredu fydd yn arwain at newid sylweddol mewn perfformiad, y bydd yn parhau i fod ar ôl gweddill y DU.

Fodd bynnag, mae hyn yn anodd iawn i'w gyflawni pan fo'r gwahaniaethau o fewn gogledd Cymru'n parhau i dyfu:

- cwympodd GVA y pen yng Nghymru o 76% o gyfartaledd y DU yn 2000, i 71% yn 2008
- dros y cyfnod 2000-2008, tyfodd economi'r DU 50% ac economi Cymru 42%. Dim ond twf o 36% a welwyd yng ngogledd Cymru a bellach yma ceir tair o'r siroedd sy'n perfformio waethaf yn y DU – Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych.
- nid yw arian o Ewrop wedi gwneud fawr i rwystro'r dirywiad
- er gwaethaf eu mantais o gael cwmnïau gweithgynhyrchu mawr fel Airbus, Toyota, Kellogg a JCB yn eu siroedd, dim ond twf o 27% a welwyd yn Wrecsam a Sir y Fflint ers 2000
- mae cynhyrchedd yn parhau i syrthio ymhellach y tu ôl i lefelau'r DU
- mae lefelau diweithdra ymysg yr ifanc yn uchel yng ngogledd Cymru ac mae'r gyfradd gyfartalog yn uwch na chyfradd y DU.

Mae cynhyrchedd isel economi gogledd Cymru'n cael ei adlewyrchu yng nghyflogau a ffyniant ei dinasyddion. Ar draws y rhanbarth, mae cyflogau'n syrthio'n sylweddol y tu ôl i gyfartaledd y DU (mae Sir Ddinbych ar -18% a Gwynedd ar -22% ymysg y 10% isaf ar gyfer y DU gyfan) ac, heblaw am Sir y Fflint, mae cyflogau ym mhob sir yn is na chyfartaledd Cymru (*ONS Annual Survey of Hours and Earnings 2016*, http://bit.ly/2ydCFjP).

Er bod gan ogledd Cymru dreftadaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol unigryw sy'n rhoi ymdeimlad cryf o gymuned a hunaniaeth, mae hefyd ar yr ymylon ac yn profi cysylltedd gwael â rhannau eraill o'r DU. Yna, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr heriau economaidd sy'n wynebu'r rhanbarth:

- economi anghytbwys gyda gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus
- llai o gwmnïau mawr neu gorfforaethau a chyfleoedd cyflogaeth mwy cyfyngedig, cynhyrchedd a chyflogau isel
- allfudo ymysg pobl ifanc – yn aml hwy yw'r rhai sydd â'r mwyaf o gymwysterau
- lefelau uchel o anweithgarwch economaidd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2008) (WIMD) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd mewn ardaloedd bychain yng Nghymru a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.  Mae wedi'i ddylunio i adnabod yr ardaloedd bychan hynny, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs), lle ceir y crynodiadau uchaf o wahanol fath o amddifadedd. Mae hwn yn cydnabod amddifadedd incwm a chyflogaeth, ond hefyd mae'n ystyried ffactorau eraill megis yr amgylchedd a mynediad i wasanaethau, sydd oll yn ffactorau sylweddol o ran dirywiad rhanbarth.

Mae cyfanswm o 1909 o ardaloedd ar draws Cymru wedi'u mesur a'u rancio ar WIMD o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).   Mae gan ogledd Cymru nifer o ardaloedd sydd o fewn y 10% uchaf o ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Yn bennaf, mae'r rhain wedi'u lleoli ar draws ardaloedd arfordirol ac ardaloedd ar y ffin yng ngogledd Cymru.  Mae dau LSOA yng ngogledd Cymru wedi'u rancio fel yr ail a'r trydydd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (trefi'r Rhyl a Wrecsam yn ôl eu trefn).

Wrth ddefnyddio methodoleg dadansoddi clwstwr â'r data hwn, mae modd adnabod y trefi hynny ar draws gogledd Cymru sydd â'r crynodiad mwyaf o drigolion yn byw o fewn y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Atodiad 2). Mae adnabod trefi yn hytrach nag ardaloedd ynysig o amddifadedd yn rhoi ffocws i weithgareddau adfywio er mwyn targedu lleoliadau sy'n economaidd briodol ar gyfer buddsoddiad adfywio.  Yn ogystal, mae hyn yn golygu bod modd mesur effaith y cynllun yn fwy effeithiol.

**Tabl 1:** Y trefi mwyaf difreintiedig yng ngogledd Cymru yn ôl trefn poblogaeth

| | |
|---|---|
| 1. Y Rhyl | 7. Treffynnon |
| 2. Tref Wrecsam | 8. Shotton |
| 3. Bangor | 9. Llandudno |
| 4. Bae Colwyn a Llysfaen | 10. Dinbych |
| 5. Caernarfon | 11. Caergybi |
| 6. Newbridge/Cefn a Phlas Madoc (pentrefi Wrecsam) | 12. Abergele a Phensarn |

Mae'n bwysig cydnabod y bydd anghenion amddifadedd ac adfywio’n bodoli y tu allan i'r 12 anheddiad sydd â'r flaenoriaeth uchaf.  Mae'r anghenion hyn yn dal yn bwysig i ogledd Cymru a bydd yn gofyn am ymyrraeth dros oes y Cynllun hwn, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.  Gellir cydnabod ffurf yr amddifadedd hwnnw mewn sawl ffordd, amddifadedd gwledig, ardaloedd sydd wedi'u rancio yn y degradd 10-20% yn y WIMD, neu'r ardaloedd hynny sydd â sgoriau uchel mewn dangosyddion tlodi ac amddifadedd unigol.  Maent oll yn hanfodol o ran llesiant y cymunedau sydd wedi'u heffeithio, ond rhaid eu hystyried mewn cyd-destun rhanbarthol.

Bydd y rhanbarth yn mynd ati'n weithgar i ddatblygu dull priodol o adnabod a chategoreiddio amddifadedd mewn cyd-destun gwledig, o bosib gan ddefnyddio ffactorau megis diweithdra, cyflogau isel, costau cynyddol a mynediad cyfyngedig i wasanaethau a chyfleoedd, yn ystod camau cychwynnol gweithrediad y Cynllun hwn.

**Map 1**:  Map o'r Ardaloedd ar draws gogledd Cymru gyda'r angen uchaf am adfywio a'r Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth ar gyfer 2018-2021



## Y CYD-DESTUN ECONOMAIDD RHANBARTHOL

Yn 2016, mabwysiadodd y sefydliadau partner ar draws y rhanbarth y Weledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru. Disgrifiodd y weledigaeth ogledd Cymru fel "Rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i gysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."

Mae'r ddogfen hon yn gosod strategaeth ac uchelgais i ogledd Cymru i gyflawni'r weledigaeth drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth a seilwaith, gwella sgiliau a chyflogaeth, a chefnogi arloesedd a thwf busnes. Mae'r strategaeth yn dyheu i wella pa mor gystadleuol yw'r rhanbarth, cynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yr economi rhanbarthol a lleihau'r bwlch rhwng GVA'r rhanbarth a chyfartaledd y DU, a thyfu busnes i greu swyddi newydd a gwarchod swyddi presennol.

Mae gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad gan Lywodraeth y DU i ddatblygu Cais Twf er cymeradwyaeth. Mae Cais Twf, sy'n tarddu o'r rhanbarth, yn gynnig ffurfiol am fuddsoddiad gan y Llywodraeth a chyflwyno pwerau datganoledig. Cyflwynwyd Cais Twf Gogledd Cymru i Lywodraethau'r DU a Chymru ym mis Tachwedd 2017.

Gallai deilliannau strategol y Cais Twf gynnwys: -

- Gwerthoedd uwch ar gyfer safleoedd cyflogaeth a thai strategol;
- Safleoedd strategol yn fwy parod ar gyfer buddsoddiad;
- Gwell mynediad trafnidiaeth er mwyn, er enghraifft, lleihau amseroedd teithio i safleoedd cyflogaeth strategol;
- Mwy o gludiant cyhoeddus;
- Cynnydd mewn buddsoddi busnes a gwell perfformiad busnes;
- Gwella lefelau cyflogaeth;
- Y sgiliau sydd ar gael yn gynyddol fodloni anghenion y sectorau allweddol yn y rhanbarth;
- Gostyngiad mewn diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau;
- Cynnydd mewn incwm aelwyd cyfartalog;
- Cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA);
- Mwy o gyflenwad tai; a
- Cynnydd mewn cynhyrchu cyflenwad ynni amgen ac adnewyddadwy a lleihau carbon.

Mae'r weledigaeth a'r strategaeth yn adeiladu ar y cysylltiadau cryf a'r cynllunio ar y cyd o fewn y rhanbarth, drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r partneriaethau ar draws ffiniau megis Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy. Mae'r Gynghrair hon wedi hwyluso cydweithio gyda Phartneriaeth Mentrau Lleol Swydd Caer a Warrington, Merseytravel, a Rhwydwaith ehangach Pwerdy'r Gogledd. Mae ceisiadau twf LEP Gogledd Cymru a Swydd Caer a Warrington yn cael eu datblygu gyda'i gilydd ac mae'r naill yn dibynnu ar y llall er mwyn llwyddo. Yn ogystal, mae Gogledd Cymru yn gwneud cyfraniadau i strategaeth ehangach rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd. Er enghraifft, enwebu prif safleoedd strategol ar gyfer twf busnes a mewnfuddsoddi. Mae seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd a chysylltedd, ynghyd â chynllunio trafnidiaeth yn ehangach, gan gynnwys llwybrau bysiau, yn ganolog i Strategaeth Twf Gogledd Cymru. Mae'r cynllun Growth Track 360, sy'n gwneud achos dros fuddsoddi mewn rheilffyrdd ar draws ffiniau, yn symud ymlaen drwy gamau gwneud achos a gwneud penderfyniad Llywodraethol. Mae Symud Gogledd Cymru Ymlaen - Ein Gweledigaeth i Ogledd Cymru Llywodraeth Cymru, ynghyd â Metro i Ogledd-ddwyrain Cymru, yn cefnogi amcanion trafnidiaeth y rhanbarth a symudiad cludiant gwaith ar draws ffiniau.


Ar hyn o bryd, mae deuddeg prosiect yn cael ei ddatblygu dan dair ffrwd gwaith:

1. Gogledd Cymru Wydn - sgiliau, cyflogaeth a thai
2. Gogledd Cymru Gysylltiedig - seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd digidol
3. Gogledd Cymru Flaengar - twf busnes ac arloesedd

Mae achosion busnes manwl wrthi'n cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU.

Swyddogaeth y cynllun adfywio hwn yw sicrhau bod y trigolion a'r busnesau ar draws gogledd Cymru, ac yn enwedig yn y cymunedau difreintiedig hyn, yn medru cael mynediad i'r cyfleoedd economaidd fydd yn gwella perfformiad y rhanbarth, a'u bod yn elwa o hynny. Tra bydd y strategaeth sgiliau rhanbarthol yn cynorthwyo pobl i gael y sgiliau a'r arbenigedd perthnasol, y cynllun hwn fydd yn sicrhau bod ganddynt amgylchedd lle y gallant feithrin y sgiliau hynny. Sicrhau fod y stoc tai presennol yn briodol ac yn ynni effeithlon. Sicrhau fod y canol trefi'n darparu gwasanaethau priodol, cynigion manwerthu, hamdden a diwylliannol. Sicrhau fod yr eiddo 'segur' yn ein cymunedau yn canfod defnyddiau hyfyw a chynaliadwy ar gyfer y 21ain ganrif. Sicrhau iechyd a llesiant parhaus y cymunedau hynny a'u bod yn gynhwysol. Bodloni'r heriau sy'n cael eu creu yn sgil dad-boblogi wledig.

**Diagram 1:** Strwythur Economaidd ac Adfywio i ogledd Cymru




## MATERION A HERIAU

Mae partneriaethau rhanbarthol a negodi mewn cysylltiad â Chynllun Twf i ogledd Cymru wedi cryfhau'r dull strategol o ymdrin â'r heriau adfywio sy'n bodoli yng ngogledd Cymru.

Mae'r rhain yn debygol o ddod â chyfleoedd arwyddocaol i ogledd Cymru ac mae'n bwysig, wrth gydweithio, bod buddion y rhain yn cael eu huchafu ar y cryfderau sy'n bodoli'n barod ar draws y rhanbarth. Ar yr un pryd, mae'n bwysig adnabod a chymryd camau i ymdrin â'r ffactorau hyn, sy'n debygol o lesteirio llwyddiant.

**Tabl 3** : Dadansoddiad SWOT yn tynnu sylw at y materion allweddol, yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y rhanbarth

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Crynodiadau cyflogaeth mawr ar draws y rhanbarth<br>• Rhwydwaith teithio'n cysylltu cymunedau gogledd Cymru gydag ardaloedd cyflogaeth<br>• Datblygiad seilwaith mawr yn y rhanbarth megis Wylfa a'r Morlun Llanw<br>• Darpariaeth AU a sail gwybodaeth ymchwil gref<br>• Hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth gref<br>• Cynnig twristiaeth cryf, yn enwedig yng ngogledd orllewin Cymru | • Y rhwydwaith teithio'n annigonol i alluogi mynediad effeithiol i gyfleoedd mewn sawl cymuned, yn enwedig yng ngogledd Cymru wledig<br>• Isadeiledd TG yn annigonol<br>• Sgiliau lleol yn annigonol i fodloni anghenion y farchnad lafur yn y dyfodol<br>• Cyflenwad tai yn annigonol ar gyfer anghenion yn y dyfodol ac ardaloedd gyda thai o ansawdd gwael / HMOs yn lleihau dewis ac ansawdd bywyd<br>• Bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi'n wan mewn sawl man yn sgil newid yn ymddygiad cwsmeriaid<br>• Y farchnad eiddo masnachol yn wan<br>• Canran uchel o gyflogaeth sectorau cyhoeddus a gwasanaethu<br>• Cyflogau isel mewn rhai ardaloedd<br>• Lefel uchel o hunangyflogaeth a microfusnesau<br>• Ynysigrwydd ac amseroedd teithio o fewn y rhanbarth |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Buddsoddiad Cynllun Twf arfaethedig a chreu swyddi<br>• Buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth yn gwella mynediad i gyflogaeth ac yn annog buddsoddiad<br>• Buddsoddiad Cynllun Twf mewn sgiliau a chyflogaeth yn gwella cyfleoedd economaidd i unigolion mewn cymunedau difreintiedig<br>• Buddsoddiadau strategol mawr yn rhoi cyfle i gryfhau'r cadwyni cyflenwi rhanbarthol a'r economi sylfaenol. | • Arferion manwerthu sy'n newid a'r effaith ar ganol trefi - Rhyngrwyd / siopa y tu allan i'r dref<br>• Colli busnesau a gwasanaethau allweddol i drefi a phentrefi yn bygwth cynaliadwyedd<br>• Nifer yr ail gartrefi yn y rhanbarth<br>• Pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus<br>• Economeg Byd-eang ac Ewropeaidd yn creu ansicrwydd<br>• Hyfywdra ardaloedd gwledig a chymunedau llai |

| | |
|---|---|
| | • Colli diwylliant a'r bygythiad i gadarnleoedd yr iaith Gymraeg |

## AMCANION

Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn ceisio:

- **Lleihau anghydraddoldeb** - drwy helpu mwy o bobl i rannu buddion twf yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar gefnogi'r rhai gyda'r incwm aelwyd isaf i gael mynediad at gyfleoedd.
- **Cynyddu cyflogaeth** - creu cyfleoedd am gyflogaeth drwy brosiectau adfywio.
- **Moderneiddio canol trefi** - drwy adeiladu ar eu swyddogaeth fel canolfannau am gyfleoedd economaidd lleol, darpariaeth gwasanaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Adnabod eu swyddogaeth yn yr economi sylfaenol a'u helpu i addasu i newid economaidd.
- **Datblygu'r economi wledig** - helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy drwy gael mynediad at gyfleoedd economaidd a mynediad at wasanaethau.
- **Gwella'r cynnig tai** - drwy sicrhau fod y datblygiad yn digwydd lle mae galw, gan ddarparu opsiynau tai o ansawdd da i drigolion presennol, pobl ifanc a phobl sy'n symud i'r ardal.
- **Cryfhau'r economi twristiaid** - drwy adeiladu ar y cynnig twristiaid a'r cryfderau sy'n bodoli yn y rhanbarth gan gynnwys y marchnadoedd twristiaeth antur a threftadaeth, ynghyd â darparu lleoliad atyniadol i ddigwyddiadau mawr mewn safleoedd sydd o bwys rhanbarthol megis Parc Eirias a Chae Ras Wrecsam. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a darparu canol trefi modern, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'n trefi ac sy'n gwario yn yr economi lleol.
- **Gwella iechyd pobl leol** - drwy greu mannau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, drwy ddarparu amgylcheddau a mannau gwyrdd o ansawdd a thrwy drechu tlodi yn ein cymunedau mwyaf eithriedig.

## CYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU ERAILL

Mae Cynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru'n cymryd golwg holistaidd ar adfywio ac wrth wneud hynny, bydd yn gwneud cyfraniad gweithredol i strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill o bwys megis strategaeth Ffyniant i Bawb, Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

| Amcanion Adfywio Rhanbarthol | Ffyniant i Bawb | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau |
|---|---|---|
| **Lleihau anghydraddoldeb** | Cyfrannu'n uniongyrchol at **daclo anghydraddoldeb rhanbarthol** drwy dargedu'r ardaloedd hynny gyda'r amddifadedd mwyaf crynodedig. Bydd prosiectau'n ceisio **arfogi pobl leol â'r sgiliau cywir** i gymryd rhan yn y cyfleoedd nawr ac yn y dyfodol.<br>Mae hyn yn cyflwyno'r **maes gweithredu blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd** a'r **maes gweithredu blaenoriaeth iechyd meddwl.** | Mae blaenoriaethu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn ceisio ymgysylltu â'r bobl fwyaf eithriedig ar draws y rhanbarth. Drwy gefnogi pobl i ymgymryd â chyflogaeth neu fynd ymlaen i swyddi gwell i gynyddu incwm yr aelwyd, bydd hynny yn ei dro'n rhoi mynediad i gyfleoedd pellach. Mae hyn yn cefnogi'r amcan o **Gymru fwy cyfartal**. |
| **Moderneiddio canol trefi** | Bydd canol trefi modern yn darparu amgylchedd priodol **i fusnesau yrru ffyniant lleol**, darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol a darparu **gwell amgylcheddau i hyrwyddo iechyd a llesiant** y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'n canol trefi. Yn ogystal, bydd yr amcan hwn yn cyflwyno cyfleoedd i **bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a gwneud y mwyaf o'u potensial.**<br>Mae hyn yn cyflwyno'r **maes gweithredu blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd.** | Bydd adfywio canol trefi allweddol yn cefnogi'r nod o **Gymru ffyniannus**. Bydd creu canol trefi bywiog a deniadol yn denu mwy o bobl iddynt ac yn cynyddu gwariant, gan gefnogi twf busnesau lleol a chynnydd mewn cyfleoedd gwaith. Mae sicrhau buddsoddiad i ogledd Cymru'n gyffredinol gadarnhaol i'r gadwyn gyflenwi leol a busnesau lleol a bydd gweithredu egwyddorion adfywio cynaliadwy yn sicrhau bod yr amcanion hyn yn gwneud cyfraniad llawn i **Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**. Bydd ymgysylltu â busnesau a phobl leol o ran datblygu eu canol trefi yn cyfrannu at **gymuned gydlynol.** |
| **Gwell cynnig tai** | Mae tai o ansawdd gwael yn cyfrannu at iechyd gwael. Bydd ymdrin â'r angen tai lleol gan ddarparu tai priodol o ansawdd yn cefnogi cyflwyno **cymunedau iachach a gwell amgylcheddau** ac | Bydd darparu llety o ansawdd da yn hyrwyddo gwell iechyd gan gefnogi'r nod o **Gymru iachach**. Bydd dod ag eiddo gwag i ddefnydd neu adnewyddu tai o ansawdd gwael yn gwella'r |

| | | |
|---|---|---|
| | yn **cyflwyno'r maes gweithredu blaenoriaeth tai** yn uniongyrchol. | cynnig tai ledled y rhanbarth fel ei fod yn fodern ac yn ynni effeithlon gan gefnogi'r nod i gyflawni **Cymru gydnerth**. |
| **Cryfhau'r economi twristiaid** | Bydd gweithgareddau i gryfhau'r economi ymwelwyr yn **hyrwyddo ac amddiffyn lle Cymru yn y byd, gan hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb** a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau yn lleol. Mae hyn yn cyflwyno'r **maes gweithredu blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd.** | Bydd cynyddu niferoedd ymwelwyr yn y rhanbarth yn cefnogi'r nod o **Gymru lewyrchus** . Bydd nifer o atyniadau i ymwelwyr a busnesau lleol yn dathlu treftadaeth a diwylliant y wlad gan gefnogi datblygiad o **Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** |
| **Amddiffyn yr economi leol** | Bydd cymryd camau i sefydlogi trefi a phentrefi gwledig yn **cefnogi busnesau i yrru ffyniant** a chefnogi datblygiad entrepreneuriaeth, **adeiladu uchelgais ac annog dysgu gydol oes**. Mae hyn yn cyflwyno'r **maes gweithredu blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd.** | Mae buddsoddi mewn cymuned yn darparu teclyn y gellir ei ddefnyddio i gael budd-ddeiliaid lleol yn rhan o ddatrysiadau cyd-gynhyrchu ac entrepreneuriaeth. Mae'r ymrwymiad hwn i atal dirywiad yn cefnogi'r nod o **gymuned gydlynol**. |
| **Gwella iechyd pobl leol** | Mae deilliannau iechyd yn isel mewn ardaloedd difreintiedig ac yn aml mae iechyd meddwl a chorfforol yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan. Bydd gweithgareddau adfywio sy'n targedu'r ardaloedd mwyaf crynodedig o amddifadedd yn hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb ac yn helpu i **adeiladu cymunedau iachach.**<br><br>Bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at **faes gweithredu blaenoriaeth iechyd meddwl.** | Bwriad y cynllun adfywio hwn yw cyflwyno newid trawsnewidiol fydd o fudd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar draws y rhanbarth. Bydd mwy o gyfleoedd gwaith a chynnydd mewn incwm aelwydydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau iechyd. Bydd adnewyddu tai a chynlluniau sy'n darparu amgylchedd mwy deniadol ac annog gweithgarwch hefyd yn cyfrannu at y nod o **Gymru iachach**. |

Er mwyn i'r cynllun hwn lwyddo, rhaid sicrhau bod y prosiectau adfywio sy'n targedu buddsoddiad cyfalaf mewn **Lle** yn adnabod ac yn integreiddio â chyflwyno rhaglenni Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru perthnasol megis OPUS, Adtrac a Chymunedau am Waith sy'n gweithio â **Phobl** o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

Nid yw Tlodi ac Amddifadedd yn broblem newydd yn y cymunedau hyn. Er mwyn gwneud gwelliant hir-barhaus, mae angen canolbwyntio ar y genhedlaeth nesaf, codi dyheadau a chyflawniad, gwella safonau byw drwy godi incwm aelwydydd, ynghyd â darparu cyfleoedd i'r dyfodol drwy greu economi lleol bywiog. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ar draul anghenion poblogaeth sy'n heneiddio gan eu bod hwythau'n rhan yr un mor bwysig o'r cymunedau hyn.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u hadnabod yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| | |
|---|---|
| **Atal** | Bydd darparu amgylcheddau o ansawdd a chodi dyheadau ein plant a phobl ifanc yn eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Drwy ystyried anghenion pobl hŷn, byddwn yn sicrhau cynhwysiad i bobl o bob oedran wrth i'r demograffi newid. Drwy greu amgylchedd ar gyfer twf economaidd, byddwn yn diogelu cyfleoedd economaidd i bobl leol i'r dyfodol. |
| **Hirdymor** | Mae angen i'n prosiectau adfywio ffisegol ystyried sut fydd ein cymunedau'n newid er mwyn darparu datrysiad adfywio cadarn a hirhoedledd iddo. Bydd ystyried anghenion newidiol y bobl leol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r prosiectau wrth iddynt gael eu cynllunio. |
| **Integredig** | Sicrhau fod ein prosiectau adfywio ffisegol yn cysylltu, lle bynnag y bo modd, i brosiectau Pobl perthnasol drwy ymgorffori hyn fel angen ym mhob achos busnes. Cyfathrebu anghenion sgiliau i'r dyfodol a chyfleoedd fel bod mecanweithiau yn eu lle i gefnogi pobl leol i gael mynediad at y rhain. |
| **Cydweithio** | Gweithio â chydweithwyr ar draws sectorau a'r rhanbarth i rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau a sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf drwy gydweithio. |
| **Cynnwys** | Ymgysylltu â'r bobl yr ydym eisiau iddynt elwa fwyaf o'r rhaglen. Drwy ymgysylltu â'n cymunedau (yn enwedig y mwyaf difreintiedig) yn barhaus, byddwn yn ymdrechu i ddatblygu perchnogaeth gymunedol a gwytnwch a gwella cydlyniad. |

Mae chwe awdurdod lleol gogledd Cymru wedi ymrwymo i:

Rhai enghreifftiau o ffyrdd i integreiddio'r blaenoriaethau **Lle** a **Phobl**:

| | |
|---|---|
| Defnyddio prentisiaethau / buddion cymdeithasol yn ystod gwaith adeiladu | Creu amgylchedd ffisegol sy'n annog gweithgarwch a symud gan wella iechyd a llesiant |
| Lleoli prosiectau i ddarparu amgylchedd o ansawdd i gyflwyno rhaglenni sgiliau gwaith a gweithgareddau eraill, e.e. cyrsiau rhiantu | Adnabod swyddi sydd ar y gorwel, amserlenni a sgiliau. Gweithio â darparwyr addysg a rhaglenni megis OPUS ac adnabod ac uwch-sgilio pobl leol i fodloni anghenion swyddi yn y dyfodol ar draws y rhanbarth. Monitro'r niferoedd sy'n cofrestru. |

| | |
|---|---|
| Cyfleoedd profiad gwaith / cynlluniau cyfweliad sicr | Cynlluniau cyfweld lleol / dyddiau "sgiliau" am gyfleoedd gwaith o fewn prosiectau adfywio wedi'u cwblhau gan ddarparu ffyrdd mwy hygyrch i bobl wneud cais am waith |

## BLAENORIAETHAU ADFYWIO GOGLEDD CYMRU: 2018-2035

**Mae 12 Ardal Adfywio wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau am Fuddsoddiad Adfywio Rhanbarthol dros y cyfnod 2018-2035.**

**Mae'r adran hon yn nodi'r cynlluniau adfywio integredig ar gyfer y 12 ardal hon gan adnabod y prif heriau economaidd a'r ffocws adfywio ar gyfer pob anheddiad. Er mwyn ymgymryd â dull strategol, 4 ardal ddaearyddol a 3 chynnig thematig fydd y flaenoriaeth dros dair blynedd gyntaf y cynllun gyda'r ffocws yn symud i ardaloedd eraill wrth i'r cynllun fwrw ymlaen. Mae tystiolaeth angen fwy manwl a disgrifiadau o'r ymyraethau adfywio wedi'u cynnwys ar gyfer yr ardaloedd â blaenoriaeth hyn gyda gwaith datblygu pellach wedi'i gynllunio ar gyfer yr ardaloedd eraill er mwyn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn ym mlynyddoedd dilynol y cynllun.**

**Wrth i'r cyfleoedd ariannu ddod i'r amlwg, bydd y rhain yn rhai manwl, ynghyd â'r prosiectau yn Atodiad 1. Cydnabyddir bod y rhain yn ddyheadau hirdymor, cymhleth ac y bydd y datrysiadau yn hirdymor ac yn aml-wedd.**

**Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Y Rhyl**

**Cefndir a'r Rhesymeg dros Adfywio**

Fel sawl tref glan y môr arall, dioddefodd y Rhyl yn sgil y dirywiad mewn gwyliau domestig. Wrth i niferoedd ymwelwyr leihau, dechreuodd busnesau'r dref ddioddef. Newidiodd cyn dai gwestai'n Dai Amlfeddiannaeth (HMO) ac arweiniodd gwerth eiddo isel at safonau ac amodau gwael. Aeth ardaloedd o'r dref yn gyrchfannau i drigolion gydag anghenion cymdeithasol cymhleth a phroblemau amddifadedd lluosog. Cydnabu Cyngor Sir Ddinbych bod angen ymyrraeth benodol ar gyfer y broblem hon ac yn 2004, bu iddo fabwysiadu ei strategaeth gyntaf ar gyfer y Rhyl.

Mae Adfywio'r Rhyl wedi parhau i fod yn flaenoriaeth sector cyhoeddus am nifer o flynyddoedd, gyda bron i hanner cymdogaethau'r Rhyl (7 allan o 16 ardal, 11,021 o bobl o gyfanswm poblogaeth o 24,924) yn parhau i fod ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac un ardal wedi'i rancio fel yr ail mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran symud pobl i gyflogaeth ac i ffwrdd o fudd-daliadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc 16-24 mlwydd oed, gyda nifer yr hawlwyr yn syrthio'n gynt yn y Rhyl nag unrhyw le arall, a'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (Gorllewin a De-orllewin y Rhyl) a chyfartaleddau Cymru a'r DU yn lleihau. Er bod nifer o brosiectau â blaenoriaeth mewn perthynas â gwella tai, adfywio'r harbwr, amddiffynfeydd llifogydd a gwelliannau i gyfleusterau naill ai wedi'u cwblhau neu ymhell ar y gweill, erys dangosyddion amddifadedd yn hynod wael, yn enwedig o ran incwm a chyflogaeth gyda phum ardal LSOA sy'n parhau â mwy na dwbl cyfradd Cymru o hawlwyr budd-daliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Dengys dadansoddiad o ddata Caci Paycheck fod gan gymdogaethau mwyaf difreintiedig y Rhyl bellach incwm aelwydydd sy'n sylweddol is na'r hyn oedd yn bodoli cyn y cynni economaidd yn 2008. Er bod y tuedd cenedlaethol yn dangos lefelau o incwm aelwydydd yn adfer yn araf i'r lefelau cyn y cwymp, nid yw hyn yn digwydd mewn sawl cymdogaeth yn y Rhyl. Yn 2008, roedd incwm aelwyd cyfartalog yn Ne-orllewin y Rhyl 1 yn £17,836. Erbyn 2016, roedd hyn wedi cwympo oddeutu £4,000 fesul aelwyd i £13,856 yn erbyn cefnlen o gynnydd parhaus mewn costau byw.

Mae angen i gam nesaf y gwaith adfywio ganolbwyntio ar symud y Rhyl tua'r pwynt lle mae adfywio (methiant y farchnad) yn dod i ben a buddsoddiad preifat yn dechrau cymryd drosodd (datblygiad economaidd lleol), gan greu amrediad ehangach o gyfleoedd cyflogaeth y bydd pobl leol ar incymau

llai yn barod amdanynt drwy ymyraethau cefnogi'r farchnad lafur. Er nad oes mesur yn bodoli i ddiffinio beth fydd y 'pwynt' hwnnw, yr ethos sy'n tanategu Rhaglen Adfywio'r Rhyl yw cynyddu nifer y bobl sy'n dod i'r dref, cynyddu gwariant yn yr economi leol, sefydlogi busnesau a chynyddu cyfleoedd swyddi ac incwm. Ar yr un pryd, mae Rhaglen Adfywio'r Rhyl yn blaenoriaethu cefnogaeth i bobl leol drwy weithgareddau ymgysylltu a chefnogaeth cyflogadwyedd gyda'r bwriad o arwain yr unigolion hynny ymlaen at gyfleoedd lleol er mwyn cynyddu incwm yr aelwyd, gwella deilliannau iechyd a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau'r sector cyhoeddus.

**Rhaglen Adfywio'r Rhyl**

Yn 2016, cymeradwyodd Cyngor Sir Ddinbych gynigion ar gyfer y cam nesaf o weithgarwch adfywio cydlynol yn y Rhyl er mwyn ei arwain i fod yn lle y mae pobl yn dewis byw, gweithio ag ymweld ag ef.

Mae tair ffrwd gydgysylltiol i Raglen Adfywio'r Rhyl;  Lle, Pobl a'r Economi. O dan Lle, mae tair thema:

- Twristiaeth ac ymwelwyr;
- Byw a gweithio yn y Rhyl; a
- Canol y Dref

<u>Cynnydd hyd yn hyn</u>

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i gyflwyno'r prosiectau â blaenoriaeth dan y themâu Twristiaeth ac Ymwelwyr a Byw a Gweithio gyda'r prosiectau mawr i'w cwblhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Tref y Rhyl a Llywodraeth Cymru oll wedi buddsoddi'n drwm yn y prosiectau hyn ac mae hyn wedi arwain at fuddsoddiad sector preifat yn y dref gan symud tuag at y Pwynt mae'r Rhaglen yn ceisio'i gyflawni.

Dan y thema **Twristiaeth ac Ymwelwyr**, mae prosiect y Glannau'n cynnwys adeilad theatr wedi'i adnewyddu gyda bwyty newydd, parc dŵr a chynnig hamdden newydd ac unigryw ger y Sinema presennol, Premier Inn a Travelodge ac o leiaf dau fwyty newydd i deuluoedd. Mae ardal y glannau ei hun yn cael ei gwella'n sylweddol gyda chynllun cylch cyhoeddus cydlynol, goleuo a'r Tŵr Awyr wedi'i ailwampio gan ddarparu profiad ffres a chyffrous i ymwelwyr a phobl leol yn ardal y glannau. Rhagwelir y bydd oddeutu 900,000 o ymwelwyr yn cael eu denu i ardal y glannau unwaith y bydd yr atyniadau hyn ar agor. Mae canol y dref ger ardal y glannau ac mae'n dangos potensial i ddenu'r ymwelwyr hyn yno, cyhyd ag y bo'r cynnig iawn i'w gael yno.

Hefyd, mae buddsoddiad wedi'i sicrhau dan y thema **Byw a Gweithio**. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain datblygiad Cynllun Tai arloesol yn ardal Gorllewin y Rhyl (Gerddi Heulwen) oedd yn ymwneud â buddsoddi mwy na £16m ar ddymchwel HMOs segur o ansawdd gwael gan roi llety tenantiaeth gymysg fforddiadwy o ansawdd wedi'i ganoli o amgylch gardd gymunedol ddymunol yn eu lle. Hyd yma mae bron i £1m wedi'i sicrhau gan Cymru Gynnes i gyflwyno gwelliannau ynni effeithlon mewn llety sector preifat gan daclo tlodi tanwydd ac ymdrechu i gyfrannu at gynnydd mewn incwm aelwydydd. Yn ogystal, mae buddsoddiad partneriaethau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Cyngor Tref wedi cefnogi cyflwyniad ymgyrch angenrheidiol i wella cysyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am y Rhyl fel lle da i weithio, byw ac ymweld ag ef.

<u>Camau nesaf</u>

Nid yw trydedd thema rhaglen Adfywio'r Rhyl sy'n canolbwyntio ar wella **canol y dref** wedi'i datblygu hyd yma. Mae data diweddar, arsylwadau gweledol a sgyrsiau â busnesau'n dangos bod Canol Tref y Rhyl yn gynyddol anaddas i'r pwrpas. Mae dirywiad parhaus wedi'i weld yn y cynnig cymhariaeth ynghyd â chynnydd cyson yn y ganran o eiddo sy'n wag dros y deng mlynedd diwethaf, gan gynyddu o 7% i 21% fel y mae ar hyn o bryd. Er bod y duedd genedlaethol o ddirywiad wedi sefydlogi dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae dirywiad y Rhyl wedi parhau. Mae'n dref arfordirol sydd ag ardal tynfa disgyrchiant sydd wedi'i gyfyngu gan y môr ac sy'n gwrthdaro â nifer o'i

chymdogion uniongyrchol, llai. Felly, mae'n hanfodol ystyried ail-ffurfweddu'r dref er mwyn amrywio a gwella'r cynnig sydd yno er mwyn ail-gysylltu â phobl leol ac ymwelwyr sy'n dod i'r cyfleusterau twristiaeth a hamdden newydd yn ardal y glannau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.
Mae sgyrsiau a gafwyd â'r 65+ o fân-werthwyr yng Nghanol y Dref yn cadarnhau fod:

- Y Nadolig yn dawelach yn 2017 nag yn y 2 flynedd flaenorol
- Busnesau'n teimlo cwymp sylweddol yn nifer y bobl sydd o gwmpas.
- Pen uchaf y Stryd Fawr sydd agosaf at y glannau yn "Farw" o safbwynt nifer y siopwyr sydd o gwmpas.
- Er ei bod..."Yn dda gweld y gwaith yn digwydd ar y cyrion - mae fel toesen heb ganol!"

Mae sicrhau buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat buddiol, denu mwy o drigolion sy'n economaidd actif, goresgyn enw drwg y Rhyl a meithrin hyder / twf busnes yn gysyniadau allweddol a saif y tu cefn i Brif Gynllun Canol y Dref fydd yn darparu fframwaith adfywio ffisegol hirdymor ar gyfer canol y dref. Gyda chyswllt â gweithgareddau ehangach ar gyfer ymdrin â materion cymdeithasol a threchu tlodi a chefnogaeth i fusnesau lleol archwilio hyfywdra cyflwyno Ardal Gwella Busnes, mae'r Prif Gynllun yn canolbwyntio ar gyflwyno'r amcanion a ganlyn:

- Sefydlu defnyddiau cymysg sy'n fywiog a chytbwys
- Gwella mynediad rhwydd i ganol y dref
- Gwella llif cerddwyr o amgylch canol y dref
- Creu ymdeimlad dymunol yng nghanol y dref

Mae nifer o gysyniadau allweddol yn ymdrin â phroblemau sylfaenol o ran priffyrdd a mynediad, amgylcheddol, preswyl, problemau manwerthu / masnachol wedi'u hadnabod ac maent yn rhoi ffocws ar ymgyrch ymgysylltu â budd-ddeiliaid sydd i fynd rhagddi ym mis Chwefror 2018. Bydd y prosiectau cychwynnol a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2018-2022 er mwyn bwrw ati i gyflwyno'r Prif Gynllun a chyflawni newid trawsnewidiol yn cynnwys:
**Gwelliannau Manwerthu a Masnachol i'r Stryd Fawr**, gan ddenu pobl i ardal stryd fawr fywiog, modern:

- Caffael / ailddatblygu adeiladau allweddol yn y Stryd Fawr i ddarparu gofod masnachol a phreswyl gwell;
- Grantiau a benthyciadau i gaffael, ail-ffurfweddu ac adnewyddu eiddo allweddol yng nghanol y dref er dibenion masnachol a phreswyl yng nghanol y dref er mwyn cyfnerthu'r cynnig, gwella effeithiolrwydd manwerthu a lleihau nifer yr eiddo gwag yng nghanol y dref;
- Cwblhau Cam 1 cynigion ailddatblygu Queens Market i gaffael ac ailfodelu bloc sylweddol o eiddo masnachol wedi'i leoli rhwng ardal y Glannau a'r stryd fawr;
- Datblygu canolbwynt i entrepreneuriaid, gan ddarparu gofod busnes i'w rannu ar gyfer busnesau sy'n mentro o'r newydd, wedi'i anelu at ddod â phobl fusnes ifanc sy'n entrepreneuriaid i'r stryd fawr
- Cysylltiadau i weithgareddau menter yr Ardal Gwella Busnes arfaethedig

**Gwelliannau i'r cynnig preswyl sydd ar gael** yng nghanol y dref i gynyddu nifer uwch o siopwyr sy'n gwario a denu cymysgedd ehangach o bobl i'r ardal:

- Datblygu menter Byw uwchben y Siop i ddefnyddio lloriau uchaf gwag;
- Adnewyddu strydoedd preswyl allweddol i adeiladu ar effaith cynllun tai Gerddi Heulwen sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru (h.y. Edward Henry Street);

**Gwelliannau i'r Cylch Cyhoeddus** i greu amgylchedd bywiog a diogel, fydd yn denu ac yn cadw trigolion ac ymwelwyr am gyfnodau hwy ac annog buddsoddiad yn y cynigion manwerthu, masnachol a phreswyl:

- Datblygu strategaeth cylch cyhoeddus gyda chysylltiadau i flaenoriaethau'r Ardal Gwella Busnes arfaethedig
- Gwelliannau i'r cylch cyhoeddus, gan gynnwys mwy o ardaloedd gwyrdd a chreu gofod cyhoeddus
- Bywiogi gofod o fewn canol y dref er mwyn denu pobl yno

**Canolbwyntio ar orfodaeth** datblygu ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth gymunedol yn yr ardal a sicrhau bod yr holl sectorau'n cyflawni ymrwymiad i'r Rhyl:
- Mwy o weithgarwch ac ymgyrchoedd gorfodaeth;

Mae'n debygol y bydd prosiectau mwy hirdymor yn cynnwys:

**Gwelliannau i Briffyrdd a mynediad** yn cynnwys:
- Gwell arwyddion i gynorthwyo pobl i ganfod eu ffordd o amgylch y dref ac i'r amrywiol atyniadau;
- Gwell priffyrdd a strydwedd rhwng ardal y glannau a'r Stryd Fawr i annog pobl i ddod i ganol y dref;
- Ailfodelu'r systemau ffordd i sicrhau bod y systemau traffig yn adlewyrchu gofynion priffyrdd a mynediad modern ar gyfer y Rhyl, gan ystyried y cynnydd mewn defnyddwyr y ffordd a'r newidiadau i ddibenion siwrnai dros y 30 mlynedd diwethaf, gan ddarparu profiad teithio haws a mwy effeithlon;
- Addasu'r cynnig parcio i adlewyrchu anghenion newidiol ymwelwyr i'r ardal;
- Gwelliannau i'r mynediad i feicwyr a cherddwyr drwy'r dref er mwyn cysylltu â chymdogaethau cyffiniol a'r llwybrau beicio a cherdded gwych a geir yn ardal y glannau nad ydynt yn ymestyn i ganol y dref ar hyn o bryd.

**Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Tref Wrecsam**

**Pwrpas**
Adfywio canol y dref i gyflawni'r amcanion a nodwyd ym Mhrif Gynllun Canol y Dref a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2016. Mae hwn yn declyn sy'n cael ei arwain gan gynllunio ac mae'n fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau adfywio yng nghanol y dref. Y weledigaeth gyffredinol yw canol tref newydd a chymdogaethau cyfagos wedi'u hadfywio drwy gyflwyno tai newydd a thai wedi'u gwella, creu busnesau a swyddi gyda chynnig amrywiol o ddefnyddiau manwerthu, hamdden annibynnol o ansawdd megis bwytai i deuluoedd, atyniadau celfyddydol a diwylliannol, sydd oll wedi'u lleoli mewn cylch cyhoeddus o ansawdd gan ddarparu amgylchedd y mae modd ei adnabod fel Wrecsam.

**Y nodau y tu ôl i'r weledigaeth yw:**
- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r dref a'r cyffiniau
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y dref i roi hwb i dwf economaidd a pherfformiad cyflogaeth.

**Dyma'r amcanion allweddol sydd i'w cyflwyno drwy ein cynllun adfywio hirdymor:**
- Gwella hunaniaeth canol y dref, newid y defnydd a'r swyddogaeth, gwella perfformiad economaidd, cynyddu nifer y bobl sy'n dod yno a gwella bywiogrwydd yr ardal;

- Gwella profiad ymwelwyr;
- Gwell hygyrchedd i mewn i'r dref ac o'i hamgylch;
- Gwella'r economi gyda'r nos;
- Rhoi cyfleoedd i fyw yng nghanol y dref drwy gynhyrchu cyflenwad sylweddol o gartrefi newydd i fodloni angen lleol a rhanbarthol;
- Gwella ansawdd cartrefi presennol, ansawdd bywyd ymysg trigolion a dymunoldeb yr ardal;
- Bodloni anghenion poblogaeth sy'n tyfu; a
- Gwneud canol y dref yn wyrddach a gwella'r strydwedd.

**Cyflawnir yr amcanion hyn drwy sefydlu canol y dref fel lleoliad ffyniannus drwy annog defnydd mwy amrywiol, a bydd hyn yn cael ei gyflawni fel a ganlyn:**

- Adeiladu ar ei sefyllfa isranbarthol gryf fel lleoliad siopa mawr, amrywio'r cynnig a datblygu atyniadau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol ategol mewn amgylchedd deniadol;
- Datblygu amgylchedd deniadol a nodedig gydag adeiladau, strydoedd a gofod o ansawdd uchel a chyfoethogi cymeriad y dref a chefnogi strategaethau canol y dref ar gyfer manwerthu, ymwelwyr a denu datblygiad preswyl;
- Sicrhau mynediad o ansawdd uchel i ganol y dref a thrwyddi, drwy amrywiol ddulliau, blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, ond cynnal mynediad ffordd o ansawdd uchel i'r canol;
- Gwneud canol tref Wrecsam yn lle gwych i fyw, gydag amrywiaeth eang o gartrefi newydd yn ddeniadol i bobl amrywiol gyda seilwaith cymdeithasol ategol ar gyfer swyddfeydd a gofod swyddfa gwag i wneud cyfraniad cadarnhaol i rôl a swyddogaeth canol y dref fel lle gydag amrediad eang ac amrywiol o atyniadau; a
- Mae gwella ansawdd y cylch cyhoeddus i wella'r mannau i bobl gwrdd, defnyddio a mwynhau, yn tanategu'r gwaith o gyflawni gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth manwerthu, ymwelwyr, tai a swyddfeydd.

I gyflawni'r nodau a'r amcanion cyffredinol, cynhyrchwyd cynllun adfywio i gefnogi gweithrediad y prif gynllun sy'n dangos cynlluniau byrdymor-hirdymor a phrosiectau sy'n rhoi ystyriaeth i'r heriau a'r cyfleoedd lleol.

**Mae'r cynlluniau hirdymor a ganlyn yn ffurfio rhan o'r cyd-destun ehangach er mwyn archwilio amrywiol gynlluniau ariannu er mwyn denu buddsoddiad a darparu'r amodau priodol i alluogi twf o ran adfywio canol y dref a'r cyffiniau. Maent hefyd yn cyfrannu at y Themâu a ganlyn yn y Prif Gynllun:**

**Tref Hygyrch:**

- I fynd i'r afael â'r angen am well hygyrchedd i'r dref, mae cynllun wedi'i adnabod fydd yn Moderneiddio'r seilwaith trafnidiaeth er mwyn galluogi twf, drwy ddatblygu cynlluniau mawr amrywiol ar gyfer hygyrchedd i'r dref, megis gweithredu gwaith fesul cam, i wella cyffyrdd yr A483 er mwyn mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd sy'n gweithredu fel rhwystr o ran hygyrchedd i'r dref. Cefnogi newid moddol o ran trafnidiaeth i helpu i gyflawni twf drwy gefnogi datblygiad sy'n annog defnyddio cludiant cyhoeddus drwy Orsaf Wrecsam Cyffredinol fel hwb cludiant er mwyn darparu gwell cysylltedd â'r Orsaf Bws a gwella cysylltiadau a chysylltedd â'r dref.
- Yn ogystal â'r cynigion seilwaith graddfa fawr, mae angen datblygu rhwydwaith o lwybrau a gofod sy'n addas i gerddwyr er mwyn gwella'r cysylltedd i mewn i ganol y dref ac o'i hamgylch, gan gynorthwyo i rwymo rhannau o'r dref ynghyd, yn enwedig ar hyd y prif goridor sy'n arwain i ganol y dref.

**Lle i ymweld ag ef:**

- Er mwyn newid y canfyddiad am y dref fel atyniad i dwristiaid a lleoliad i ymwelwyr, hynny yw, mai nifer cyfyngedig o atyniadau sydd yn y dref i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal, mae angen gwella nifer ac ansawdd y digwyddiadau strategol graddfa fawr, a byddai adnewyddu Cae Ras Wrecsam yn gyfraniad mawr yn hyn o beth a byddai'n gwella'r canfyddiad cyffredinol ynghylch yr ardal, o ystyried ei leoliad amlwg ar hyd y prif goridor sy'n arwain i ganol y dref. Yr amcan yw creu stadiwm o'r radd flaenaf sydd â'r gallu i lwyfannu digwyddiadau chwaraeon, cerddoriaeth a digwyddiadau awyr agored diwylliannol eraill rhyngwladol a'i sefydlu fel Canolfan Ragoriaeth Ranbarthol. Yn ogystal â hyn, mae ystyriaeth barhaus yn mynd ymlaen i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd datblygu ar y llain o dir sydd gerllaw ar gyfer datblygiad masnachol neu ddefnydd cymysg. Nid yn unig y byddai hyn yn creu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd o gwmpas ond byddai hefyd yn cyfoethogi ac yn cryfhau cysylltedd â'r dref.

**Lle i siopa / Lle i fyw**

- Wrth i dueddiadau manwerthu newid, mae angen ehangu sgôp y cynnig a rhannu unedau mwy yn unedau llai i ddarparu datblygiad defnydd cymysg mewn lleoliadau priodol gan ymgorffori defnyddiau economi gyda'r nos megis bwytai, hamdden, tafarndai a gwestai a manwerthu graddfa fechan, angen lleol. Byddai cartrefi uwchben eiddo manwerthu'n rhoi cyfle i gynyddu bywiogrwydd canol y dref a chefnogi'r economi gyda'r nos.

**Mae'r cynlluniau a ganlyn wedi'u nodi yn ein cynllun Adfywio ac mae modd eu cyflwyno yn y tymor byr dan y themâu prif gynllun a ganlyn:**

**Deniadol a Nodedig:**

- I ddathlu'r cymeriad lleol a'r amrywiaeth sy'n adlewyrchu'r ardal leol, pensaernïaeth, deunyddiau a diwylliant lleol, mae amrywiol gynlluniau wedi'u hadnabod i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir drwy ardaloedd Treftadaeth a chadwraeth Wrecsam. Mae rhannau sylweddol o Ganol y Dref o fewn ardaloedd cadwraeth, ac mae hyn yn cynnig amgylchedd ac atyniad twristiaeth unigryw. Cynnydd i gyflwyno ac yna i ymestyn y rhaglen dan arweiniad Menter Treftadaeth Trefwedd (THI) yn diogelu, cadw a chyfoethogi canol y dref, gan ddod ag adeiladau adfeiliedig a gwag yn ôl i ddefnydd gan ddarparu llety preswyl a rhannu eiddo manwerthu mwy yn unedau llai. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar gyflwyno ac yna ymestyn cynllun THI, sy'n ymgorffori pecyn hyfforddiant sgiliau adeiladu traddodiadol i gefnogi rhaglen i gynhyrchu deilliannau cyflogadwyedd.

**Lle i weithio:**

- Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn o arian i ddatblygu canolfan fusnes newydd yn Wrecsam. Mae'r Cynllun, a ailenwyd yn 'Faes y Dref' i gydnabod ei bresenoldeb yng Nghanol Tref Wrecsam, yn datblygu unedau hybu sy'n dod ag entrepreneuriaid ynghyd mewn amgylchedd a rennir i alluogi syniadau ac i ddatblygu ar y cyd. Yn ogystal â darparu llety busnes o ansawdd da o fewn Canol Tref Wrecsam, gall y Cynllun hefyd gefnogi busnesau gyda chyngor, gweithdai a chefnogaeth i ddatblygu cyfleodd masnach a rhwydweithio rhyngwladol.
  Wrth i 'Faes y Dref' barhau i ddatblygu, disgwylir gweld galw cynyddol ar gyfer llety 'twf' i alluogi i fusnesau sydd wedi datblygu barhau i ehangu o fewn Canol Tref Wrecsam. Mae hyn yn dibynnu ar argaeledd llety cynaliadwy o ansawdd da sy'n gweddu anghenion busnesau a chyfleoedd sy'n tyfu'n fwy na'r ganolfan. Mewn cydweithrediad ag Arian Adfywio Canol Tref, bydd defnyddio arian Targedu Buddsoddiad Adfywio yn galluogi caffael llety ychwanegol, a'i ddatblygu i gwrdd â'r galw hwn a ragwelir. Bydd hyn yn darparu etifeddiaeth fwy hirdymor a

fydd yn fuddiol ar gyfer y llesiant economaidd nid ar gyfer canol y dref yn unig, ond ar gyfer y rhanbarth ehangach, gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a chyfredol i ddatblygu ac i ffynnu.

**Lle i fyw:**

- I ymdrin â'r angen sydd wedi'i adnabod am lety yng nghanol y dref, mae prosiectau wedi'u nodi megis cynlluniau HARPS yng nghanol y dref er mwyn trawsnewid gofod llawr gwag uwchben siopau yn gartrefi addas.
- Mae potensial i gefnogi'r cynllun caffael canol tref presennol gyda chyllid ychwanegol o'r rhaglen TRI fel bod modd cefnogi rhai eiddo mawr i ddarparu manteision hirdymor i ganol y dref.

  Yn sgil natur rhai o'r eiddo yng nghanol y dref, mae'n debygol y bydd costau sylweddol yn gysylltiedig ag ailddatblygu'r eiddo ar gyfer defnydd preswyl, masnachol neu gymysg a byddai hyn yn gyffredinol anodd ei adennill drwy gynllun benthyca arferol. Mae'n bosib y gallai hyn gynnwys ymdrin ag unrhyw broblemau posib megis asbestos, creu mynediad anabledd newydd i holl rannau'r adeilad a diogelu rhag tân. Byddai ddefnyddio elfen grant ar y cyd â'r Gronfa Caffael Canol Tref yn golygu bod modd ymdrin â'r materion hyn.

  Byddai hyn yn cefnogi datblygiad economaidd drwy roi cyfleoedd i gontractwyr lleol gan gynnwys prentisiaethau a chyfleoedd i hyfforddeion fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu eiddo a thir, ynghyd â darparu cyfleoedd pellach i bobl fyw, gweithio a chael mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn darparu buddion Cymdeithasol a deilliannau drwy roi mynediad i eiddo preswyl a defnydd cymysg o ansawdd da. Yn sgil y math o eiddo sy'n cael eu datblygu, bydd y rhain ar gael yn fythol-barhaus ac felly maent yn fudd hirdymor.

  Yn ogystal, gellid datblygu eiddo fel Canolfannau Economaidd Lleol i gefnogi adfywiad economaidd cymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol. Gallai hyn weithredu mewn partneriaeth â chynlluniau tebyg eraill ar draws y rhanbarth a bod yn debyg i ganolfannau eraill gan gynnwys ICE sydd wedi dod i Wrecsam yn ddiweddar. Yn ogystal, fe ellir defnyddio'r model hwn i hyrwyddo twristiaeth a busnesau sy'n gysylltiedig â'r sector hwn drwy greu Canolfannau Twristiaeth ar y cyd â sectorau eraill yr economi.
- Mae cynllun tai wedi'i adnabod, wedi'i leoli ar Regent Street ar y prif lwybr i mewn i ganol y dref, ar safle segur a fyddai'n caniatáu 25 uned o faint amrywiol. Byddai'r prosiect hwn yn cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl sydd o gwmpas, gan gyfoethogi bywiogrwydd cyffredinol yr ardal a gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau a'r cysylltedd â chanol y dref.
- Mae adeilad wedi'i adnabod i'w hadnewyddu yng nghanol y dref a ddyluniwyd yn wreiddiol fel lloches i ferched ond mae'r cyfleuster hwn wedi symud er cryn amser ac ers hynny mae'r adeilad wedi'i ddefnyddio fel cyfleuster i bobl gydag anawsterau dysgu, felly mae cyfle i'w adnewyddu i ddarparu tai pwrpasol arbenigol i fodloni anghenion y gwasanaeth anabledd gydag unigolion ag anghenion cymhleth sydd angen y tai arbenigol yn eu milltir sgwâr. Byddai hyn hefyd yn bodloni'r ffigyrau cynyddol ar y rhestr fer lle mae 34 cais gweithredol arni ac o leiaf 10 cais pellach wrthi'n cael eu cwblhau.
- Yn draddodiadol, cyfeiriwyd at hyn fel Adnewyddu Tai, mae yma gyfleoedd i wella ansawdd y cyflenwad tai gyda datblygiad cynllun gwella Eiddo Sector Preifat.

Y nod yw targedu llwybrau porth / prif lwybrau i wella'r canfyddiad cyffredinol am yr ardaloedd hyn ar y cyd â chynlluniau eraill er mwyn cefnogi'r nodau ac amcanion cyffredinol ar gyfer adfywio; bydd hyn yn cryfhau cysylltedd ac yn gwella'r cysylltiadau i mewn ac o amgylch canol y dref.

**Lle i siopa / Deniadol a Nodedig:**

- Fel rhan o'r weledigaeth yn y Prif Gynllun a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan Twristiaeth, sef creu ardal i dwristiaid yng nghanol y dref, mae cynllun wedi'i adnabod, yn dilyn astudiaeth fasnachol estynedig, i adfywio'r ddwy farchnad dan-do ar Stryd Henblas. Bydd hyn yn golygu y gwneir gwell defnydd o'r gofod, er mwyn cyfoethogi'r cynnig o fewn y marchnadoedd a denu masnachwyr perthnasol a chynaliadwy i ailsefydlu Wrecsam fel tref farchnad draddodiadol a chyrchfan i ymwelwyr. Yn ogystal, gallai hyn wneud y mwyaf o'r cyfleoedd am economi gyda'r nos yn yr ardal gyfagos ac yn y farchnad ei hun. O safbwynt brandio, byddai hyn hefyd yn cyfrannu at ailsefydlu Wrecsam fel tref farchnad draddodiadol.
- Drwy ein hastudiaeth cylch cyhoeddus, nodwyd bod angen gwelliannau ar y ffordd i mewn a thrwy'r dref i gyd, gan gynnwys gwell strydwedd, datblygu gwaith goleuo a gwell arwyddion o ganolfannau allweddol gan gysylltu â chanol y dref. Safle arfaethedig â blaenoriaeth ar gyfer hyn yw Sgwâr Henblas sydd wrthi'n cael ei ddatblygu fel safle aml-ddefnydd gyda manwerthu a hamdden, ac o ystyried pa mor agos ydyw at TY Pawb a chanolfan siopa Eagles Meadow, dyma amser da i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r strydwedd, megis coed, goleuo, palmentydd a dodrefn stryd. Byddai hyn yn cyfoethogi'r cysyniad cyffredinol am yr ardal ac yn cefnogi ein hamcan o greu caffi/gofod diwylliannol er mwyn cynnal a rheoli nifer y bobl sy'n dod i'r ardal hon drwy greu gofod ymdroi bywiog gydag ymdeimlad caeedig.

**Lle i ymweld ag ef:**

- Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi buddsoddi'n sylweddol mewn twristiaeth yn ddiweddar ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer o ymwelwyr sy'n dod i'r ardal am y dydd a thros nos. I fodloni'r cynnydd hwn yn y galw, mae angen wedi'i adnabod am ardaloedd parcio bysiau addas yn agos i ganol y dref. Bydd atyniadau megis Eglwys St Giles, Y Cae Ras a Ty Pawb yn dangos bod yr angen am ofod parcio bysiau addas yn parhau ar gynnydd. Byddai'r cyllid Targedu Buddsoddiad Adfywio yn golygu bod modd caffael tir addas i'w ddatblygu fel maes parcio i fysiau. Byddai ymwelwyr yn parhau i gael eu gollwng oddi ar y bysiau yn eu cyrchfannau ond byddai safle parcio dynodedig yn sicrhau ardal saff a diogel lle y gellir parcio bysiau am gyfnodau hwy o amser. Byddai'r cynllun hwn yn cefnogi datblygiad economaidd canol y dref drwy ei gwneud yn fwy hygyrch i deithiau bws sy'n dod draw am y dydd neu i aros dros nos, a sicrhau bod ymwelwyr ar deithiau bws yn medru mwynhau atyniadau'r ardal am gyfnod hwy o amser.

**Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Bangor**

Bangor yw dinas hynaf Cymru, ac fel dinas a chanolfan isranbarthol yng ngogledd Cymru, mae ganddi gymeriad unigryw ac mae gan y sawl sy'n byw ynddi, sy'n astudio ynddi ac sy'n gweithio ynddi falchder mawr yn eu dinas. Mae iddi nifer fawr o rinweddau, yn gyfoes ac yn hen, ac mae'n wynebu heriau sylweddol o ran ei ffyniant a'i bywiogrwydd.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan y ddinas boblogaeth o 16,658, yn cynnwys myfyrwyr y brifysgol. Mae amcangyfrif cyfanswm nifer y myfyrwyr wedi cynyddu ers hynny (10,766 ar sail ffigyrau 2014/15 y Brifysgol) a bellach amcangyfrifir bod poblogaeth Bangor yn ystod tymor y Brifysgol yn 20,244.

Sefydlwyd Partneriaeth Dinas Bangor yn fuan yn 2016, ac mae'n dwyn ynghyd amrediad eang o bartneriaid allweddol i gydweithio ar strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer Dinas Bangor. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Dinas Bangor, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Pontio, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Partneriaeth Strategol Tai, Grŵp Llandrillo Menai a'r sector preifat (drwy Ardal Gwella Busnes Bangor).

Ar ôl sefydlu Partneriaeth Dinas Bangor, aethpwyd ati i baratoi strategaeth adfywio i'r ddinas. Mae'r strategaeth a'r weledigaeth wedi'u priodoli i wneud y mwyaf o brif rôl Bangor fel canolfan is-ranbarthol Gwynedd ac Ynys Môn, gan gydnabod ei chryfderau cynhenid a'i photensial cuddiedig a chael gwared â'r elfennau negyddol sydd wedi cau am y ddinas ers degawd a mwy. Pe cyflawnir y gwaith hwn yn iawn, gall Bangor ddatblygu i fod yn un o Ddinasoedd Gorau Cymru; yn cynnig yr amrediad llawn o rinweddau a chyfleusterau sy'n perthyn i Ddinas Dda; ond â chyfoeth o dreftadaeth Gymraeg a Cheltaidd yn treiddio drwyddi.

Mae tair thema yn y strategaeth sy'n dibynnu ar ei gilydd, ni all yr un ohonynt gyflawni ei deilliannau i gyd ar ei phen ei hun. Mae'n agwedd holistaidd, ar lefel strategol ac ar lefel thematig.

<u>1. Datblygu a'r Amgylchedd</u>

Ar sail pedair is-thema:
- Datblygiad
- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Cylch Cyhoeddus
- Trafnidiaeth a Mynediad i Gerddwyr

Mae canolfan Dinas Bangor wedi dirywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ei gweithrediad fel canolfan fanwerthu isranbarthol wedi erydu. Mae'r prif graidd manwerthu ar y Stryd Fawr, sydd dros filltir o hyd. Mae Bangor wedi cynnal canran uchel o gyfraddau gwacter o gymharu â chyfartaledd Cymru. Nododd 'Retailing in Wales' largest towns and cities', Ionawr 2018, fod Cymru wedi gweld dirywiad cyffredinol o 16% yn 2013 i 14.5% yn 2017. Mae Bangor wedi cynnal dros 20% o wacter manwerthu yn yr un cyfnod a gwelwyd gostyngiad i 19.4% yn 2017.

Mae cyfradd gwacter hamdden Bangor wedi cynyddu 8% ers 2013 i 13.6% ac 8.7% oedd y cyfartaledd i Gymru'r llynedd. Mae angen i'r ddinas gryfhau'r brif ardal fasnachol a gwella profiadau manwerthu a hamdden yn ogystal â sicrhau defnyddiau eraill i'r adeiladau gwag yng nghanol y ddinas. Cyflawnir hyn drwy wella'r Stryd Fawr yn sgil y Cynllun Adnewyddu a Buddsoddi mewn Eiddo; a gwella bywiogrwydd canol y ddinas wrth Gryfhau Prif Fynediad a Chysylltiadau Trefol.

Bydd y Bartneriaeth yn ceisio datblygu gweithgareddau ychwanegol gan ganolbwyntio ar roi sylw i ffabrig gwael yr adeiladau sydd yn yr ardal fanwerthu a gwaith ar y Cylch Cyhoeddus. Mwy o fuddsoddi i ddatblygu'r Pier, datblygu mwy ar yr Ardal Ddiwylliannol, ailddatblygu Campws y Brifysgol ar Ffordd Deiniol a'i drawsffurfio'n Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan nifer o gynlluniau i wella edrychiad cyffredinol y ddinas, darparu mannau gwyrdd i ddinasyddion a rhesymoli trafnidiaeth a mynediad i gerddwyr.

Bydd gweithgareddau'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar y cyd â'r gymuned fusnes, er mwyn adeiladu ar waith y Bartneriaeth Canol Tref a sefydlu Ardal Gwella Busnes yng nghanol Dinas Bangor.

2. Economi a Hyrwyddo

Ar sail tair is-thema:
- Cefnogi Busnes
- Marchnata a Hyrwyddo
- Digwyddiadau

Bydd y prosiectau'n cynnwys gwrthdroi dirywiad y sector gweithwyr proffesiynol ac adfywio'r ddinas wrth ailddefnyddio'r gwagle uwchben siopau, grant a gwasanaethau cefnogol ymgynghorol i fân-werthwyr a busnesau Bangor, ail frandio ac ad-drefnu'r Ddinas, a chynlluniau i annog buddsoddi gan y sector preifat.

3. Tai, Iechyd a Llesiant

Ar sail dwy is-thema:
- Tai
- Iechyd a Llesiant

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r ddinas hefyd wedi profi newidiadau sylweddol yn narpariaeth ac ansawdd llety myfyrwyr Prifysgol Bangor. Ers sawl degawd, un prif effaith a ddaeth yn sgil y Brifysgol oedd lluosrwydd y stoc tai myfyrwyr - gyda 1,160 o Dai Amlfeddiannaeth ym Mangor sy'n cynrychioli oddeutu 21% o gyfanswm stoc tai'r ddinas. Mae dirywiad graddol yn ffabrig nifer o'r eiddo hŷn yn ogystal â datblygiadau llety myfyrwyr newydd yn golygu fod yna nifer o eiddo gwag a / neu dai o ansawdd isel yn amgylchynu calon y ddinas.

Hefyd, mae yna 1,528 o dai sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol ym Mangor (oddeutu 25% o gyfanswm y stoc tai). Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG), Tai Gogledd Cymru a Cynefin yw'r prif Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL). Mae swyddogaeth yr RSL yn un allweddol, nid yn unig i ddarparu tai i safon briodol, ond hefyd drwy ymgysylltu a chyflwyno amrediad o wasanaethau ategol a chefnogol.

Bydd gweithgarwch y prosiectau'n canolbwyntio'n sylweddol ar adfywio a thyfu'r stoc tai yn y Ddinas, ymdrin â'r materion negyddol sy'n gysylltiedig â Thai Amlfeddiannaeth, gwella cyflenwad tai canolraddol a gweithio gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Sector Preifat i ddwyn

| |
|---|
| Eiddo'n ôl i safon y byddai pobl ifanc yn benodol yn dymuno byw ynddynt, a bydd cynlluniau priodol i gyd-fynd â hwy i gefnogi amodau byw mwy cynaliadwy ac iachach, a mynediad i wasanaethau a chefnogaeth iechyd a llesiant.<br><br>Mae'r Ganolfan Integredig Iechyd, Teulu a Llesiant Bangor arfaethedig yn cynnwys datblygu cyfleuster amlasiantaethol i ymgorffori gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol, iechyd a therapi teulu a datblygiadau tai priodol yng nghanol y ddinas. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain ar y bwriad hwn a bydd yn cynnwys amrediad o gynlluniau llesiant, gan greu cyfleuster 'Un Stop' fydd yn hyrwyddo iechyd cymdeithasol drwy weithgareddau presgripsiwn cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau iechyd mwy traddodiadol.<br><br>Fel y manylir yn Adran 3, Atodiad 2 y Cynllun Adfywio Rhanbarthol, mae lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol yn ardal Maesgeirchen y ddinas. Mae cynigion hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer Canolfan Deulu Integredig Glancegin fyddai'n darparu cefnogaeth a mynediad i brif wasanaethau nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Yn ogystal â darparu cefnogaeth i'r teuluoedd o ran gwella cyfleoedd bywyd y plant ar y stad, bydd modd i ganolfan sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ddarparu cyfleusterau i helpu'r rhai sydd y tu allan i'r farchnad gyflogaeth fod yn barod i weithio.<br><br>Mae datblygu Cyfleuster Digartrefedd Integredig hefyd yn brosiect sydd yn yr arfaeth. Mae'r Prosiect hwn yn ei gamau datblygu cychwynnol dan arweiniad Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac elusen iechyd meddwl lleol.<br><br>Wrth ymdrin ag anghenion tai Dinas Bangor, bydd y gweithgarwch yn cael ei integreiddio gyda’r Rhaglen Tai Thematig.<br><br>Fel rhan o'r Rhaglen TRI, bydd trefniadau cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer cyflawni Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu swyddfa rhaglen i reoli a chydlynu'r gwaith o gyflawni'r gweithgareddau. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Bae Colwyn a Llysfaen** |
| Mae Bae Colwyn wedi bod yn destun rhaglenni adfywio ers 2009 ac mae yna lefelau uchel o amddifadedd mewn pedair ardal o fewn y dref. Mae rhaglen buddsoddi i adfywio holistaidd helaeth wedi bod ar waith yn y dref gan gynnwys datblygu cymunedau/ardaloedd, rhaglenni iechyd a llesiant, gwelliannau i'r glannau a gwaith amddiffyn yr arfordir, datblygu arena digwyddiadau rhanbarthol, adnewyddu tai, cynllun Treftadaeth Treflun, a datblygu swyddfeydd allweddol yn fwy diweddar. Mae'r rhain wedi denu ymwelwyr newydd i'r dref ac wedi dechrau gwella ei delwedd. Fodd bynnag, mae dwy ardal yn parhau i fod yn 10% isaf y WIMD, ac yn cynrychioli 12% o boblogaeth y dref, ac mae saith ward arall wedi'u cynnwys yn y 10% i 50% isaf, gyda dangosyddion ystyfnig o wael ar gyfer Incwm, Cyflogaeth, Tai ac Addysg. Ar ben hyn mae cyfraddau gwacter cyson uchel yng nghanol y dref ac nid yw nifer y bobl sy'n cerdded drwy'r dref wedi newid. |

Mae llesiant Bae Colwyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod cymuned ehangach y Bae yn gweithredu'n iawn a bod ei dyfodol yn ffyniannus, gan mai hon yw'r ail dref fwyaf yng ngogledd Cymru, gyda phoblogaeth o 33,000, a chanolbwynt twf Canol Gogledd Cymru (Cynllun Gofodol Cymru 2008). Oherwydd ei leoliad canolog ar hyd yr arfordir a'r cysylltedd cryf, mae modd i bobl a busnesau Bae Colwyn chwarae rhan sylweddol wrth gyfrannu at Weledigaeth Twf Gogledd Cymru.

Er bod y rhaglen adfywio wedi gweld cynnydd sylweddol yn nhri o'r pedwar gyrrwr a nodwyd ym Mhrif Gynllun Colwyn 2010, sef, Parc Eirias, y Glannau ac Adnewyddu Tai, mae cynnydd yng nghanol y dref wedi bod yn gyfyngedig.

Mae'r ymarfer meincnodi canol tref blynyddol a gynhelir gan 'Pobl a Lleoedd' yn cadarnhau fod y gyfradd gwacter o fewn canol y dref yn parhau i fod yn 17% (Mehefin 2017), ac er bod mwy o bobl yn cerdded ar y glannau ac ym Mharc Eirias, ychydig iawn o newid sydd wedi bod yng nghanol y dref, felly hefyd unrhyw symudiadau ar draws y dref. Canolfan Bay View yw'r canolbwynt o hyd. Mae ansawdd a maint yr eiddo, diffyg manwerthu hwylus, yn ogystal â nifer isel o bobl a phryderon am drefniadau rheoli traffig canol y dref yn parhau i fod yn brif rwystrau i fuddsoddi.

Bydd cam nesaf Rhaglen Adfywio Bae Colwyn, 2018-21 yn cadw ei agwedd holistaidd gan gytuno adfywio ffisegol gyda datblygu cymunedol a chanolbwyntio ar lesiant economaidd ac iechyd. Bydd buddsoddi yng nghanol y dref ei hun yn flaenoriaeth allweddol, gan barhau i greu amgylchedd all hwyluso buddsoddiad sector preifat a chyhoeddus sy'n gwneud y mwyaf o leoliad strategol a chysylltedd y dref fel cyrchfan, gwasanaeth a chanolfan fasnachol. Bydd hyn yn sicrhau:

> ***"...cyrchfannau canol tref bywiog ar gyfer siopa, busnes a masnach, gwasanaethau, diwylliant, adloniant a hamdden drwy wella bywiogrwydd, hyfywdra ac apêl..."*** *(Amcan Strategol 6 CDLl Conwy a Phrif Gynllun Bae Colwyn 2010)*

Ni fydd hyn yn cael ei wneud ar draul buddsoddiad parhaus i gyflawni strategaethau ar gyfer y tri gyrrwr arall, fel nad yw'r gwelliannau a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn cael eu colli:

- **Parc Eirias** - parhau i fuddsoddi fel cyrchfan digwyddiadau a chanolfan iechyd a llesiant o'r radd flaenaf ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ailddatblygu Canolfan Ddinesig Colwyn gerllaw.
- **Glan y Môr** - gweithredu Cam 2b a gwelliannau i bromenâd yr Hen Golwyn - Prosiect Isadeiledd Allweddol Gogledd Cymru, yn ogystal â chreu pier byrrach.
- **Adnewyddu Tai** - gweithredu'r cam o adnewyddu sy'n gorgyffwrdd â chanol y dref, yn enwedig adnewyddu llety preswyl yn Ffordd Bay View ac uwchben eiddo masnachol yn Ffordd Abergele.

Bydd Bwrdd Adfywio Bywyd y Bae ar ei newydd wedd - y corff sy'n cydlynu'r rhaglen adfywio - gyda chyfrifoldebau cadarnach ar gyfer Cyngor Tref ac Ardal Gwella Busnes Bae Colwyn yn gyrru'r rhaglen yn ei blaen dan frand **"Colwyn Creadigol"**. Bydd hyn yn tynnu sylw at y cyfleoedd sydd gan Bae Colwyn i'w cynnig a hefyd yn datblygu'r cynnig diwylliannol ehangach sef y celfyddydau, treftadaeth a hamdden. Bydd prosiectau BID ac IMAGINE, wedi'u cefnogi gan HLF, yn brif gyfranwyr at hyn.

Ar y cyd â strategaethau buddsoddi ar gyfer Parc Eirias a Glan y Môr, mae **Cynllun Buddsoddi Canol Tref** yn cael ei baratoi, fydd yn dewis ac yn adolygu prif gynigion gwreiddiol Prif Gynllun Colwyn. Gwneir hyn drwy ganolbwyntio ar dair thema:

**Adnabod**: brandio, arwyddion, cyfeiriadedd, pwyntiau angori pyrth, sicrhau cysondeb a dealltwriaeth o ganol y dref a'i chyffiniau. Prif Ddangosyddion: nifer yr ymwelwyr, nifer y bobl sy'n cerdded drwy'r ardal ac ymholiadau ynghylch buddsoddi.

**Integreiddio:** Bydd hyn yn canolbwyntio ar wella cysylltiadau rhwng rhannau gwahanol canol y dref. Canolbwyntir yn gyntaf ar y cysylltiadau o Ffordd Abergele i ganol craidd y dref; gan sicrhau bod datblygiad newydd Coed Pella yn cael ei integreiddio'n llawn; o Ganolfan Bay View i'r orsaf a Ffordd yr Orsaf; darpariaeth barcio a pha mor hygyrch ydyw; a symudiadau traffig, fel ei fod yn treiddio drwy ganol y dref. Mae hefyd yn hanfodol gwella cysylltedd canol y dref gyda'r ardaloedd sy'n ei amgylchynu, yn enwedig Glan y Môr - drwy Sgwâr yr Orsaf, Parc Eirias - ar hyd Ffordd Abergele, a'r ardal fusnes i'r gorllewin. Prif ddangosydd: nifer y bobl sy'n cerdded drwy'r ardal

**Bywiogrwydd:** Hynny yw, y strydoedd a mannau agored, er mwyn creu amgylchedd busnes a hamdden croesawgar. Gwneir hyn drwy gyfuniad o gylch cyhoeddus/strydwedd gwell a chyson a buddsoddi mewn eiddo o'u hamgylch i greu dyfodol cynaliadwy iddynt, boed hynny'n fusnes, yn hamdden, yn wasanaethau neu'n breswyl. Bydd y cynlluniau allweddol sy'n cefnogi'r thema benodol hon yn cynnwys:

- Cynllun Buddsoddi Mewn Eiddo Masnachol - olynydd i Fenter Treftadaeth Treflun ond sy'n edrych ar ardal ehangach a chymysgedd o grantiau a benthyciadau i'r sector preifat.
- Cynllun Buddsoddi mewn Safleoedd ac Eiddo Allweddol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn arwain pan fo methiant y farchnad yn amlwg. Bydd y gwaith yn dechrau ar 7 Ffordd Abergele, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar eraill megis yr Imperial Buildings, Neuadd y Farchnad, Ffordd Bay View ac ati. Defnyddio cyfuniad o gyllid i greu buddsoddiadau cynaliadwy i'r dyfodol.
- Rhaglen farchnata a chefnogi busnes integredig ar gyfer buddsoddwyr arfaethedig, rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, BID, Busnes Cymru a Choleg Llandrillo.
- Integreiddio a bywiogi gwagleoedd a chysylltiadau o fewn canol y dref ac i ardaloedd sy'n ei hamgylchynu. Bydd yn canolbwyntio gyntaf ar Ffordd Abergele / Conwy a Ffordd yr Orsaf cyn gweithio ar Erddi St Pauls ac Ivy Street. Bydd gan y prosiect IMAGINE sy'n cael ei gefnogi gan HLF ran annatod yn hyn i helpu i ddatblygu datrysiadau a hefyd sicrhau 'perchnogaeth gymunedol'.
- Gweledigaeth newydd i Sgwâr yr Orsaf, i gynnwys yr orsaf, ei flaengwrt, cysylltiadau i Glan y Môr; safle Neuadd y Farchnad, Imperial Buildings a 'grisiau'r orsaf' er mwyn iddo fod yn ganolbwynt gwirioneddol yng nghanol y dref. Bydd hyn yn gofyn am agwedd amlasiantaethol o ystyried y patrwm cymhleth o ran perchnogaeth y tir.
- Cynnig Marchnad a digwyddiadau newydd ar gyfer canol y dref sy'n cydweddu â Pharc Eirias a Glan y Môr ac yn eu hategu.
- Ailddatblygu Ffordd Douglas fel canolfan gymunedol gyda chyfleoedd menter a hyfforddi, ac o bosib i gynnwys canolfan deulu.
- Adnewyddu tai yn ardaloedd Ffordd Abergele a Ffordd Bay View ar y cyd â'r cynllun buddsoddi mewn eiddo masnachol.
- Buddsoddiadau sy'n ymwneud â'r Academi Dwristiaeth, megis llety myfyrwyr.

| |
|---|
| Bydd y prif ddangosyddion llwyddiant yn cynnwys cyfraddau gwacter is, buddsoddiadau busnes newydd, cynnydd yn lefelau cyflogaeth canol y dref, creu unedau preswyl, nifer a maint y marchnadoedd/digwyddiadau, cyfraddau goroesi busnesau, ffigyrau ymwelwyr a phobl sy'n cerdded drwy'r ardal.<br><br>Mae grŵp swyddogion Bywyd y Bae wedi bod yn cefnogi'r Bwrdd Adfywio ers 2009 a bydd yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n gywir ac ar amser gan ddefnyddio fframweithiau rheoli prosiect a rhaglenni Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a chadw at ofynion ariannol. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Caernarfon** |
| Mae Caernarfon yn gyrchfan dwristiaeth eiconig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Gellir dadlau fod gan Gaernarfon yr asedau hanesyddol, diwylliannol a naturiol gorau yng Nghymru, ac eto i gyd, yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif fe ddioddefodd ddirywiad economaidd graddol yn ei llwyddiant economaidd. Mae hyn wedi peri i rai rhannau o Gaernarfon ddatblygu lefelau uchel o amddifadedd gyda diweithdra uchel, cyflogau isel, tai ac iechyd gwael sydd wedi cyfrannu at olwg dlodaidd ar y dref, sydd wedi ei gwneud yn llai atyniadol ac wedi effeithio ar hyder y bobl sy'n byw ynddi, y bobl sy'n ymweld â hi a'r bobl sy'n buddsoddi ynddi.<br><br>Fel ymateb, mae'r dref yn destun rhaglen ddatblygol o fuddsoddi eang a pharhaus sydd wedi'i dylunio i wella ei statws fel cyrchfan eiconig sy'n rhaid ei gweld yng Nghymru. Mae dull gweithio newydd yn cael ei ddatblygu sy'n adeiladu ar gryfderau'r ardal wrth ddathlu amrywiaeth, a marchnata ei hunaniaeth unigryw a bod yn ddiwylliannol berthnasol. Mae'r rhaglen yn unigryw yn y ffordd y mae'n defnyddio asedau diwylliannol a hanesyddol eithriadol Caernarfon sy'n ei gwneud yn gadarnle i'r iaith Gymraeg; Castell Treftadaeth y Byd a chyffiniau hanesyddol; diwydiant/celfyddydau creadigol cynhenid cryf; porth Eryri; tref forol gyda glannau unigryw a hanesyddol; cysylltu i brif atyniadau megis Rheilffordd Ucheldir Cymru a Llwybr Arfordir Cymru.<br><br>Mae Menter Glannau Caernarfon ar hyn o bryd yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Cyrchfan Denu Twristiaeth sy'n cael ei arwain gan Groeso Cymru, Llywodraeth Cymru. Rhaglen eiconig sy'n buddsoddi gwerth miliynau o bunnau mewn twristiaeth ar draws Cymru ac yn cefnogi deg prosiect strategol sydd wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol i wella ansawdd cyrchfannau Cymru, a'r canfyddiad ohonynt.<br><br>Yn ystod cyfnod y Cynllun Adfywio Rhanbarthol, rhagwelir y bydd buddsoddiad pellach yn cael ei sicrhau i danategu'r dull adfywio newydd sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y dref. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Newbridge/Cefn a Phlas Madoc (pentrefi Wrecsam)** |
| Mae'r gwaith o adfywio'r Stryd Fawr yng Nghefn Mawr wedi derbyn cefnogaeth HLF drwy gynllun THI, a ddaeth i ben eleni. Adfywio mwy er mwyn gwella rôl Cefn Mawr fel canolfan dwristiaeth, gan ei gysylltu i'r gyrchfan Safle Treftadaeth y Byd a chynyddu profiad ymwelwyr a'r amser a dreulir ar y Stryd Fawr. Bydd hyn yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth o fewn busnesau sydd nawr yn gweithredu yma o ganlyniad i'r THI. Bydd y prif gynllun newydd yn mynd gam ymhellach i |

| |
|---|
| gefnogi'r cysylltiadau rhwng Cefn Mawr a'r Safle Treftadaeth y Byd gan nid yn unig annog pobl i ymweld â'r ardal ond hefyd creu gofod ymdroi.<br><br>Gall gweithgarwch adfywio gefnogi mynediad i wasanaethau a chyflogaeth ar gyfer cymuned gyfagos Plas Madoc. Bydd y cynllun adnewyddu Tai yn fuddiol i eiddo preifat yn yr ardal sydd o safon is na'r stoc tai cymdeithasol. Mae cynllun ailfodelu ystâd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd fydd yn gweithredu fel cerbyd i godi proffil Plas Madoc a'r agenda ailfodelu ystadau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn hanfodol i lwyddiant adfywio Plas Madoc a bydd cynnwys prosiectau nad ydynt yn rhai ffisegol yn creu cymuned gynaliadwy. Dyma fydd y fframwaith ar gyfer annog a gwthio buddsoddiadau i'r ardal yn y dyfodol wrth arddangos cyfleoedd adfywio. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Treffynnon** |
| Mae Treffynnon yn dref wledig fechan sydd â phoblogaeth o oddeutu 8,500. Mae pocedi sylweddol o amddifadedd o amgylch y dref.<br><br>Mae oddeutu 113 o unedau manwerthu yn ardal stryd fawr Treffynnon. Mae Treffynnon wedi elwa ddwywaith o gyllid Menter Treftadaeth Treflun ac mae ansawdd yr amgylchedd adeiledig yn uchel gyda statws ardal gadwraethol a nifer o adeiladau rhestredig. Mae’r cylch cyhoeddus, fodd bynnag, yn hen ffasiwn iawn ac o ansawdd gwael iawn. Dim ond cerddwyr sy'n cael mynediad i ganol y dref, ac mae hyn yn lleihau nifer y cwsmeriaid posib. Adroddir bod nifer y bobl sy'n cerdded drwy'r dref yn isel iawn. Er bod y lefelau gwacter yn isel o gymharu â ffigyrau cenedlaethol, maent yn uchel o gymharu â gweddill Sir y Fflint.<br><br>Mae blaenoriaethau adfywio'r dref yn cynnwys:<br>• Adolygu a datblygu opsiynau i wella mynediad i ganol y dref, gan gynnwys mynediad i gerbydau.<br>• Ymyraethau ar gyfer eiddo yng nghanol y dref i leihau'r ôl-troed manwerthu a chreu gweithgarwch newydd.<br>• Datblygiadau tai gan gynnwys tai rhent cymdeithasol a fforddiadwy.<br>• Gwella'r economi ymwelwyr drwy gysylltiadau i isadeiledd ehangach.<br>• Gwelliannau i amgylchedd y stryd. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Shotton (Glannau Dyfrdwy)** |
| Mae gan Lannau Dyfrdwy boblogaeth o oddeutu 54,000 o bobl. Mae'n brif ganolfan ar gyfer cyflogaeth a thwf economaidd posib yng ngogledd Cymru ac yn ardal Mersi Dyfrdwy gyda ffocws penodol ar weithgynhyrchu. Mae ardaloedd stryd fawr Glannau Dyfrdwy yn cynnwys oddeutu 215 o unedau manwerthu sy'n estyn dros ardal sy'n llawer rhy fawr i fod yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r amgylchedd adeiledig yng Nglannau Dyfrdwy yn wael ar hyd y brif ffordd arfordirol, sy'n creu argraff gyntaf wan. Mae clystyrau mawr o dai preifat sydd angen eu moderneiddio ac mae amgylchedd y stryd yn cael ei ddominyddu gan draffig, cylch cyhoeddus sy'n hen ffasiwn a llawer blaen siop o ansawdd gwael. Er bod lefelau gwacter manwerthu yn eithaf isel, mae gormod o unedau manwerthu yma. Mae traffig yn broblem gynyddol yng Nglannau Dyfrdwy gyda symudiadau |

| |
|---|
| lleol drwy'r ardal drefol i ardaloedd cyflogaeth yn dioddef tagfeydd trwm. Er gwaethaf y cyfleoedd economaidd yng Nglannau Dyfrdwy mae yma bocedi sylweddol o amddifadedd yn Shotton a Chei Connah.<br><br>Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy, a ddatblygwyd yn gynnar yn 2017 yn amlinellu blaenoriaethau datblygu economaidd Glannau Dyfrdwy:<br>1. Twf Economaidd<br>2. Trafnidiaeth<br>3. Tai<br>4. Sgiliau a Chyflogaeth<br>5. Yr Amgylchedd<br><br>Bydd y rhain yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio cyfuniad o ymyraethau strategol o Gynllun Twf Gogledd Cymru yn ogystal â phrosiectau adfywio mwy lleol gan gynnwys:<br>• Parhau â'r rhaglen adnewyddu tai i wella'r stoc tai.<br>• Datblygiadau tai gan gynnwys tai rhent cymdeithasol a fforddiadwy.<br>• Buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth leol i wella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau.<br>• Ymyraethau ar gyfer eiddo yng nghanol y dref i leihau'r ôl-troed manwerthu a chreu gweithgarwch newydd.<br>• Agor mynediad i afon Dyfrdwy.<br>• Gwelliannau i amgylchedd y stryd. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Llandudno** |
| Mae gan Landudno boblogaeth o 15,266 ac mae wedi datblygu fel canolfan dwristiaeth ranbarthol o bwysigrwydd cenedlaethol. Fel rhan annatod o Ganolbwynt Twf Canol Gogledd Cymru a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru 2008, mae hefyd yn arwyddocaol fel canolfan fanwerthu a gwasanaeth rhanbarthol.<br><br>Er gwaethaf llwyddiant ymddangosol y dref glan môr hon, mae dau LSOA yn arddangos lefelau incwm, cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol isel. Mae Tudno yn un o 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae newidiadau yn y diwydiant twristiaeth a arweiniodd at gau rhai o'r gwestai a'r llety gwely a brecwast hefyd wedi peri trosi eiddo i'r sector rhentu preifat fel fflatiau bychan neu Dai Amlfeddiannaeth, sydd wedi creu poblogaeth dros dro.<br><br>Yn y blynyddoedd diwethaf mae rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf wedi gweithio o fewn y cymunedau hyn i wneud newidiadau sylweddol i wella'r amgylchiadau. Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-27 yn cydnabod, fel mater allweddol, yr angen i gynyddu lefelau incwm a chreu cyflogaeth lawn amser yn y sector twristiaeth/hamdden. Er ei fod yn elwa o bob un o'r pum uchelgais o fewn y strategaeth, yr hyn sy'n allweddol i ddyfodol Llandudno yw datblygu'r hyn sydd gan y dref i'w chynnig i dwristiaeth y gaeaf.<br><br>Drwy weithio'n agos a thirfeddianwyr allweddol, Mostyn Estates, mae buddsoddiadau twristiaeth/hamdden, lletygarwch, manwerthu a masnachol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf ac mae mwy ar y ffordd. Mae llwyddiant parhaus y dref fel tref glan môr o bwysigrwydd |

| |
|---|
| cenedlaethol yn ddibynnol ar barhau i reoli'r gyrchfan a buddsoddiad mewn modd rhagorol yn ogystal â chefnogi a rhoi sgiliau i'r gymuned allu defnyddio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hynny. Bydd deilliannau buddsoddi i adfywio felly yn canolbwyntio ar bobl. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Dinbych** |
| Yn un o'r 10% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, collodd Dinbych ei phrif gyflogwr (Ysbyty Gogledd Cymru) dros ugain mlynedd yn ôl ac nid oes defnydd o werth wedi cael ei wneud o'r safle ers hynny. Mae sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat yn y safle hwn ac yn y dref ei hun wedi bod yn anodd ers nifer o flynyddoedd.<br><br>Mae arwyddion o ddirywiad yng nghanol y dref gan gynnwys cyfraddau gwacter uwch, nifer sylweddol lai o bobl yn cerdded ac yn gwario yn yr ardal ac mae adeiladau hanesyddol amlwg yn gorwedd yn segur yng nghanol y dref. Mae dewis cyfyngedig o siopau a gwasanaethau annibynnol poblogaidd ond mae bywyd nos y dref wedi lleihau'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf y duedd genedlaethol sy'n awgrymu y dylai fod yn tyfu.<br><br>Mae Dinbych yn mynd drwy gyfnod o newid a chythrwfl, ac mae angen cefnogaeth i gyflymu ei symudiad tuag at fod yn dref arbenigol gyda'r angor o gael cynnig twristiaeth gref. Mae gan y dref nifer uchel iawn o adeiladau hanesyddol yn cynnwys castell rhyfeddol Dinbych, ond nid oes yma ddarpariaeth llety da fyddai'n helpu i annog ymwelwyr i wario eu harian yng nghanol y dref.<br><br>Mae posib denu cwsmeriaid newydd i fusnesau yng nghanol y dref o ddatblygiad arfaethedig o dai newydd ar dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiadau preswyl o amgylch tref Dinbych, ond gyda chanfyddiad cymysg ynghylch parcio yn y dref (Astudiaeth Rheoli Traffig a Pharcio Canol Tref Dinbych 2015) bydd gwella mynediad yn hanfodol i wneud y mwyaf o'r marchnadoedd newydd hyn. Mae angen mawr am dai fforddiadwy yn yr ardal hefyd yn gyfle posib i ddarparu defnyddiau newydd ar gyfer eiddo adfeiliedig a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio yng nghanol y dref, gyda'r posibilrwydd ychwanegol o gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded drwy ganol y dref a bywiogrwydd canol y dref yn yr hirdymor pan fydd modd sicrhau buddsoddiad. Bydd methu â rhoi sylw i'r amrediad o faterion a amlygwyd yn arwain at ddirywiad mewn cyfleoedd cyflogaeth lleol a mynediad lleol i nwyddau a gwasanaethau. |
| **Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Caergybi** |
| Er gwaethaf ei rôl strategol fel porthladd rhyngwladol, mae Caergybi wedi dioddef o dlodi, diweithdra ac amddifadedd ers sawl degawd, ac mae nifer o breswylwyr yn cael eu heffeithio'n andwyol gan ddiwygiadau lles. Collwyd swyddi ar raddfa fawr yn 2009-10 pan gaeodd dau o dri phrif gyflogwr y dref, a gwneud i ffwrdd â'r swyddi a enillwyd yn y gorffennol. O holl drefi Gogledd Cymru, daw Caergybi yn ail i'r Rhyl o ran canran y boblogaeth sydd mewn amddifadedd incwm (27%) a phobl o oed gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (17%).<br><br>Lansiwyd strategaeth adfywio bresennol Caergybi yn 2014 gyda'r weledigaeth:- *Rhaid i Gaergybi fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fod yn lle deinamig a chynaliadwy i fyw, i weithio , i ymweld ag o ac i fuddsoddi ynddo.*<br><br>Prif amcanion y Strategaeth yw:- |

*1. Gwella cyflenwad, dewis a safon cartrefi ac ansawdd y lle*

*2. Gwneud y mwyaf o fuddsoddiadau mawr i sicrhau swyddi newydd i bobl leol*

*3. Lleihau tlodi wrth wneud y mwyaf o'r budd lleol a ddaw yn sgil datblygiadau newydd*

*4. Gwaith integredig ac arloesol yn arwain at drawsnewidiad hirdymor cadarnhaol*

Gwelodd Rhaglen 2014-17 VVP fuddsoddiad cyfalaf cyffredinol o £32m yn y dref, gan gynnwys tai cymdeithasol newydd, gwelliannau tai, gwelliannau a chefnogaeth busnes canol tref, ysgol gynradd newydd, canolfan Dechrau'n Deg newydd a chyfleusterau newydd a gwell i'r gymuned. Mae'r broses adfywio yn amlwg heb ei gorffen a bydd angen iddi barhau am sawl degawd. Yr angen sylfaenol yw rhoi hwb i gyflogaeth leol.

Mae'r anghenion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn cynnwys: angorfa aml-ddefnydd/llong bleser, gwaith ar seilwaith yr harbwr, ac ailddatblygu a gwneud defnydd addas o adeiladau mawr gwag a safleoedd ysgolion sydd wedi cau.

**Ardal Adfywio â Blaenoriaeth: Abergele a Phensarn**

Caiff Abergele/Pensarn sydd â phoblogaeth o 10,700 ei adnabod gan Gynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-22 fel ardal dwf allweddol yng ngogledd ddwyrain y Sir lle mae mwy na 800 o unedau tai wedi cael eu dynodi yn ardaloedd de-ddwyreiniol a gorllewinol y dref. Fodd bynnag, mae ardal yr anheddiad yn cynnwys yr LSOA mwyaf difreintiedig yn sir Conwy ym Mhensarn, lle mae lefelau uchel o amddifadedd incwm, tai, cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol.

Mae bywiogrwydd cyffredinol ymddangosol y gymuned yn cyferbynnu'n llwyr â'r materion sydd ym Mhensarn ac yng nghanol y dref sydd bellach â chyfradd gwacter o 17% yn dilyn cau'r banc olaf yna. Mae'r dref dan fygythiad gan ganolfannau cryfach sy'n cystadlu â hi o fewn y rhanbarth, ac er bod ei hagosrwydd i'r A55 yn ymddangos yn fanteisiol, mae bod ar gyffordd gwahanol lwybrau'n golygu fod hynny'n peri problemau gyda seilwaith y dref, yn enwedig traffig a thagfeydd sy'n effeithio ar ba mor ddeniadol yw'r dref a pha mor apelgar ydyw i fuddsoddwyr. Mae'r angen am wasanaethau hygyrch ac integredig yn fater allweddol gan fod mwy na thraean o'r aelwydydd mewn oedran hawlio pensiwn ac mae gan bron i chwarter yr aelwydydd yn ward Pentre Mawr y nifer fwyaf o blant dibynnol.

O ganlyniad i'r materion hyn yn 2016 datblygwyd Cynllun Creu Lleoedd i'r gymuned i ymateb i dwf y dyfodol a chyflawni newid sy'n gweithio tuag at gyrraedd ei nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod asedau ac anghenion y gymuned leol fel ysbrydoliaeth i greu lleoedd da, gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd bellach wedi'i fabwysiadu ac ar waith i osod cyfeiriad strategol gyda gweledigaeth sy'n seiliedig ar *"Rhwng y môr a'r mynyddoedd, mae gan gymuned canol tref Abergele galon ac mae'n gofiadwy am yr amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir yma yn ogystal â bod yn ganolfan i grwydro'r ardal."* Mae cynllun gweithredu 15 mlynedd i gefnogi'r Cynllun gyda nifer o "Syniadau Mawr" ac "Enillion Sydyn" sy'n cynnwys canolfan gymunedol, lleoliad

| |
|---|
| celfyddydau a diwylliant, llwybrau iechyd egnïol, cefnogaeth fentergarwch leol, gwelliannau i'r seilwaith, ardal tai Pensarn a phromenâd Pensarn.<br><br>Mae'r trefniadau llywodraethu a rheoli hefyd wedi'u sefydlu ac mae'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Creu Lleoedd nawr yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i weithredu mewn gwahanol feysydd thematig megis tai, iechyd a llesiant, mynediad a seilwaith, busnes, twristiaeth a swyddi a diwylliant a threftadaeth o fewn fforwm cymunedol sy'n cynrychioli barn ehangach sefydliadau a phreswylwyr lleol. Felly mae'r seilwaith yn ei le'n barod yn Abergele a Phensarn i allu ymateb i gyfleoedd strategol megis y rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio. |
| **Blaenoriaethau Thematig** |
| **Blaenoriaeth Thematig 1 - Tai** |
| **1.1 Rhaglen Tai Eiddo Gwag** |
| Mae'r angen am raglen benodol i roi sylw i'r heriau a'r cyfleoedd a gyfyd yn sgil adeiladau gwag wedi cael ei adnabod yng ngogledd Cymru, lle amcangyfrifir bod yna 6,000 o eiddo sy'n wag am yr hirdymor. Mae'r angen i leihau nifer y tai gwag yn un o amcanion polisi tai allweddol Llywodraeth Cymru.<br>Mae tai a fflatiau gwag yn cynrychioli adnodd sy'n cael ei wastraffu a chyfle i gynyddu cyflenwad tai mewn cyfnod o ddiffyg tai sylweddol. Byddai cyfuniad o fenthyciadau ad-daladwy, grantiau, ymgysylltu'n rhagweithiol gyda pherchnogion yr eiddo yn ogystal â gwaith gorfodi gan yr Awdurdodau Lleol mewn achosion priodol yn galluogi i fwy o eiddo gwag ddod yn ôl i ddefnydd.<br>Mae cau cyfleusterau megis capeli, llysoedd a banciau yn cael effaith andwyol ar sawl tref fechan yn y rhanbarth, ac mae'r adeiladau hyn yn aml yn addas i gael eu trosi er defnydd preswyl, busnes neu gymunedol, neu fel canolfannau aml ddefnydd. Yn aml, mae adeiladau megis eglwysi'n heriol ac yn ddrud i'w hailwampio (e.e. oherwydd eu bod yn rhestredig) ac, heb arian neu gefnogaeth gyhoeddus, mae posib iddynt fod yn segur am flynyddoedd. Yn yr un modd â thai gwag, bydd angen cefnogaeth ar ffurf cyfuniad o grantiau a benthyciadau ad-daladwy, yn ogystal â mesurau eraill, megis mesurau gorfodi priodol.<br>Bydd unrhyw fuddsoddiad dan y thema hon yn cael ei flaenoriaethu yn y trefi mwyaf difreintiedig, neu'r rhai hynny lle mae nifer a math yr adeiladau gwag yn achosi problemau penodol, ond bydd hefyd yn helpu i ymdrin ag anghenion a chyfleoedd penodol mewn aneddiadau eraill lle gellir gwneud achos ddigon cryf.<br>Yn y rhan fwyaf o achosion, mae perchnogion eiddo gwag yn gorfod talu'r Dreth Gyngor ar ôl i'r eiddo fod yn wag am chwe mis neu fwy, nid yw eiddo gwag yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol arall i'r ardal y maent wedi'u lleoli, ac fe allant hefyd helpu i wneud ardal edrych fel pe bai wedi cael ei hesgeuluso. Gall eiddo gwag hefyd gael effaith negyddol ar werth eiddo cyfagos a'u gwneud yn llai deniadol i brynwyr arfaethedig.<br>Mae cynllun benthyciadau di-log Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad positif i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ond mae nifer yr eiddo sy'n elwa o'r cynllun yn parhau i fod yn ganran fechan o gyfanswm nifer yr eiddo gwag.<br>Mae'r Gofrestr Tai Cymdeithasol a'r Farchnad Tai Lleol ar gyfer pob sir yng ngogledd Cymru yn dangos beth yw graddau'r angen ar hyn o bryd, ac mae'n amlwg yn rhesymegol y dylai rhan helaeth o'r angen hwn gael ei ddiwallu o'r stoc sy'n bodoli eisoes wrth ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. |

Byddai targedu grantiau'n briodol yn galluogi:

- i brynwyr tro cyntaf i brynu eiddo gwag fyddai wedi bod y tu hwnt i'w cyrraedd fel arall (oherwydd taliadau morgais neu ddiffyg ecwiti), a bydd hefyd yn cyfrannu at wella cyflwr stoc tai'r sector preifat.
- Awdurdodau i dargedu tai gwag sy'n achosi problemau lle nad oes neb wedi derbyn cynigion i fenthyca arian, neu lle mae amgylchiadau'r perchnogion yn golygu nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth gan y cynllun
- Y potensial i greu gwaith i gontractwyr lleol gyda budd pellach i'r gadwyn gyflenwi leol

Byddai'n rhaid cael proses asesu i gefnogi Cynllun Eiddo Gwag, i alluogi amrywio lefelau'r grant o eiddo i eiddo, i sicrhau y gellir cynnwys cymaint o eiddo â phosib, a bydd cyfraniadau gan berchnogion yr eiddo neu o ffynonellau ariannu eraill yn talu am weddill y costau.

Mae deddfwriaeth ddiweddar y Llywodraeth ganolog wedi cyfrannu at wneud y sector rhentu preifat yn anos i gael mynediad iddi i aelwydydd incwm isel. Gellir cysylltu'r grantiau i'r hawliau enwebu i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai cymdeithasol.

Mae cynigion y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar gynllun ar y cyd ar gyfer Ardal Teithio i Waith Bangor a Chaergybi, yn gysylltiedig ag effeithiau Diwygio Lles, materion llety myfyrwyr Prifysgol Bangor, ac effeithiau posib Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol.

**Blaenoriaeth Thematig 1 - Tai**

**1.2 Adfywio Tai**

Nod unrhyw weithredu o fewn rhaglen o brosiectau adnewyddu tai yw **cefnogi rhaglenni adfywio ehangach** drwy **gynyddu hyder buddsoddwyr** ac **amddiffyn buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes** wrth weithio i wella'r pocedi o dai o ansawdd gwael ac amddifadedd, sydd dal yn bodoli mewn aneddleoedd yng ngogledd Cymru.

Roedd rhaglen Ardal Adnewyddu Llywodraeth Cymru a oedd yn weithredol am sawl blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017 yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, ceir pocedi o eiddo gwag ac eiddo o ansawdd gwael o hyd mewn aneddleoedd allweddol, ac ar y cyrion iddynt, na chafodd sylw dan y rhaglen waith hon.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol fod tai o ansawdd gwael yn gallu effeithio'n andwyol ar iechyd y bobl sy'n byw ynddynt, ac yn fwy cyffredinol ar ansawdd bywyd mewn ardal. Er mai perchnogion tai sy'n bennaf gyfrifol am gynnal a chadw eu heiddo eu hunain, cydnabyddir weithiau nad oes gan rai perchnogion, yn enwedig pobl oedrannus a phobl fregus, yr adnoddau sydd eu hangen i gadw eu cartrefi mewn cyflwr da. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i adolygu ac ymdrin â safonau tai yn eu hardal ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu perchnogion tai i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

Bu i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cefnogaeth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (RRO), a ddaeth i rym ar 18 Gorffennaf 2002, ddiddymu a disodli Rhan I, Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae'r RRO yn galluogi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr gynnig mesurau i helpu preswylwyr i atgyweirio, addasu a gwella eu tai, i dargedu adnoddau yn unol â blaenoriaethau lleol ac i osod amodau a meini prawf a chyfyngiadau ariannol cymhwyso sy'n rhaid eu bodloni er mwyn ystyried rhoi cymorth ariannol.

Mae felly'n gyfle i gyfrannu mwy at strategaethau cyffredinol y Llywodraeth sy'n ceisio trechu tlodi ac eithrio cymdeithasol, anghydraddoldebau iechyd a dirywiad cymdogaethau. Yn unol â

thelerau Diwygio Rheoleiddio, rhaid i Gynghorau sicrhau bod eu polisïau tai yn cyd-fynd ag amcanion strategol cenedlaethol ehangach.

Mae amcanion allweddol y cynnig Adnewyddu Tai yn cynnwys:

- Gwella ansawdd bywyd preswylwyr wrth dargedu cartrefi sydd yn y cyflwr gwaethaf
- Cefnogi parhad marchnad dai fforddiadwy ochr yn ochr â chynnig dewis llawn o dai
- Atgyweirio eiddo adfeiliedig a datblygu eiddo yn eu lle drwy ddefnyddio camau gorfodi a phryniant gorfodol yn ôl yr angen
- Dod â safleoedd segur neu adfeiliedig yn ôl i ddefnydd
  Gwella'r amgylchedd drwy gael mwy o ofod gwyrdd yn y cyffiniau

Ceir tystiolaeth i brofi fod defnyddio rhaglenni Adnewyddu Tai ar sail Ardal yn fodd effeithiol o adnewyddu ardaloedd o dai o ansawdd gwael ac o ddiogelu cymunedau. Gellir cyflawni nifer o gynlluniau sy'n cynnwys darparu cymorth grant ar ffurf cynlluniau atgyweirio grŵp, grantiau trosi, grantiau masnachol a mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n gysylltiedig â chyllid gan ddarparwyr ynni. Yn ogystal, gellir cyflawni peth gwaith gwella amgylcheddol o fewn yr ardaloedd i gynnwys sefydlu ardaloedd tirlunio sy'n gofyn am ychydig o waith cynnal a chadw, gwell mynediad i feysydd parcio cymunedol, llwybrau mynediad cyffredin a waliau terfyn.
Gall y cynlluniau hyn gynnig modd o bwyso am fwy o arian ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a chyfraniadau gan y sector preifat.
Gall y gwaith sy'n cael ei gwblhau gynnwys gwelliannau i rannau allanol adeiladau sy'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- toeau
- simneiau
- ffenestri a drysau
- waliau allanol
- gwteri
- gwaith pwyntio a rendro

Mae'r angen am gynllun adnewyddu Tai o fewn Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth wedi cael ei adnabod fel angen yng ngogledd Cymru gan ganolbwyntio ar Fywyd Canol Tref gan gynnwys HARPS/LOTS.

Mae'r flaenoriaeth thematig hon yn ymateb i'r angen am dai sydd wedi'i nodi yn y rhanbarth a hefyd yn rhoi diben i beth o'r gofod gwag uwchben eiddo manwerthu mewn canol trefi nad oes eu hangen mwyach.

Mae darparu amrediad o lety addas mewn canol trefi ac wrth eu hymyl hefyd yn fodd o gefnogi dyheadau adfywio'r rhanbarth ar gyfer rhai ardaloedd drwy ddenu cymysgedd mwy amrywiol o

| |
|---|
| bobl i fyw yng nghanol y dref fydd yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n cerdded drwy'r ardal ac yn cynyddu'r gwariant o fewn yr economi leol.<br><br>Mae'r math o gynlluniau yn cynnwys:<br><br>**Trosi - Cartrefi Uwchben Eiddo Manwerthu (HARPS)** - Cymorth ariannol tuag at gostau trosi gofod sy'n cael ei danddefnyddio mewn eiddo masnachol ar gyfer defnydd preswyl, o fewn canol tref neu bentref ac unrhyw gynllun strategol arall a benderfynir gan y Cyngor.<br><br>**Grant Masnachol -** Galluogi i eiddo masnachol sy'n bresennol gyda thai domestig gael eu gwella i safon atgyweirio grŵp.<br><br>**Cynllun Benthyciadau -** Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau i gartrefi sector preifat ac i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, drwy gynnig benthyciadau. Diben y benthyciadau yw cynnig model cynaliadwy a hirdymor i godi safon llety preswyl o fewn y sir.<br>Mae'r cynlluniau hyn, yn ddibynnol ar fod ar gael ac ar fod yn gymwys, yn gweithredu law yn llaw â chynlluniau eraill megis yr Ardal Adnewyddu, Menter Treftadaeth Treflun ac Effeithlonrwydd Ynni (ECO a Nest) i sicrhau bod eiddo'n cael y budd mwyaf o'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn y stoc tai. Mae natur a chynnwys y benthyciadau'n amrywio'n unol â'r cynllun ac mae rhai'n cynnwys ardaloedd penodol tra bod eraill ar gael ym mhob man yn y Sir.<br>**Tai Gwag yn Gartrefi** - datblygwyd y cynllun benthyciadau i fynd i'r afael ag eiddo gwag hirdymor yng Nghymru.<br>**Benthyciadau Gwelliannau Sector Preifat -** Cynllun benthyciadau i adnewyddu tŷ i safon resymol, heb unrhyw beryglon difrifol (fan leiaf).<br>**Houseproud -** Os nad oes unrhyw ffynonellau ariannu allanol ar gael i berchnogion tai, mae'r cynllun hwn sy'n cael ei redeg gan y Cyngor yn sicrhau y gellir cynnal unrhyw welliannau, gwaith atgyweirio ac addasiadau ar eiddo i gael tawelwch meddwl. Mae Houseproud yn cynnig ffordd ddiogel a hawdd i gael gwaith hanfodol wedi'i gwblhau i safon broffesiynol a gyda chyn lleied o ffws â phosib, gyda'r bwriad o helpu preswylwyr i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain wrth dalu am y gwaith yn uniongyrchol eu hunain.<br><br>Byddai ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer Blwyddyn Gyntaf y Rhaglen Targedu Arian Adfywio yn cynnwys De Orllewin Wrecsam, ardal Gogledd Canol Bae Colwyn a Chanol Tref y Rhyl gyda'r potensial i wella oddeutu 130 eiddo mewn cyfnod 12 mis.<br><br>Byddai gwaith datblygu pellach yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf i ddatblygu cynlluniau eraill ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn fydd yn cynnwys prosiectau yn Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. |
| **Blaenoriaeth Thematig 2 - Adeiladau Pwysig** |
| **Cefndir** |

Mae canol trefi llai yn y DU yn wynebu amodau economaidd heriol sy'n bygwth eu bywiogrwydd a'u hyfywedd. Mae newidiadau ym mhatrwm ymddygiad cwsmeriaid yn effeithio ar rai o'u swyddogaethau traddodiadol, yn enwedig darpariaeth manwerthu a gwasanaethu. Mae graddfa manwerthu ar y stryd fawr wedi lleihau dros amser wrth i gwsmeriaid ddibynnu mwy ar nifer lai o ganolfannau manwerthu mwy ac wrth i ddylanwad manwerthu ar-lein dyfu. Mae gwasanaethau traddodiadol y stryd fawr, megis bancio, hefyd wedi diflannu o sawl tref wrth i gwsmeriaid ddibynnu mwy a mwy ar ddulliau eraill megis dros y ffôn ac ar-lein.

Mae ffurf adeiledig canol trefi'n adlewyrchu patrwm traddodiadol eu defnydd ac mae'n aml yn anodd ac yn ddrud i'w addasu i ddibenion newydd. Gall colli swyddogaethau manwerthu a gwasanaethau arwain at gylch dieflig o gyfraddau gwacter uwch, llai o fuddsoddi i gynnal a chadw adeiladau, amgylchedd llai deniadol yng nghanol y dref, llai o bobl yn cerdded drwy ganol y dref ac amodau masnachu gwaeth i'r busnesau hynny sy'n dal yna.

Mae'n hanfodol bwysig felly i'r sector cyhoeddus ymyrryd i gefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. Er bod eu swyddogaethau'n newid, maent yn parhau i fod yn ganolfannau pwysig i gyflogaeth, mynediad i wasanaethau a rhyngweithio cymdeithasol ac maent yn chwarae rhan bwysig iawn ar gyfer y bobl sydd fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

**Diben y flaenoriaeth**

Bydd y gwaith a gyflawnir dan y flaenoriaeth hon yn galluogi i'r sector cyhoeddus ymyrryd pan ddaw adeiladau allweddol mewn canol trefi'n wag neu pan fydd eu trosi i swyddogaeth arall yn diogelu eu hyfywedd yn yr hirdymor. Bydd y flaenoriaeth yn cefnogi targedu i brynu a/neu adnewyddu'n ofalus adeiladau pwysig mewn canol trefi; adeiladau sy'n bwysig oherwydd eu treftadaeth, eu proffil, eu lleoliad neu eu maint.

**Manteision y flaenoriaeth**

Wrth ddiogelu adeiladau pwysig, bydd y gwaith a gyflawnir dan y flaenoriaeth hon yn:


- helpu i adfer hyder mewn canol trefi;
- cyfrannu i dorri ar y patrwm o ddirywiad mewn canol trefi;
- diogelu asedau treftadaeth pwysig;
- creu cyfleoedd cyflogaeth.

Cydnabyddir fod angen gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu dull strategol i ymateb i'r mater hwn. Rhagwelir y bydd gofyn am ychydig o gefnogaeth gan y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio i gefnogi datblygu cynllun cydlynol fydd yn sail i geisiadau prosiect y dyfodol yn ail a thrydedd flwyddyn y cynllun.

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Gweler Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Cynllun Adfywio Gogledd Cymru yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2:** Strwythur Llywodraethu ar gyfer Cynllun Adfywio Gogledd Cymru




Mae **Grŵp Swyddogion Adfywio Rhanbarthol** wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol sydd ag arbenigedd mewn Adfywio, a chaiff ei gadeirio gan aelod o Grŵp Rheoli Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (PMG). Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am:

- Gytuno ar drefniadau gweithredol i gyflwyno'r cynllun Adfywio Rhanbarthol ac unrhyw brosiectau thematig
- Monitro cynnydd prosiectau thematig ac ardal yn erbyn targedau ariannol ac allbwn o unrhyw ffrydiau ariannu rhanbarthol perthnasol, a chynnig camau adferol fel y bo'n briodol
- Datblygu cynigion i'w blaenoriaethu ar gyfer unrhyw ariannu yn y dyfodol.

Mae'r grŵp hwn yn adrodd ar gynnydd i PMG Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn rheolaidd.

Mae gan **Grŵp Rheoli Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** (PMG) Uwch Swyddogion o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol gyda'r cylch gwaith ar gyfer Adfywio a Thwf Economaidd, a chaiff ei gadeirio gan aelod o Dîm y Prif Weithredwyr (CET). Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am:

- Ddatblygiad a chyflwyniad strategol Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru
- Rheoli a monitro strategol y Cynllun Adfywio Rhanbarthol ac unrhyw becynnau ariannu rhanbarthol perthnasol
- Ategu argymhellion am gynigion prosiectau ar gyfer cyllid adfywio i'r dyfodol yn unol â'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol.
- Mae'r grŵp hwn yn adrodd ar gynnydd i'w grwpiau Cabinet perthnasol, Tîm y Prif Weithredwyr, grŵp yr Arweinydd a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru amlasiantaethol yn rheolaidd.

Mae'r partneriaethau adfywio lleol a'r trefniadau rheoli yn tynnu partneriaid o amryw sefydliadau, gyda rhai o fewn strwythurau llywodraethu ac eraill o fewn datblygiad prosiect unigol i sicrhau y gwneir y mwyaf o sgiliau, arbenigedd ac adnoddau i ddarparu'r datrysiad gorau ar gyfer pob ardal leol.


## MONITRO

Mae Cynllun Adfywio Gogledd Cymru yn gosod blaenoriaethau a dyheadau i'r rhanbarth hyd nes 2035. Bydd llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar gyflwyniad ymyraethau adfywio ymysg y blaenoriaethau economaidd cenedlaethol ehangach a'r cyd-destun byd-eang.

Bydd Grŵp Swyddogion Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymgymryd â'r swyddogaeth fonitro i sicrhau bod:

- Blaenoriaethau o fewn y Cynllun Adfywio Rhanbarthol yn gyfredol ac yn ystyried datblygiadau rhanbarthol a lleol
- Ceisiadau am gyfleoedd ariannu rhanbarthol yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r blaenoriaethau a osodir o fewn y cynllun Adfywio Rhanbarthol
- Prosiectau a wahoddwyd i fynd ymlaen am gyfleoedd ariannu rhanbarthol yn cael eu datblygu yn unol â phroffiliau allbwn ac ariannol a gytunwyd, a bod amserlenni a chamau adferol yn cael eu cytuno os na fydd y ceisiadau yn debygol o gwrdd â disgwyliadau arianwyr er mwyn diogelu'r arian ar gyfer y rhanbarth
- Prosiectau a gymeradwywyd o fewn unrhyw raglenni ariannu rhanbarthol yn cael eu cyflwyno yn unol â'r proffiliau allbwn ac ariannol, a lle mae problemau, sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i gefnogi'r prosiect neu, lle bo'n briodol, i ddiogelu'r arian
- Cyfleoedd i uchafu effeithlonrwydd drwy gydweithio yn cael eu hadnabod.

**Model Gwerthuso**




Mae fframwaith werthuso wedi cael ei datblygu yn defnyddio canllawiau Llyfr Magenta Trysorlys Ei Mawrhydi. Ar lefel prosiect, bydd mewnbwn ariannol yn cael ei fesur ynghyd â mesurau gweithgarwch, a bydd yr allbynnau hynny yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i'r prosiect.

Bydd dwy lefel arall yn cael eu harchwilio o safbwynt y rhaglen. Caiff astudiaethau achos eu casglu o'r trafodaethau gyda'r aelodau hynny yn y gymuned sydd wedi cael budd o'r buddsoddiadau a'r

gweithgareddau adfywio.  Bydd y rhain yn ffurfio 'stori ddynol' ehangach i gwblhau'r dadansoddiad ystadegol.

Yn olaf, ystyrir y gweithgareddau adfywio hyn yn rhan allweddol o strategaeth economaidd ehangach y rhanbarth.  Bydd felly'n bwysig i osod gwaelodlin ac olrhain cyfres o ddangosyddion lefel poblogaeth.  Mae gan y dangosyddion lefel poblogaeth hyn ddau bwrpas. Maent yn cynrychioli'r buddion y rhagwelir i'r gweithgareddau adfywio hyn eu creu. Mae'r gwaelodlinau cyfredol yn cynrychioli'r dystiolaeth am yr angen ar yr hyn y mae cynllun y prosiect yn seiliedig. Mae'r wybodaeth waelodlin wedi’i chynnwys yn Atodiad 2.

**Dangosyddion Poblogaeth**

Ar gyfer pob un o'n hardaloedd â blaenoriaeth, byddwn yn adrodd ar y data a ganlyn bob blwyddyn:

1. Incwm Aelwyd
    a. Yn y dref
    b. Mewn ardal ddifreintiedig
2. Niferoedd Cyflogaeth (yn y dref)
3. Nifer y Busnesau (yn y dref)
4. Dangosydd Incwm WIMD (mewn ardal ddifreintiedig)
5. Dangosydd Cyflogaeth WIMD (mewn ardal ddifreintiedig)

Bydd prosiectau adfywio unigol yn sefydlu allbynnau a thargedau perthnasol a fydd yn cael eu monitro a'u hadrodd arnynt ar lefel bwrdd prosiect unigol.

## CYFATHREBU

Rheolir y cyfathrebu ar lefel ranbarthol gyda datblygiad strategaeth gyfathrebu ar lefel rhaglen, ac yna fel rhan annatod o bob prosiect.

Bydd yr holl weithgareddau cyfathrebu yn unol â'r disgwyliadau a osodwyd yn Safonau'r Gymraeg.

Bydd y Strategaeth Gyfathrebu yn adnabod prif nodau, amcanion ac allbynnau mesuradwy cyfathrebu ynghyd â'r prif negeseuon i'w cyfathrebu.

Bydd prif negeseuon yn cael eu datblygu i sicrhau bod prif rhanddeiliaid a chymunedau ar draws y rhanbarth yn deall:

- Bod y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd er pennaf les y rhanbarth
- Bydd adnoddau'n cael eu defnyddio'n ystyriol er mwyn cael yr effaith fwyaf
- Bydd methiant i fynd i'r afael â'r heriau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael effaith ar wasanaethau ar draws y rhanbarth (gan gynnwys y galw ar wasanaethau iechyd a'r heddlu)
- Mae gan Ogledd Cymru nifer o gryfderau a chyfleoedd ac mae'n lle da i fyw, gweithio ac ymweld
- Mae Gogledd Cymru yn lle da i fuddsoddi
- Bod hwn yn ymrwymiad tymor-hir.

Bydd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac arianwyr eraill yn cael eu cyfathrebu ar lefel ranbarthol a lefel prosiect.

Gwneir dadansoddiad rhanddeiliaid i hysbysu'r datblygiad o strategaeth ymgysylltu ar gyfer y Strategaeth Adfywio. Bydd hyn yn adnabod negeseuon cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid allweddol fydd yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- AC/AS
- Aelodau lleol / aelodau Cabinet
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgorffori iechyd, gwasanaethau brys ac addysg
- Cymunedau
- Busnesau Presennol
- Buddsoddwyr

# Atodiadau

# Atodiad 1 - Cynigion Newydd

Bwriedir adolygu a diweddaru'r adran hon o'r ddogfen yn gyson pan fo cyfleoedd yn codi a phan fo'r Cynllun yn symud yn ei flaen, a bydd yn gosod y rhesymeg a'r manylion ar gyfer cynigion prosiect i bob cyfle ariannu.

Bydd cynigion yn cael eu llunio o'r rheini a adnabuwyd o fewn y Cynllun Adfywio Rhanbarthol, a byddant yn cael eu blaenoriaethu ar sail perthnasedd ac addasrwydd i feini prawf bob cyfle ariannu.

Cyfleoedd Ariannu Cyfredol

1.1 Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio Llywodraeth Cymru - 2018-21

**ATODIAD 1.1**

## CYNIGION NEWYDD - RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD ADFYWIO LLYWODRAETH CYMRU (2018-21)

**Mae'r rhaglen Menter Targedu Adfywio (TRI) yn rhaglen newydd gan Lywodraeth Cymru (LlC) sy'n buddsoddi mewn adfywio, a bydd yn dechrau yn 2018.**

**Mae'r adran hon yn berthnasol yn benodol i flaenoriaethau a phrosiectau a all fod wedi'u cefnogi drwy'r rhaglen ariannu hon. Gosodir y cyd-destun adfywio ehangach ar gyfer y prosiectau hyn yn y Cynllun Adfywio Rhanbarthol.**

**Bwriedir adolygu ac addasu'r adran hon yn gyson fel bydd cynigion yn esblygu, fel bydd ceisiadau prosiect yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo, ac fel bydd dyheadau fwy hirdymor yn mynd yn fwy diffiniedig. Mae'r dull rhanbarthol hwn i ymgeisio am Fuddsoddiad Adfywio Llywodraeth Cymru hefyd yn newydd, a rhagwelir bod y prosesau a'r dull yn cael eu hadolygu a'u mireinio fel bydd y bartneriaeth ranbarthol yn aeddfedu.**

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd - creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a chreu'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu - gan ganolbwyntio ar yr unigolion a'r ardaloedd mwyaf anghenus i sicrhau bod ffyniant yn cael ei ledaenu i bob rhan o Gymru.

Nod y rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio yw hwyluso a chefnogi datblygiad cynigion buddsoddi adfywio sy'n arwyddocaol i'r rhanbarth mewn Ardaloedd Adfywio wedi'u diffinio sydd wedi'u dynodi ar sail data economaidd-gymdeithasol.

Mae dyraniad grant tybiannol o £22 miliwn dros y cyfnod tair blynedd 2018-2021 ar gyfer prosiectau Targedu Adfywio. Mae Cynllun Adfywio Gogledd Cymru yn rhoi blaenoriaeth strategol i'r prosiectau o'r rhanbarth.

**Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth ar gyfer 2018-2021**

Mae 12 ardal anheddiad wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau adfywio o fewn Cynllun Adfywio Gogledd Cymru. Detholwyd y rhain ar sail tystiolaeth bod lefelau uchel o amddifadedd lluosog crynodedig fel y'i mesurwyd yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014). Mae Tabl 3 isod yn rhoi rhagor o fanylion.

O'r rhain, mae'r pedair ardal fwyaf poblog wedi'u hadnabod fel Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth ar gyfer 2018-2021 i bwrpasau buddsoddiad drwy'r rhaglen TRI. Mae'r rhain wedi'u nodi ym Map 2 isod.

Cydnabyddir nad oes digon o adnoddau ar gael drwy'r rhaglen TRI i gwblhau'r holl weithgareddau adfywio sy'n ofynnol ar draws y rhanbarth. Wrth dargedu'r pedair Ardal Adfywio â Blaenoriaeth yn ystod 2018-2021, mae potensial i gyrraedd 62% o'r bobl yng Ngogledd Cymru sy'n byw yn yr ardaloedd 10% mwyaf difreintiedig ar draws y rhanbarth. Bydd y blaenoriaethu hyn yn uchafu budd yr adnoddau cyfyngedig ac yn darparu'r effaith fwyaf.

Mae trafodaeth ynghylch yr ardaloedd blaenoriaeth hefyd wedi cydnabod y byddai buddsoddiad ar y cam hwn yn fuddiol ar gyfer pob tref, nid yn unig oherwydd y lefelau crynodedig o amddifadedd a

dystiwyd yn yr ardaloedd, ond hefyd oherwydd y buddion a fyddai'n dod gyda'r buddsoddiad i bob un o'r ardaloedd ar eu siwrne adfywio.

Bydd y Cynllun Adfywio Rhanbarthol yn darparu sail hyblyg i flaenoriaethu ymyraethau adfywio ar draws y rhanbarth. Bydd Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth yn newid fel bo dyheadau adfywio yn cael eu gwireddu yn y pedair ardal flaenoriaeth gyntaf, a bydd y canolbwynt yna yn symud i'r trefi blaenoriaeth eraill. Fel y daw data wedi'i ddiweddaru ar gael, bydd hyn hefyd yn hysbysu blaenoriaethu i'r dyfodol.

**Tabl 3:** Y trefi mwyaf difreintiedig yng ngogledd Cymru yn ôl trefn poblogaeth, gyda phedwar wedi'u dewis fel Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth i bwrpasau'r rhaglen TRI

| | |
|---|---|
| 1. Y Rhyl | 7. Treffynnon |
| 2. Tref Wrecsam | 8. Shotton |
| 3. Bangor | 9. Llandudno |
| 4. Bae Colwyn a Llysfaen | 10. Dinbych |
| 5. Caernarfon | 11. Caergybi |
| 6. Newbridge/Cefn a Phlas Madoc (pentrefi Wrecsam) | 12. Abergele a Phensarn |

**Map 2:** Map o'r Ardaloedd ar draws gogledd Cymru gyda'r angen uchaf am adfywio a'r Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth ar gyfer 2018-2021




**Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio - Prosiectau Blaenoriaeth**

Mae'r pedair Ardal Adfywio â Blaenoriaeth oll wedi adnabod anghenion adfywio arwyddocaol o

gwmpas adfywio canol y trefi.

Mae Adnewyddu Tai yn flaenoriaeth buddsoddiad adfywio rhanbarthol gyda gofynion penodol iawn yn dod i'r amlwg yng ngogledd orllewin Cymru o gwmpas yr orsaf bŵer arfaethedig newydd.

Mae’r chwe awdurdod lleol wedi adnabod her adfywio fwy diweddar ond arwyddocaol sy'n bygwth sefydlogrwydd economaidd trefi llai ar draws y rhanbarth.  Mae busnesau allweddol yn cau mewn ardaloedd allweddol yn cael effaith sylweddol ar ffyniant y trefi hyn.

Tud. 77

| Cynigion Newydd a gymerwyd o'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol sy'n berthnasol i feini prawf y Rhaglen TRI | |
|---|---|
| **Cynigion Thematig** | |
| **Tai**<br>**1.1 Rhaglen Eiddo Gwag yng ngogledd orllewin Cymru** | **Blynyddoedd** |
| Mae'r angen am raglen benodol i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a achosir gan adeiladau gwag wedi'u hamlygu fel angen yng ngogledd orllewin Cymru. Mae tai a fflatiau gwag yn cynrychioli adnodd gwastraffus a chyfle i ddarparu cartref. Byddai cyfuniad o fenthyciadau ad-daladwy a gwaith rhagweithiol gan swyddogion awdurdod lleol yn galluogi i nifer o eiddo gwag gael eu hailfeddiannu. Byddai'r thema hon yn gymorth i fynd i'r afael â'r broblem bod eiddo preswyl y rhentir yn breifat mewn cyflwr gwael, a byddai'n cefnogi prynwyr am y tro cyntaf i gymryd tai gwag sydd angen eu gwella. | Tymor byr - Bl 1<br>Tymor canolig 1-3 |
| **Tai**<br>**1.2 Rhaglen Adnewyddu Tai - Gogledd Ddwyrain Cymru** | |
| Gwella ansawdd cyflenwad tai gyda datblygiad cynllun gwella Eiddo Sector Preifat. Yn draddodiadol, gelwir y cynllun hwn yn Adnewyddu Tai. | Tymor byr - Bl 1<br>Tymor canolig 1-3 |
| **Cynnig Thematig - Adeiladau Pwysig** | |
| Mae hyn yn cydnabod yr effaith ddinistriol y gall colli busnesau mawr mewn prif adeiladau mewn tref ei gael ar edrychiad a theimlad y ganolfan economaidd honno ac o ganlyniad, ffyniant yr ardal. Byddai'r cynnig hwn yn darparu cynllun Grant/Benthyciad i gynorthwyo trefi bychain i addasu adeiladau i amgylchiadau economaidd sy'n newid. | Tymor byr - Bl 1<br>Tymor canolig 1-3 |
| **Ardaloedd Adfywio â Blaenoriaeth - Adfywio Canol Trefi** | |
| **Y Rhyl** | |
| **Porth Canol Tref y Rhyl: Cynlluniau 1 a 2** - Adnewyddu lloriau uchaf prif adeiladau y tu mewn a'r tu allan mewn mannau mynediad amlwg i Stryd Fawr y Rhyl er mwyn darparu llety preswyl o ansawdd sy'n angenrheidiol, darparu eiddo masnachol modern ar y llawr gwaelod a sbarduno buddsoddiad preifat pellach gerllaw. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig bod un o'r unedau masnachol gwag hyn yn cael eu defnyddio i ddarparu llety fel canolfan 'entrepreneuraidd' a gefnogir gan amryw randdeiliad lleol a fyddai'n gwasanaethu fel llwyfan lansio ar gyfer busnesau entrepreneuraidd digidol bychain, gan anelu at gynyddu rhaglennu digidol a gweithgarwch entrepreneuraidd creadigol yn y Rhyl. Wrth ddarparu gwagle perthnasol a chefnogaeth amgylchynol, bydd y prosiect yn targedu | Tymor byr - Bl 1<br>Tymor canolig 1-3 |

| | |
|---|---|
| potensial newydd yn yr ardal a chynyddu dyheadau / cyrhaeddiad pobl ifanc, gan eu cysylltu nhw i gyfleoedd busnes yn lleol a thu hwnt. | |
| **Ardal Adfywio Gorllewin Rhyl - Cam Olaf -** Cwblhau cam olaf cyflwyniad Canllaw Cynllunio Atodol Adfywio Ardal Gorllewin Rhyl. Mae hwn yn bartneriaeth prosiect arloesol sy'n disodli tai o ansawdd gwael nad ydynt bellach yn cwrdd â'r gofynion tai cyfredol (nifer o Dai Amlfeddiannaeth) gyda thai fforddiadwy o ansawdd â deiliadaeth gymysg. Mae'r cam cyntaf wedi ail-fodelu ardal o dai ag ansawdd gwael i greu cymuned o ddeiliadaeth gymysg yn llwyddiannus. Mae'r prosiect hwn, mewn partneriaeth â Grŵp Tai Pennaf a Thrac Rasio Tir Prince, yn golygu ail-ddatblygu ac adnewyddu eiddo na aed i'r afael â hwy yn y camau cynharach a bydd yn cynyddu lefelau'r llety o ansawdd sy'n angenrheidiol i gefnogi byw yng nghanol y dref. | Tymor canolig 1-3 |
| **Byw mewn llety cyfoes a gwagleoedd manwerthu a rennir / arcêd fenter** - Caffael ac adnewyddu prif adeiladau ar Stryd Fawr y Rhyl er mwyn darparu llety byw preswyl modern ar y lloriau uchaf a gwagle manwerthu a rennir ar y llawr gwaelod.<br><br>Byddai'r elfen gwagle manwerthu a rennir yn galluogi i nifer o fanwerthwyr annibynnol bychain breswylio mewn eiddo ar y stryd fawr fel carreg sarn i gymryd eiddo unigol yn y dyfodol. Byddai'r prosiect yn cefnogi manwerthwyr lleol ar-lein / dechreuol i brofi cysyniad eu busnes ar ffurf 'brics a mortar' gyda llai o risg, gan gynnig gwasanaeth cefnogi busnes i ddeiliaid y gwagle. Rhagwelir y bydd oddeutu pum busnes yn rhannu'r gwagle manwerthu ar y llawr gwaelod gyda darpariaeth ar gyfer rheoli dyddiol a datblygiad tenantiaid newydd.<br><br>Byddai cefnogaeth fewnol hefyd ar gael ar gyfer manwerthwyr annibynnol cyfredol yng Nghanol Tref y Rhyl, a gallai gynnwys gwasanaeth dechrau busnes llawn, hyfforddiant sgiliau manwerthu, mentora a chefnogaeth. Gallai hyn ymestyn i hybu manwerthu fel cyfle hunangyflogaeth hyfyw, a mentora pobl sy'n awyddus i ddatblygu busnes manwerthu. | Tymor canolig 1-3<br>Tymor hir - 4-6 |
| **Wrecsam** | |
| **Parcio i Fysus** - Ardaloedd parcio bysus addas ychwanegol yn agos at ganol y dref ar gyfer gollwng teithwyr yng nghanol y dref. Byddai'n rhaid i'r safle fod yn ddiogel ar gyfer cyfleuster parcio drwy'r dydd. | 1-3 |
| **Unedau Datblygu Busnes** - Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn o arian i ddatblygu canolfan fusnes newydd yn Wrecsam. Mae'r Cynllun, a ailenwyd yn 'Faes y Dref' i gydnabod ei bresenoldeb yng Nghanol Tref Wrecsam, yn datblygu unedau hybu sy'n dod ag entrepreneuriaid ynghyd mewn amgylchedd a rennir i ennyn syniadau ac i ddatblygu ar y cyd. Yn ogystal â | 1-3 |

| | |
|---|---|
| darparu llety busnes o ansawdd da o fewn Canol Tref Wrecsam, gall y Cynllun hefyd gefnogi busnesau gyda chyngor, gweithdai a chefnogaeth i ddatblygu cyfleodd masnach a rhwydweithio rhyngwladol.<br>Mae Datblygu Gwagle Busnes yn brosiect a ddatblygwyd er mwyn cwrdd â galw cynyddol ar gyfer llety 'twf' i alluogi busnesau sydd wedi datblygu i barhau i ehangu o fewn Canol Tref Wrecsam. Mae hyn yn dibynnu ar argaeledd llety cynaliadwy o ansawdd da sy'n gweddu anghenion busnesau a chyfleoedd sy'n tyfu'n fwy na'r ganolfan. Mewn cydweithrediad ag Arian Adfywio Canol Tref, bydd defnyddio arian Targedu Buddsoddiad Adfywio yn galluogi caffael llety ychwanegol, a'i ddatblygu i gwrdd â'r galw hwn a ragwelir. Bydd hyn yn darparu etifeddiaeth fwy hirdymor a fydd yn fuddiol ar gyfer y llesiant economaidd nid ar gyfer canol y dref yn unig, ond ar gyfer y rhanbarth ehangach, gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a chyfredol i ddatblygu ac i ffynnu. | |
| **Marchnadoedd** - Ymgymryd â gwaith ar gynllun a ddatblygwyd o astudiaeth flaenorol a gynhaliwyd i adfywio dwy farchnad dan do i alluogi gwell defnydd o'r gwagle er mwyn gwella'r cynnig o fewn y marchnadoedd a denu masnachwyr perthnasol a chynaliadwy i adfer Wrecsam fel tref farchnad draddodiadol ac i wella'r marchnadoedd fel cyrchfan i ymwelwyr. | 1-3<br>4+ |
| **Dod ag Eiddo Gwag yn ôl i Ddefnydd yng Nghanol y Dref** - mae nifer o adeiladau amlwg o fewn calon Canol Tref Wrecsam sydd wedi bod yn wag ers rhai blynyddoedd. Byddai cyfuniad o fenthyciadau ad-daladwy a nawdd grant yn galluogi caffael ac adnewyddu nifer o eiddo i ddod â bywyd newydd i brif adeiladau amlwg Canol Tref Wrecsam. Mae defnyddiau cynaliadwy hirdymor posibl yn cynnwys datblygu Canolfan Dwristiaeth gan ymgorffori Canolfan Groeso, datblygu gofod datblygu busnes (fel uchod) a llety ar gyfer mentrau cymdeithasol lleol, cyfleusterau cymunedol a thai o ansawdd da uwchben unedau manwerthu fel uchod er mwyn cwrdd ag anghenion yr ardal ar sail cynaliadwyedd a'r galw, ac ati. Byddai'r adeiladau'n cael eu dethol ar sail nifer o ffactorau megis y lleoliad delfrydol o fewn canol y dref, math yr adeilad ac, o bosib, treftadaeth neu eiconig mewn rhyw ffordd. | 1-3 |
| **Stryd y Bont:** safle adfywio defnydd cymysg - dyma safle tir llwyd gyferbyn â chanol y dref sy'n safle datblygu allweddol a gynigiwyd ar gyfer adfywio defnydd cymysg. Bydd gan y datblygiad arfaethedig hwn 100 o fflatiau, 6 uned fasnachol a 3 bwyty a siopau cyfleuster. Mae angen arian ar gyfer adfer y safle i alluogi datblygiad, ac arian i gynnal datblygiad preswyl ar gyfer cynlluniau rhentu'r sector preifat neu fasnachol. | 1-3 |
| **Bangor** | |
| **Buddsoddiad mewn Eiddo ac Adnewyddu -** Cyfres o fesurau cefnogi (gan gynnwys grantiau a benthyciadau) i dargedu eiddo gwag, hyll neu sy'n cael eu tanddefnyddio o fewn canol y ddinas fasnachol. | 1-3 |
| **Canolfan Deulu Integredig Glancegin, Maesgeirchen, Bangor -** Darparu canolfan deulu wedi'i hintegreiddio'n llawn. Byddai'r ganolfan yn darparu cefnogaeth a gofal ychwanegol mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol uchel. Yn ogystal â darparu | |

| | |
|---|---|
| cefnogaeth i'r teuluoedd o ran gwella cyfleoedd bywyd y plant ar y stad, byddai'r ganolfan yn gallu darparu cyfleusterau i helpu'r rhai sydd y tu allan i'r farchnad gyflogaeth fod yn barod i weithio. | |
| **Canolfan iechyd, deulu a llesiant integredig** - Datblygu canolfan iechyd, deulu a llesiant integredig sy'n amlasiantaethol. Bydd y cynnig yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol, iechyd a therapi teulu a datblygiadau tai priodol yng nghanol safle integredig. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys amrediad o gynlluniau llesiant, gan greu cyfleuster 'Un Stop' fydd yn hyrwyddo iechyd cymdeithasol drwy weithgareddau presgripsiwn cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau iechyd mwy traddodiadol. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â'r Pum Ffordd o Weithio a amlygir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y prosiect hefyd yn darparu lleoliad cadarn a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn fregus, a bydd yn cyflwyno ffyrdd arloesol newydd o weithio drwy ragor o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a fydd yn ei dro yn gwella recriwtio a chynhaliaeth. | 1-3 |
| **Canol Dinas Bangor: Rheoli Rhaglen -** Y Rheolwr Rhaglen i reoli a chydlynu gweithgareddau o fewn Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor. Bydd y Rheolwr Prosiect hefyd yn cynnwys cefnogaeth datblygiad prosiect ar gyfer prosiectau Blwyddyn 2 a 3, a rheoli risgiau'r rhaglen. | |
| **Cryfhau Prif Fynediad a Chysylltiadau Trefol** - Cynigion i ddatblygu cysylltiadau strategol rhwng prif ardaloedd canol y ddinas (gan gynnwys Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg arfaethedig y Brifysgol) a gwella'r amgylchedd trefol. | 1-3 |
| **Digartrefedd Integredig a Chyfleuster Amlasiantaethol -** Cyfleuster arfaethedig i sefydlu darpariaeth dai ac amlwasanaeth ar y cyd ar gyfer cleientiaid digartref ym Mangor. Bydd y datblygiad yn canolbwyntio'n amlasiantaethol i ddarparu cefnogaeth gydlynol ar gyfer y grŵp cleientiaid anodd ei gyrraedd hwn, a bydd yn cynnwys darpariaeth dai ar gyfer y digartref drwy gymdeithas dai lleol. Bydd y ganolfan yn ymgysylltu â'i gleientiaid i ddarparu cyfleusterau i wella'u llesiant corfforol a meddyliol ac i'w hymgysylltu mewn datblygu sgiliau a gweithgareddau ymgysylltu. Rhagwelir y bydd y ganolfan yn cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i'w hintegreiddio i'r gymuned. | 1-3 |
| **Bae Colwyn a Llysfaen** | |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Buddsoddiadau Eiddo Masnachol -** Nod y prosiect hwn yw gwella edrychiad, bywiogrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol Bae Colwyn ar gyfer preswylwyr, ymwelwyr a busnesau. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnig cymorth grant/benthyciad i berchnogion eiddo ar gyfer prosiectau sy'n gwella ansawdd a chynaliadwyedd eiddo masnachol yn yr ardal canol tref. Bydd hyn yn:<br>1. gwella amgylchedd adeiledig ffisegol canol y dref<br>2. mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â chyflwr gwael, ymyraethau amhriodol a thanddefnyddio adeiladau amlwg neu hanesyddol<br>3. darparu gwagleoedd masnachol o ansawdd uchel mewn adeiladau a ellid cefnogi cyfleoedd busnesau a chyflogaeth<br>4. gwella llety uwchben eiddo i annog preswyliaeth lawn y lloriau uchel a chynyddu tenantiaid hirdymor<br>5. cynnig taliad anogaeth i berchnogion wneud gwaith atgyweirio priodol o ansawdd uchel a gwella cyflwr cyffredinol eu heiddo<br>6. cefnogi'r diwydiant adeiladau a chwmnïau, masnachwyr a myfyrwyr lleol | 1-3 |
| **Cynllun Buddsoddi mewn Safleoedd ac Eiddo Allweddol -** Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen buddsoddi integredig i wella edrychiad, bywiogrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol canol tref Bae Colwyn er lles y preswylwyr, ymwelwyr a busnesau. Y nod yw targedu eiddo preifat yng nghanol y dref, sydd ar hyn o bryd yn wag ac mewn cyflwr adfeiliol, a sicrhau eu bod yn dod yn ôl i ddefnydd cynaliadwy er budd llesiant economaidd y dref.<br>Gwneir hyn drwy weithio â pherchnogion eiddo i ddatblygu cynlluniau busnes cynaliadwy ar gyfer eiddo a chefnogi eu gwelliant/adnewyddiad a thrawsnewidiad drwy gyfuniad o gymorth grant a benthyciad. Bydd hyn yn dod â gwelliannau i nifer llai o eiddo a fyddai fel arfer yn disgyn y tu allan i'r Cynllun Buddsoddi Eiddo. | 2-5 |
| **Gwagleoedd Integredig a Bywiog**<br>• Creu busnesau, cymuned ac ardaloedd preswyl cynaliadwy<br>• Gwell rheolaeth traffig<br>• Gwagleoedd gwell a bywiog a chysylltiadau o fewn canol y dref ac i ardaloedd sy'n ei hamgylchynu. | 1-3 |

| | |
|---|---|
| • Parth Sgwâr yr Orsaf - i gynnwys yr orsaf, ei flaengwrt, cysylltiadau i Ardal y Glannau; safle Neuadd y Farchnad, Imperial Buildings a 'grisiau'r orsaf'.<br>• Parth Ffordd Douglas | |
| **Ardal y Glannau -** Mae cwblhau dau gam olaf rhaglen adfywio Ardal y Glannau Colwyn yn allweddol i amddiffyn yr arfordir ac i raglen adfywio'r dref. Mae cwblhau camau 1 a 2, datblygu Porth Eirias a datrys problem Pier Victoria wedi dod â newid a budd sylweddol i'r dref o ran mwynderau ymwelwyr a phreswylwyr. Mae hefyd wedi sbarduno buddsoddiad sector preifat sylweddol, a mentrau busnes newydd. | 2-4 |
| **Cynnig / Prosiect - Tymor hir** | |
| Cynigion Thematig - Heb benderfynu ar hyn o bryd | |
| Adfywio Cae Ras Wrecsam fel canolfan ragoriaeth ranbarthol drwy greu stadiwm o'r radd flaenaf sydd â'r gallu i lwyfannu digwyddiadau chwaraeon, cerddoriaeth a digwyddiadau awyr agored. Gwneud y mwyaf hefyd o'r cyfleoedd datblygu ar y llain o dir sydd gerllaw ar gyfer datblygiad masnachol neu ddefnydd cymysg. | 4-7 |

## ALLBYNNAU'R PROSIECT

***-** Dyma ragamcaniad dangosol o'r allbynnau ar sail y cynigion newydd. Yn ystod y cam hwn o adnabod y prosiect, mae ond yn bosibl cynnwys rhagamcanion bras iawn a fydd yn destun newid os yw'n mynd ymlaen ar gyfer datblygiad pellach. Felly, mae pob Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i addasu'r data yn y tabl hwn.

**Allbynnau - Ardaloedd blaenoriaeth rhanbarthol - Canol trefi**

Tud. 84

| | | Rhyl Town Centre | | | | Wrexham Town Centre | | | | | Bangor City Centre | | | | | | Colwyn Bay and Llysfaen | | | | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhyl TC Gateway 1 | Rhyl TC Gateway 2 | West Rhyl Regeneration Area - Final Phase | Rhyl TC Contemporary Accommodation | Markets - Phase 1 | Coach Parking | Town Centre Empty properties | Business Grow on Space | Bridge Street | Property Renovation and Investment | Glancegin Integrated Family Centre, | Integrated Health, Family and Well-being Centre | Programme Management | Strengthening Key Urban Access and Linkages | Integrated Homelessness and Multiagency Facility | Commercial Property Renovation and Investment | Key Property Investments | Integrating and Animating Spaces | Waterfront | |
| TRI 1 | Gross jobs created | | 20 | | | | | 10 | | tbc | 21 | 12 | 6 | | tbc | tbc | 14 | 1 | tbc | tbc | 100 |
| TRI 2 | Number of Jobs accommodated (enabled through regeneration investment) | 8 | | | 7 | 20 | | 20 | 15 | tbc | 48 | 27 | 120 | | 30 | tbc | 17 | 40 | tbc | tbc | 372 |
| TRI 3 | Number of jobs created in the construction sector as a result of Welsh Government regeneration investment. | 2 | | | 2 | 20 | | 8 | 2 | tbc | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | 0 | 0 | tbc | tbc | 156 |
| TRI 4 | Total number of traineeships on the project. | 2 | | 10 | 2 | tbc | | 2 | tbc | tbc | tbc | tbc | 12 | | tbc | tbc | 0 | 0 | tbc | tbc | 70 |
| TRI 5 | Number of traineeship leavers progressing to further learning (at a higher level) or employment (incl. employment with the contractor) | | | | | | | | | | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | 0 | 0 | tbc | tbc | 14 |
| TRI 6 | Investment induced (£M) | | | 3.7M | | 0.3m | | | 0.3m | 0.15m | 1.5m | 1.5m | 5m | tbc | 20m | tbc | 9.7M | 6M | 1M | 32M | 2 |
| TRI 7 | Enterprises accommodated | | 27 | | 5 | 4 | | 4 | | tbc | 15 | 4 | 2 | | 4 | 2-4 | 9 | 5 | 0 | 3 | 92 |
| TRI 8 | Hectares of Land developed | | | | | | | | | tbc | 0 | 0.8 | 0.2 | | 0.8 | tbc | 0 | 0 | 1 | 4.6 | 11.4 |
| TRI 9 | Non-residential Premises created or refurbished (sqm) | 90 | | | 140 | tbc | | 641 | | tbc | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | tbc | tbc | 0 | 150 | 2521 |
| TRI 10 | Non-residential Premises created or refurbished (number) | 1 | 1 | | 72 | tbc | | 1 | | tbc | 48 | 325 | tbc | | 3 | tbc | 14 | 5 | 0 | 4 | 484 |
| TRI 11 | Number of additional market housing units (Built or ready for Occupation - as a direct result of regeneration support) | 3 | 5 | | 4 | | | | | tbc | tbc | tbc | tbc | | 0 | 0 | 7 | 18 | 0 | 0 | 55 |
| TRI 12 | Number of Additional Social housing units delivered (Built or ready for Occupation - as a direct result of regeneration support) | | | 26 | | | | | | tbc | tbc | tbc | tbc | | 0 | tbc | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 |
| TRI 13 | Number of Additional Intermediate housing units delivered (Built or ready for Occupation - as a direct result of regeneration support) | | | | | | | | | tbc | tbc | tbc | tbc | | 0 | tbc | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| TRI 14 | Number of households helped towards securing improvement in the energy performance of their homes | 3 | | | 4 | | | | | | tbc | tbc | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 102 |
| TRI 15 | Number of empty homes brought back into use | 3 | | 4 | 4 | | | | | | tbc | tbc | 0 | | 0 | 0 | tbc | 0 | 10 indirect | 0 | 34 |
| TRI 16 | Number of non-residential units brought back into use | | 1 | | 1 | 2 | | 1 | 1 | | 8 | tbc | 0 | | 0 | tbc | 14 | 5 | 20 indirect | 0 | 41 |
| TRI 17 | Estimated Reduction in CO2 Equivalent Emissions | | | | | | | | | | tbc | tbc | 0 | | 0 | 0 | tbc | tbc | | 0 | 2500 |
| TRI 18 | Number completing employment related courses or gaining employment related qualification | | 25 | | 10 | | | | | | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | 0 | 0 | tbc | tbc | 65 |
| TRI 19 | Number of SMEs based in Wales successful in securing contracts/sub contracts | 5 | | | 5 | 2 | tbc | 7 | tbc | tbc | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | 14 | 4 | 3 | 4 | 70 |
| TRI 20 | Value of contracts/sub contracts awarded to SMEs based in Wales (£M) | 0.35 | tbc | tbc | 0.7 | 0.4m | tbc | 0.5m | tbc | tbc | tbc | tbc | tbc | | tbc | tbc | 1.552m | 4.8m | 1.74m | 4m | 4.55 |
| | Residential Properties Renovated | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 85 |

## CYNLLUN DARPARU - ARWYDD CYNNAR O OBLYGIADAU ARIANNOL CYNIGION NEWYDD

**Mae dyraniad tybiannol o £22 miliwn ar gyfer prosiectau cymwys yng Ngogledd Cymru drwy'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, gyda dyraniad tybiannol o £3m ar gyfer 2018/19.**

**Dengys y tabl a ganlyn arwydd cynnar o gostau dangosol prosiectau newydd a all fod yn gymwys ar gyfer nawdd Rhaglen TRI ac nid yw'n benderfyniad ar ddyraniad ariannol.**

| **Emerging Proposals** | **Indicative costs Yr 1 (£M)*** | **Indicative costs Yr 2/3 (£M)**** | **Future Years 4+** | **Total** |
|---|---|---|---|---|
| **Thematic Proposals** | | | | |
| Housing - 1.1 Empty Properties Housing programme | 0.7 | *2.6* | | 3.3 |
| Housing - 1.2 Housing Renewal | 1.5 | *5.78* | | 7.28 |
| Important Buildings | tbc | *tbc* | | 0 |
| **New themes** | 0 | | | 0 |
| **Thematic Proposals - Indicative Project Costs** | **2.2** | *8.38* | *tbc* | 10.58 |
| **Regional Priority Areas - Town Centres - Emerging Proposals & Indicative Project Costs** | | | | 0 |
| **Rhyl** | 2.1 | *3.1* | | 5.2 |
| Rhyl Town Centre Gateway scheme 1 - Upper floor residential /lower commercial refurb | | | | 0 |
| Rhyl Town Centre Gateway scheme 2 - residential/digital hub | | | | 0 |
| West Rhyl Regeneration Area - Final Phase | | | | 0 |
| Contemporary living accommodation and shared retail space / enterprise arcade | | | | 0 |
| **Wrexham Town** | 1.7 | *2.8* | | 4.5 |
| Markets - Phase 1 | | | | 0 |
| Coach Parking | | | | 0 |
| Town Centre Empty Properties back into use | | | | 0 |
| Business Grow on Space | | | | 0 |
| Bridge Street | | | | 0 |
| **Bangor** | 0.025 | *3.6* | | 3.625 |
| Bangor City Centre Property Renovation and Investment | | | | 0 |
| Glancegin Integrated Family Centre, Maesgeirchen, Bangor | | | | 0 |
| Bangor City Centre : Integrated Health, Family and Well-being Centre | | | | 0 |
| Bangor City Centre : Programme Management | | | | 0 |
| Bangor City Centre : Strengthening Key Urban Access and Linakges | | | | 0 |
| Integrated Homelessness and Multiagency Facility | | | | 0 |
| **Colwyn Bay and Llysfaen** | 0.275 | *5.3* | | 5.575 |
| Commercial Property Investment Scheme | | | | 0 |
| Integrating and Animating Spaces | | | | 0 |
| Key Property Investments | | | | 0 |
| Colwyn Waterfront | | | | 0 |
| **New Priority Areas** | 0 | *tbc* | tbc | 0 |
| **Priority Areas - Town Centres - Indicative Costs** | **4.1** | *14.8* | *tbc* | 18.9 |
| **Total Indicative Costs** | **6.3** | ***23.18*** | | ***29.48*** |

* Potential year 1 costs for proposals - subject to meeting WG eligibility, timescales and within notional allocation

**Proposals for Years 2 & 3 under development - project costs are indicative only. As above any funding awarded will be subject to meeting WG eligiblity, timescales and be within notional allocation for the region.

## ATODIAD 2: DADANSODDI DATA - METHODOLEG A RHESYMEG

Mae'r hyn a ganlyn yn gosod y broses ar gyfer dethol yr ardaloedd blaenoriaeth; cydgasgliad yr ardaloedd hyn i ddaearyddiaeth tref economaidd; ac amlinelliad o'r model gwerthuso a'r prif ddangosyddion.

### DEWIS Y SYLFEINI

Mae pob un o'r ardaloedd blaenoriaeth wedi'i wneud o sylfeini LSOA. Daearyddiaeth cymdogaeth fechan a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yw LSOA. Bernir mai'r sylfeini a ddewisir yw'r rhai mwyaf difreintiedig gan eu bod wedi'u cynnwys yn y 10% mwyaf difreintiedig yn WIMD 2014.

Mae'r dull hwn yn cynhyrchu'r ardaloedd sylfeini a ganlyn:

| Enw LSOA (Cym) | % y boblogaeth yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig | Safle Cyffredinol (r) Enw Ardal y Dref WIMD 2014 | | Dengradd Gyffredinol WIMD 2014 | Haen |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Rhyl 2 | 30.3% | Y Rhyl | 2 | 1 | Haen1 62% |
| Gorllewin Rhyl 1 | | | 11 | 1 | |
| Gorllewin Rhyl 3 | | | 19 | 1 | |
| De Orllewin Rhyl 2 | | | 20 | 1 | |
| Dwyrain Rhyl 3 | | | 99 | 1 | |
| De Orllewin Rhyl 1 | | | 100 | 1 | |
| De Ddwyrain Rhyl 4 | | | 182 | 1 | |
| Queensway 1 | 17.4% | Wrecsam | 3 | 1 | |
| Wynnstay | | | 52 | 1 | |
| Queensway 2 | | | 108 | 1 | |
| Cartrefle 2 | | | 128 | 1 | |
| Marchog 2 | 7.2% | Bangor | 105 | 1 | |
| Marchog 1 | | | 157 | 1 | |
| Glyn (Conwy) 2 | 6.9% | Bae Colwyn | 110 | 1 | |
| Llysfaen 1 | | | 172 | 1 | |
| Peblig (Caernarfon) | 6.7% | Caernarfon | 103 | 1 | Haen 2 38% |
| Plas Madoc | 6.0% | Pentrefi Wrecsam | 54 | 1 | |
| Canol Treffynnon | 5.0% | Treffynnon | 155 | 1 | |
| Dinbych Uchaf/Henllan 1 | 4.1% | Dinbych | 163 | 1 | |
| Morawelon | 4.1% | Caergybi | 168 | 1 | |
| Tudno 2 | 4.3% | Llandudno | 113 | 1 | |
| Shotton Higher 2 | 4.3% | Shotton | 82 | 1 | |
| Abergele Pensarn 2 | 3.2% | Abergele a Phensarn | 57 | 1 | |

## ARDALOEDD ECONOMAIDD Y DREF

Wrth ystyried prosiectau, cymerwyd y farn bod y clystyrau o amddifadedd a adnabuwyd oll wedi'u lleoli o fewn uned economaidd fwy; y Dref. Wrth ganolbwyntio ar brosiectau sy'n adfywio'r Trefi a adnabuwyd, teimlwyd y byddai hyn o fudd i'r cymunedau difreintiedig o fewn y Trefi hyn. Mae hyn yn golygu:


1. Ni fydd angen i brosiectau eistedd o fewn (ardal breswyl) lle mae'r boblogaeth ddifreintiedig yn byw ond yn hytrach, mewn lleoliad economaidd priodol o fewn ffin y Trefi fel yr ydym wedi'u diffinio.

2. Yn ail, wrth fonitro a gwerthuso, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar fonitro'r effaith mae prosiectau'n ei gael ar dwf busnesau a chyflogaeth ac incwm aelwydydd yn ardal y Dref yn ogystal â chynnydd penodol ar yr incwm, cyflogaeth a'r mesurau amddifadedd yn gyffredinol yn yr ardaloedd difreintiedig eu hunain.

## ATODIAD 3 - PROFFILIAU ARDAL

### Y RHYL

Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig y Rhyl





| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>3722<br>2540 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Sir Ddinbych 004<br>Sir Ddinbych 006<br>Sir Ddinbych 017 | 450<br>195<br>165 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Sir Ddinbych 004<br>Sir Ddinbych 006<br>Sir Ddinbych 017 | 5,000<br>2,500<br>900 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Gorllewin y Rhyl 2<br>Gorllewin y Rhyl 3<br>Gorllewin y Rhyl 1<br>De Orllewin y<br>Rhyl 2<br>Dwyrain y Rhyl 3<br>De Orllewin y<br>Rhyl 1<br>De Ddwyrain y<br>Rhyl 4 | 67<br>50<br>48<br>46<br>39<br>38<br>35 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Gorllewin y Rhyl 2<br>Gorllewin y Rhyl 1<br>Dwyrain y Rhyl 3<br>Gorllewin y Rhyl 3 | 45<br>33<br>26<br>25 |

| | | |
|---|---|---|
| | De Orllewin y Rhyl 2 | 23 |
| | De Orllewin y Rhyl 1 | 22 |
| | De Ddwyrain y Rhyl 4 | 18 |

## TREF WRECSAM

Ardal Fwyaf Difreintiedig Wrecsam





| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>7021<br>1480 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Wrecsam 007<br>Wrecsam 008<br>Wrecsam 009<br>Wrecsam 010<br>Wrecsam 011<br>Wrecsam 012 | 100<br>495<br>120<br>65<br>465<br>285 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Wrecsam 007<br>Wrecsam 008<br>Wrecsam 009<br>Wrecsam 010<br>Wrecsam 011<br>Wrecsam 012 | 500<br>8,000<br>1,500<br>700<br>11,000<br>3,500 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Queensway 1<br>Wynnstay<br>Cartrefle 2 | 50<br>38<br>37 |

| | | |
|---|---|---|
| | Queensway 2 | 36 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Queensway 1<br>Wynnstay<br>Queensway 2<br>Cartrefle 2 | 24<br>21<br>18<br>17 |

## BANGOR


Ardal Fwyaf Difreintiedig Bangor




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>1991<br>566 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Gwynedd 010<br>Gwynedd 011 | 505<br>430 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Gwynedd 0010<br>Gwynedd 0011 | 3,500<br>3,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Marchog 2<br>Marchog 1 | 36<br>33 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Marchog 2<br>Marchog 1 | 19<br>13 |

## BAE COLWYN A LLYSFAEN

Ardal Fwyaf Difreintiedig Bae Colwyn





| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>3269<br>501 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Conwy 007<br>Conwy 008<br>Conwy 009 | 400<br>250<br>200 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Conwy 007<br>Conwy 008<br>Conwy 009 | 5,000<br>2,250<br>1,250 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Glyn (Conwy) 2<br>Llysfaen 1 | 37<br>37 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Glyn (Conwy) 2<br>Llysfaen 1 | 37<br>19 |

## PROFFILIAU'R ARDAL A GWYBODAETH WAELODLIN - PROFFILIAU HAEN 2

### CAERNARFON


Ardal Fwyaf Difreintiedig Caernarfon




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | 2282<br>497 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Gwynedd 006<br>Gwynedd 007 | 220<br>295 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Gwynedd 006<br>Gwynedd 007 | 4,500<br>4,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Peblig (Caernarfon) | 36 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Peblig (Caernarfon) | 19 |

## PENTREFI WRECSAM


Ardal Fwyaf Difreintiedig Pentrefi Wrecsam




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%** | | |
| • **Tref** | | 950 |
| • **Ardaloedd Difreintiedig** | | 561 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Wrecsam 017 | 150 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Wrecsam 017 | 1,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Plas Madoc | 39 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Plas Madoc | 20 |

## TREFFYNNON


Ardal Fwyaf Difreintiedig Treffynnon




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | 2578<br>462 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Sir y Fflint 002<br>Sir y Fflint 003 | 205<br>325 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Sir y Fflint 002<br>Sir y Fflint 003 | 2,000<br>3,500 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Canol Treffynnon | 33 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Canol Treffynnon | 22 |

## DINBYCH


Ardal Fwyaf Difreintiedig Dinbych




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>1285<br>369 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Sir Ddinbych 011<br>Sir Ddinbych 012 | 185<br>350 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Sir Ddinbych 011<br>Sir Ddinbych 012 | 1,750<br>2,250 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Dinbych Uchaf a Henllan 1 | 33 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Dinbych Uchaf a Henllan 1 | 19 |

## CAERGYBI


Ardal Fwyaf Difreintiedig Caergybi




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | 2175<br>363 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Ynys Môn 003 | 295 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Ynys Môn 003 | 3,500 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Morawelon | 32 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Morawelon | 19 |

## LLANDUDNO


Ardal Fwyaf Difreintiedig Llandudno




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | 2745<br>377 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Conwy 001<br>Conwy 002 | 555<br>140 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Conwy 001<br>Conwy 002 | 9,000<br>2,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Tudno 2 | 39 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Tudno 2 | 23 |

## SHOTTON


Ardal Fwyaf Difreintiedig Shotton




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | <br>2636<br>329 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Sir y Fflint 009<br>Sir y Fflint 011 | 445<br>275 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Sir y Fflint 009<br>Sir y Fflint 011 | 13,000<br>6,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Shotton Higher 2 | 33 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Shotton Higher 2 | 18 |

## ABERGELE A PHENSARN

Ardal Fwyaf Difreintiedig Abergele a Phensarn




| Gwaelodlin | | |
|---|---|---|
| **Nifer yr Aelwydydd o dan y Ffin Tlodi 60%**<br>• **Tref**<br>• **Ardaloedd Difreintiedig** | | 1951<br>223 |
| **Nifer y Busnesau (Tref)** | Conwy 010 | 260 |
| **Niferoedd Cyflogaeth (Tref)** | Conwy 010 | 3,000 |
| **Dangosydd Incwm WIMD - amddifadedd incwm (canran y boblogaeth)** | Abergele a Phensarn 2 | 37 |
| **Dangosydd Cyflogaeth WIMD - buddion yn berthnasol i gyflogaeth (canran y boblogaeth o oed gweithio)** | Abergele a Phensarn 2 | 32 |

# Eitem 7

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **22 Mai 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion 2017/18:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion yn ystod 2017/18.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2017/18, roeddem wedi cynllunio £7,414,750 o arbedion. Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, a chyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan. Adroddir yma ar sefyllfa gwireddu'r arbedion hyd at 31 Mawrth 2018.

## 2. CYNLLUNIAU ADRANNOL blynyddoedd blaenorol

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion a gariwyd ymlaen o 2016/17. Dim ond dau gynllun sydd bellach yn sefyll, a disgwylir i'r ddau gael eu gwireddu yn ystod 2018/19. Yn nhermau ariannol (£), mae dros 99% o arbedion 2015/16 a 2016/17 wedi'u gwireddu.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2017/18

**3.1** Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2017/18. O'r 122 o gynlluniau, mae 108 wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol yn amserol, ond bu llithriad mewn gwireddu'r gweddill. Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o'r arbedion wedi'u gwireddu.

**3.2** Yn f'adroddiad ym mis Medi 2017, bu i mi gyfeirio at yr her sylweddol o wireddu nifer o gynlluniau yn yr **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**. Ar 13 Chwefror 2018, cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r Cabinet a phenderfynwyd cyfuno amryw o gynlluniau unigol i ffrydiau gwaith sydd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau. Rhagwelir y bydd yn galluogi i'r Adran, yn ystod 2018/19, wneud cynnydd sylweddol tuag at wireddu'r arbedion sydd wedi llithro.

**3.3** Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Plant adroddiad i'r Cabinet ar 9 Ionawr, yn cyfeirio at yr her o wireddu'r cynlluniau arbedion eleni ac yn benodol, gweddill arbedion y cynllun "Dechrau i'r Diwedd" fel ag yr oedd wedi ei ragweld. Cytunwyd bod angen i'r **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** adolygu'r deilliannau ariannol hyd yma o'u cymharu â'r damcaniaethau gwreiddiol, ynghyd â'r rhagolygon i'r dyfodol. Mae cyllido gofal plant yn faes sy'n creu pryder i sawl awdurdod lleol, felly 'rwy'n annog yr Aelod Cabinet Plant i gyflwyno canlyniad yr adolygiad mor fuan ag y bo modd, er mwyn ystyried os bydd angen i'r Adran Plant gyflwyno cynllun amgen i wireddu'r arbedion ariannol perthnasol.

**3.4** Mae un cynllun gan yr **Adran Priffyrdd** yn parhau'n bryder, a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 19 Ebrill 2018 er mwyn egluro'r sefyllfa, ac ystyried dull amgen o wireddu'r arbediad yn llawn. Disgwylir i'r Aelod Cabinet gyflwyno adroddiad yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor.

**3.5** Yn gyffredinol, rwy'n fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2017/18.

## 4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19

Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r sefyllfa o ran y cynlluniau sydd ar y gweill i'w gwireddu yn 2018/19. Er yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, mae'r rhagolygon o wireddu'r cynlluniau hyn yn gyffredinol addawol, gyda dim ond un cynllun yn destun pryder.

## 5. CASGLIAD

**5.1** Er bod rhai adrannau wedi gwireddu'r oll o'u cynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu rhai cynlluniau o fewn yr amserlen wreiddiol wedi bod yn heriol, yn arbennig rhai o'r cynlluniau mwyaf gan yr Adran Plant a'r Adran Oedolion. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau, ac mae'r Cabinet mewn gwahanol gyfarfodydd wedi cymeradwyo addasu ac ail-broffilio cynlluniau mewn rhai meysydd, sydd wedi ymestyn yr amserlen gwireddu.

**5.2** Carwn ddiolch i holl Aelodau'r Cabinet am barhau i fonitro'r cynlluniau arbedion ac rwyf yn ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo ym mhob adran er mwyn sicrhau'r nod. Gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau arbedion yn 2017/18, a'r cynnydd calonogol a ragwelir tuag at wireddu rhaglen arbedion 2018/19.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2016/17 fesul adran
Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2017/18 fesul adran
Atodiad 3 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul adran

**ATODIAD 1**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2016/17 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai o 2015/16 sydd eto i'w gwireddu**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br><br>**£ (nifer)** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu**<br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 94,090 (3) | 55,410 (2) | 38,680 (1) | - | Gwaith ar wireddu'r cynllun "Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau" wedi ei ehangu, ac yn parhau. Er bod y system yn weithredol o ddechrau Ebrill 2017, rhagwelir gwireddu'r arbedion yn 2018/19. |
| Ysgolion | 2,095,000 (1) | 2,095,000 (1) | - | - | Arbedion 2016/17 y cynllun wedi eu gwireddu. |
| Amgylchedd | 656,480 (21) | 656,480 (21) | | | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 575,040 (16) | 575,040 (16) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 374,600 (17) | 374,600 (17) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 801,280 (17) | 801,280 (17) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,559,220 (30) | 1,559,220 (30) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |

| | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai o 2015/16 sydd eto i'w gwireddu<br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 753,000 (11) | 753,000 (11) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | (2016/17) 1,934,100 (20)<br>(2015/16) 40,000 (1) | 1,934,100 (20) | -<br>40,000 (1) | - | Holl gynlluniau 2016/17 wedi'u gwireddu, ond gwelir llithriad ar y cynllun 2015/16 "Rhesymoli Banciau Ailgylchu". Fodd bynnag, mae'r Adran yn ffyddiog o'i wireddu yn ystod 2018/19. |
| Ymgynghoriaeth | 146,000 (4) | 146,000 (4) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2016/17. |
| Trawsadrannol | 212,600 (3) | 212,600 (3) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **(2016/17) 9,201,410 (144)**<br>**(2015/16) 40,000 (1)** | **9,162,730 (143)** | **38,680 (1)**<br>**40,000 (1)** | **-** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 99.5% o gynlluniau arbedion 2015/16 a 99.6% o gynlluniau arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu. Rhagwelir gwireddu'r ddau gynllun sy'n sefyll yn ystod 2018/19.** |

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2017/18 FESUL ADRAN** **ATODIAD 2**



| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 417,120 (5) | 358,820 (4) | - | 58,300 (1) | - | Bu llithriad cyn gweithredu'r cynllun "Lleihau amser / a neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd", ond rhagwelir gwireddu yn llawn yn fuan. |
| Ysgolion | 990,000 (1) | 691,010 (1) | - | 298,990 (1) | - | Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016, mae rhan ysgolion uwchradd o arbedion y cynllun hwn, sef £298,990, yn cael ei bontio gan y Cyngor am ddwy flynedd. |
| Amgylchedd | 962,480 (25) | 946,150 (24) | - | 16,330 (1) | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu, ond mae angen gwneud ychydig o waith er gwireddu'r arbedion yn llawn o'r cynllun "Cau adeiladau Frondeg Pwllheli ac Adeilad Ffordd y Traeth Felinheli". |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 408,470 (11) | 408,470 (11) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 115,210 (9) | 115,210 (9) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 848,210 (20) | 848,210 (20) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2017/18 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2017/18**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol**<br><br>**£ (nifer)** | **Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu**<br><br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,412,000 (29) | 728,760 (22) | 76,740 (2) | 606,500 (9*) | - | Ar 13 Mawrth 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo cyfuno rhai cynlluniau (oedd eisoes wedi eu cymeradwyo) i ffrydiau gwaith fydd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau. Mae her gwireddu sylweddol yn parhau, ond mae adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18 yn awgrymu bod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus yn rheoli'r gyllideb. |
| Plant a Theuluoedd | 339,500 (4) | 222,500 (3) | - | 117,000 (1) | - | Mae her sylweddol wedi dod i'r amlwg o ran gwireddu'r disgwyliadau ariannol o'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd". Deallaf bydd adroddiad llawn ar y sefyllfa yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan, er cymeradwyo unrhyw newidiadau i broffil a/neu swm yr arbedion oedd wedi'u rhagweld. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2017/18 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,831,450 (13) | 1,587,450 (9*) | - | 194,000 (4*) | 50,000 (1) | Yn gyffredinol mae'r Adran, wedi gwneud cynnydd derbyniol iawn. Mae adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 19 Ebrill parthed y cynllun "Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol" (£50,000), ac o bosib bydd angen darganfod modd amgen o wireddu'r arbediad hwn.<br>Mae gwaith i'w wneud eto er mwyn llawn gyflawni'r arbedion o bedwar cynllun arall, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn fuan i'r Cabinet parthed y mwyaf ohonynt - "Canolfannau Ailgylchu" (£96,000). |
| Ymgynghoriaeth | 105,000 (4) | 105,000 (4) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 7,000 (1) | 7,000 (1) | - | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| Trawsadrannol | - 21,690 | - 21,690 | | | | Gor-gyflawni arbedion |
| **Cyfanswm** | **7,414,750 (122)** | **5,996,890 (108*)** | **76,740 (2*)** | **1,291,120 (17*)** | **50,000 (1)** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o gynlluniau'r flwyddyn eisoes wedi'u gwireddu, ac mae 1% pellach ar drac.** |

(*Mae cyfran o'r cynlluniau mewn mwy nac un porth)

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN** **ATODIAD 3**

Tud. 108

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2018/19<br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 521,450 (3) | - | 521,450 (3) | - | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Ysgolion | - | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Amgylchedd | 154,970 (6) | 15,000 (1) | 139,970 (5) | - | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 47,340 (2) | 47,340 (2) | - | - | - | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Cyllid | 40,000 (1) | 40,000 (1) | - | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| Economi a Chymuned | 308,830 (3) | - | 52,330 (2) | 256,500 (1) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. Mae £256,500 i ddod o'r cynllun "Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol", lle mae'r Adran yn hyderus o allu cyflawni'n amserol. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 645,000 (6) | - | 645,000 (6) | - | - | Ar 13 Mawrth 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo cyfuno rhai cynlluniau ac ail-broffilio eraill. O ganlyniad, mae'r Adran yn hyderus o allu cyflawni'n amserol. |

Tud. 109

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2018/19<br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 314,480 (2) | - | 64,200 (1) | 250,280 (1) | - | Mae her sylweddol wedi dod i'r amlwg o ran gwireddu'r disgwyliadau ariannol o'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd". Deallaf bydd adroddiad llawn ar y sefyllfa yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan, er cymeradwyo unrhyw newidiadau i broffil a/neu swm yr arbedion oedd wedi'u rhagweld. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 86,700 (1) | - | 86,700 (1) | - | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Ymgynghoriaeth | - | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 13,800 (1) | - | 13,800 (1) | - | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Trawsadrannol | 322,170 | - | - | - | 322,170 | Mae cynlluniau ychwanegol wedi'u datblygu ond eto i'w cymeradwyo. |
| **CYFANSWM** | **2,454,740 (25)** | **102,340 (4)** | **1,523,450 (19)** | **506,780 (2)** | **322,170** | **Er yn gynnar iawn yn ystod 2018/19, yn nhermau ariannol (£), mae 4% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 75% ar drac.** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 MAI 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyfrifon Terfynol 2017/18 – Alldro Refeniw

**Swyddog cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

**Gofynnir i'r Cabinet:**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **(100)** |
| **Plant a Theuluoedd** | **100** |
| **Addysg** | **0** |
| **Economi a Chymuned** | **(35)** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **100** |
| **Amgylchedd** | **(100)** |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(82)** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **(66)** |
| **Cyllid** | **(66)** |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **(67)** |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2)** –

- Trosglwyddo £457k, cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol er mwyn cefnogi hyblygrwydd a hwyluso trawsffurfio yn y maes Oedolion i'r dyfodol.

- Cynaeafu (£37k) o'r tanwariant sef y swm uwchlaw (£100k) Oedolion, Iechyd a Llesiant, i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £676k i leddfu rhan helaeth o orwariant 2017/18, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2018/19.

- Trosglwyddo £207k ei ddileu gorwariant yr Adran Addysg, tra fod polisiau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu.

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £203k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2018/19.

- Trosglwyddo £378k o danwariant 2017/18 yr Adran Amgylchedd i gronfa benodol, yn ymwneud â bysus a chost llwybrau, i'w ddefnyddio yn 2018/19.

- Cynaeafu (£89k) o danwariant yr Adran Amgylchedd sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.

- Cynaeafu (£894k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol (ar Ostynigiad Treth Cyngor, bidiau a chyllidebau a ddychwelwyd gan adrannau ac ar benawdau eraill), a'i drosglwyddo i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.

- Trosglwyddo £66k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, sef y balans sydd angen, i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, sef:

- Cynaeafu (£2.915m).
- Neilltuo £2.749m ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Neilltuo £166k ar gyfer materion gwastraff.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Yn gyffredinol, er gwaethaf parhad y gofynion i gyflawni arbedion a thoriadau, **mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.** Wrth gwrs, mae hynny wedi'i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2017/18 er mwyn galluogi'r Adran Gyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn 30 Mehefin**, ac wedyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i graffu ar 19 Gorffennaf 2018.

**3. Adrannau'r Cyngor**

3.1 **Ar y cyfan, cadarnhaf y bu cyllidebau mwyafrif o'r adrannau dan reolaeth eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol mwyafrif yr adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2017/18. Ond nodaf y bu gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion** yn chwarter olaf o'r flwyddyn, yn dilyn derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ar gyfer cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros gyfnod y gaeaf.

3.3 Bu gorwariant ar wasanaethau gweithredol a lleoliadau gan yr Adran **Plant a Theuluoedd,** ar gludiant gan yr Adran **Addysg** ac yn y maes gwastraff a pheirianneg gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**.

3.4 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tri cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, dau gais i drosglwyddo arian i bwrpas penodol a dwy adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2017/18, ac felly gyda tanwariant i'w gynaeafu. Mae cais hefyd i ddefnyddio £66k o'r gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol sef y balans i gyllido yr adrannau sydd yn gorwario.

3.5 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2017/18 yn unig.

3.6 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2017/18, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2018/19, ac mae'r mwyafrif o'r materion hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2018/19 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

**4. Ysgolion**

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi cynyddu o £2.9m i £4.0m yn 2017/18, ac yn cynnwys grant cynnal eiddo o £661k a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau

Mawrth 2018. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi lleihau o £420,471 (12 Cynradd, 4 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2017 i £306,394 (2 Cynradd, 3 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2018. Cadarnhaf bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## 5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

5.1 Bu tanwariant un-tro o (£894k) ar nifer o benawdau y gyllideb gorfforaethol ddiwygiedig eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Mae (£894k) o'r tanwariant net yma ar gael i liniaru gorwariant adrannau, gyda chyfraniad o £66k pellach, i'w ryddhau o'r gronfa i gynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

5.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd dair blynedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £2.915m o adnoddau, fel amlinellir yn Atodiad 3.

5.3 Mae'r £2.749m i'w neilltuo ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, a £166k ar gyfer materion gwastraff.

5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir ym mharagraff 1.3 uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i gyllido ei holl wariant yn unol â'r bwriad am 2017/18. Gan gynnwys defnyddio £1.013m o falansau cyffredinol y Cyngor yn 2017/18 (yn unol â'r Strategaeth Ariannol cymeradwyodd y Cyngor ar 2 Mawrth 2017), gan adael balans o £5.897m.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2017/18 y Cyngor cyn 30 Mehefin. Gan fod cwtogiad yn yr amserlen statudol dros y blynyddoedd nesaf, bu ymgais eleni i gwtogi'r amserlen mewn paratoad, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2017/18.

Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

6.4 Bydd yr Adran Cyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2017/18 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn 30 Mehefin a'u cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Gorffennaf 2018.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd

# Cyfrifon Terfynol 2017/18 Alldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Trydydd Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,663** | **(594)** | **494** | **(100)** | *98* |
| **Plant a Theuluoedd** | **12,877** | **776** | **(676)** | **100** | *595* |
| **Addysg** | **82,647** | **207** | **(207)** | **0** | *238* |
| **Economi a Chymuned** | **5,928** | **(35)** | **0** | **(35)** | *(61)* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **20,754** | **303** | **(203)** | **100** | *404* |
| **Amgylchedd** | **4,759** | **(567)** | **467** | **(100)** | *(61)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **233** | **(82)** | **0** | **(82)** | *(9)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **1,887** | **(66)** | **0** | **(66)** | *(67)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **5,832** | **(66)** | **0** | **(66)** | *(72)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,909** | **(67)** | **0** | **(67)** | *(88)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(894)** | **894** | **0** | *(498)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **187,489** | **(1,085)** | **769** | **(316)** | *479* |

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,378 | 10,181 | (197) | 0 | (197) | (74) |
| Gofal Cartref | 6,223 | 5,551 | (672) | 457 | (215) | (84) |
| Eraill | 1,613 | 1,400 | (213) | 0 | (213) | (271) |
| | 18,214 | 17,132 | (1,082) | 457 | (625) | (429) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 492 | 478 | (14) | 0 | (14) | (7) |
| Gofal Cartref | 998 | 961 | (37) | 0 | (37) | 51 |
| Eraill | 675 | 646 | (29) | 0 | (29) | (159) |
| | 2,165 | 2,085 | (80) | 0 | (80) | (115) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,566 | 14,087 | (479) | 0 | (479) | (382) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,492 | 1,658 | 166 | 0 | 166 | 253 |
| Eraill | 1,881 | 1,681 | (200) | 0 | (200) | (109) |
| | 3,373 | 3,339 | (34) | 0 | (34) | 144 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolaeth | 299 | 288 | (11) | 0 | (11) | (16) |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,445 | 2,437 | (8) | 0 | (8) | 52 |
| | 2,744 | 2,725 | (19) | 0 | (19) | 36 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **41,062** | **39,368** | **(1,694)** | **457** | **(1,237)** | **(746)** |

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (699) | (337) | 362 | 0 | 362 | 271 |
| Gofal Dydd | (195) | (106) | 89 | 0 | 89 | 13 |
| Gofal Cymunedol | (56) | 214 | 270 | 0 | 270 | 339 |
| Eraill | (75) | (134) | (59) | 0 | (59) | (79) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(1,025)** | **(363)** | **662** | **0** | **662** | **544** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,535 | 1,547 | 12 | 0 | 12 | 37 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,091 | 3,517 | 426 | 0 | 426 | 263 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | 37 | 37 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **4,626** | **5,064** | **438** | **37** | **475** | **300** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,663** | **44,069** | **(594)** | **494** | **(100)** | **98** |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn -** cynnydd yn y cyfraniadau incwm a lleihad yn y nifer o becynnau gofal cartref. Derbyniwyd grant o £457k gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ar gyfer cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf. Gan fod yr Adran wedi tanwario yn 2017/18 maent yn awyddus i lithro swm cyfwerth â'r grant i 2018/19 er mwyn sicrhau hyblygrwydd i'r dyfodol.

**Gwasanaethau Anabledd Corff -** tanwariant ar daliadau uniongyrchol a gofal cartref yn cynorthwyo i leihau effaith y gorwariant ar lety cefnogol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu -** mwyafrif y meysydd o fewn y maes yn tanwario, ac eithrio cynlluniau cefnogol sydd yn gorwario gan fod llithriad ar wireddu cynlluniau arbedion. Dau achos all-sirol costus wedi dod i ben yn y chwarter.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl -** tri achos preswyl wedi gorffen, swyddi gwag, a derbyniad grant yn y maes alcohol a chyffuriau i gyd yn arwain at danwariant.

**Gwasanaethau Darparu -** cynnydd yn y tueddiad gorwariant, yn deillio'n bennaf o gostau cysylltiedig â materion staffio. Lleihad yn y gorwariant ar ofal cymunedol, gyda chynnydd yn yr oriau a ddarperir a gwell rheolaeth o gostau teithio ac oriau di-gyswllt.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol -** bu methiant i wireddu gwerth £436k o arbedion yn ystod 2017/18. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet 13 Mawrth 2018, yn ail-becynnu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni. Ar y llaw arall, mae ail asesu pecynnau byw yn annibynnol wedi arwain at lai o alwad ar y gwasanaeth.

**Argymhellir** trosglwyddo £457k, cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol er mwyn cefnogi hyblygrwydd a hwyluso trawsnewid yn y maes Oedolion i'r dyfodol.

Cynaeafu (£37k) o'r tanwariant sef y swm uwchlaw (£100k) Oedolion, Iechyd a Llesiant, i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario eleni.

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 527 | 508 | (19) | 0 | (19) | (19) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 2,030 | 2,286 | 256 | 0 | 256 | 156 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,947 | 2,352 | 405 | 0 | 405 | 325 |
| Maethu Drwy Asiant | 928 | 1,063 | 135 | 0 | 135 | 86 |
| Maethu Mewnol | 1,675 | 1,777 | 102 | 0 | 102 | 55 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,570 | 1,640 | 70 | 0 | 70 | 79 |
| | 6,120 | 6,832 | 712 | 0 | 712 | 545 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 923 | 918 | (5) | 0 | (5) | (10) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,592 | 1,614 | 22 | 0 | 22 | 62 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 239 | 199 | (40) | 0 | (40) | (39) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 123 | 96 | (27) | 0 | (27) | (53) |
| Gwasanaethau Eraill | 1,323 | 1,200 | (123) | 0 | (123) | (47) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | (676) | (676) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **12,877** | **13,653** | **776** | **(676)** | **100** | **595** |

## Plant a Theuluoedd


**Gwasanaethau Gweithredol** - twf yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau maethu, ynghyd â phwysau ychwanegol cefnogi teuluoedd yn arwain at fwy o orwariant.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - cynnydd pellach yn y gorwariant ar leoliadau all-sirol i £405k yn dilyn un achos newydd hir dymor, gyda 4 o'r 15 achos bellach yn 17 oed, ac felly yn dod i ben yn 2018/19. Tri achos maethu drwy asiant, pedwar lleoliad maethu mewnol newydd a chwech achos ychwanegol 'Aros Ymlaen' yn ystod y chwarter yn arwain at orwariant pellach. Y tueddiad gorwariant ar lwfansau maethu a lwfansau gorchymyn preswyl yn parhau.

**Gwasanaethau Eraill** - derbyniad arian grant a throsiant staff yn gyfrifol am y tanwariant o (£123k).

Mae'r pwysau cynyddol yn nifer yr achosion gan yr Adran i'w weld yn y siart isod. Yn yr amgylchiadau felly awgrymir y dylid cynnig cefnogaeth ariannol rhannol o £676k un-tro i gynorthwyo'r Adran gyda'r sefyllfa ariannol ddyrys eleni, gan gyfyngu y gorwariant sydd yn cael ei gario mlaen gan yr Adran i £100k.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £676k i leddfu rhan helaeth o orwariant 2017/18, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2018/19.



**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| Adran Addysg | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 71,826 | 71,826 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,246 | 4,530 | 284 | (207) | 77 | 240 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 1,373 | 1,373 | 0 | 0 | 0 | (7) |
| All Sirol | 945 | 871 | (74) | 0 | (74) | (36) |
| Arlwyaeth a Glanhau | 123 | 383 | 260 | 0 | 260 | 198 |
| Addysg Meithrin | 576 | 541 | (35) | 0 | (35) | (4) |
| Grant Grant Gwella Addysg | 587 | 552 | (35) | 0 | (35) | (35) |
| Rheolaeth | 1,239 | 1,098 | (141) | 0 | (141) | (81) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 3,179 | 3,212 | 33 | 0 | 33 | 14 |
| Addysg Bellach | 24 | 13 | (11) | 0 | (11) | (7) |
| Cyfraniad Addysg i Gyd-Bwyllgorau | 1,088 | 1,004 | (84) | 0 | (84) | (34) |
| Eraill | (2,559) | (2,549) | 10 | 0 | 10 | (10) |
| **Cyfanswm Addysg** | **82,647** | **82,854** | **207** | **(207)** | **0** | **238** |

## Addysg

**Cludiant** - y tueddiad gorwariant a welwyd yn ystod y flwyddyn yn parhau, gyda chynnydd i £284k erbyn diwedd y flwyddyn. Diffyg o £49k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16, gorwariant o £27k ar fysus ysgol, a £208k ar gludiant tacsis ysgolion, o ganlyniad i gynnydd yn y galw ers sefydlu'r gyllideb. Yn yr adolygiadau blaenorol gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd, ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion, ac yna gweithredu i reoli'r sefyllfa. Deallwn fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r drefn sy'n creu y galw am gludiant newydd, ynghyd â gwaith cychwynol ar fodelau amgen o ddarparu cludiant i leihau costau. Bydd aelodau yn cofio, wrth gymeradwyo cyllideb 2018/19 yng nghyfarfod Cabinet 13 Chwefror a'r Cyngor llawn 8 Mawrth 2018, argymhellwyd dileu gorwariant Addysg ar gludiant ysgolion wrth gau cyfrifon 2017/18.

**All-Sirol** - yr ymrwymiad all-sirol wedi lleihau gan arwain at danwariant o (£74k) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Arlwyaeth a Glanhau** - cynnydd yn y gorwariant i £260k, yn gyfuniad o gostau yn deillio o salwch a materion staffio, oediad cyn cyflawni arbedion y cynllun Brecwast am Ddim, ynghyd â diffyg yn yr incwm prydau a'r elfen gofal o'r cynllun brecwast.

**Rheolaeth** - cynnydd yn y tanwariant yn ystod y chwarter o ganlyniad i drosiant staff a llwyddiant i ddenu incwm a grantiau.

**Cyfraniad Addysg i Gyd-Bwyllgorau** - tanwariant o (£84k) yn dilyn defnydd o arian grant ynghyd â gwireddu arbedion ymlaen llaw.

**Argymhellir** trosglwyddo £207k i ddileu gorwariant yr Adran Addysg, tra fod polisiau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu.

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 388 | 389 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Dysgu Cymunedol | 2,788 | 2,708 | (80) | 0 | (80) | (44) |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,054 | 1,061 | 7 | 0 | 7 | 10 |
| Economi a Chymuned | 341 | 357 | 16 | 0 | 16 | (8) |
| Cymunedau'n Iach | 1,357 | 1,378 | 21 | 0 | 21 | (19) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,928** | **5,893** | **(35)** | **0** | **(35)** | **(61)** |

## Economi a Chymuned

Y tanwariant wedi lleihau i (£35k) erbyn diwedd y flwyddyn, gyda lleihad yn y derbyniad incwm gan Ganolfannau Hamdden yn ystod y chwarter olaf. O fewn y sefyllfa yma mae rhai gwasanaethau yn gorwario, gan gynnwys Morwrol, Orielau ac Amgueddfeydd a chyfleusterau Hamdden, ond yn cael eu mantoli gan danwariant mewn meysydd eraill megis Cefnogi Busnes, Datblygu Chwaraeon, Parciau Gwledig ac Archifau. Mae'r Adran hefyd wedi gwireddu arbedion ymlaen llaw, mewn paratoad ar gyfer arbedion 2018/19.

**Dysgu Cymunedol** - cynnydd yn y tanwariant i (£80k) sydd yn gyfuniad o danwariant o (£53k) ar y Gwasanaeth Ieuenctid, a throsiant staff yn gyfrifol am danwariant o (£27k) ar Adfywio Cymunedol.

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,022 | 9,071 | 49 | 0 | 49 | 146 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 385 | 497 | 112 | 0 | 112 | 81 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 7,795 | 7,979 | 184 | 0 | 184 | 142 |
| | Eraill | 2,807 | 2,800 | (7) | 0 | (7) | 66 |
| Unedau Darparu Bwrdeistrefol | | 745 | 710 | (35) | 0 | (35) | (31) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | (203) | (203) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **20,754** | **21,057** | **303** | **(203)** | **100** | **404** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - diffyg yn yr incwm ar gontractau allanol a gwaith cynnal yn ystod y gaeaf caled a hir eleni wedi arwain at orwariant sylweddol. Derbyniad grant o £165k gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ddim yn ddigonol, felly yr Adran wedi gorfod defnyddio cronfa wrth gefn tywydd garw i leddfu'r sefyllfa.

**Gwasanaethau Peirianneg** - cyfuniad o fethiant i wireddu cynlluniau arbedion, materion staffio a cholled cytundeb allanol yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â chostau staffio ychwanegol yn y maes CCTV yn ystod y chwarter olaf.

**Gwastraff** - cynnydd yng nghostau salwch, trafnidiaeth a hurio cerbydau, a chostau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu. Mae'r adran wedi defnyddio cyllidebau o feysydd eraill a chronfeydd wrth gefn i leihau'r gorwariant.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol - Eraill** - gorwariant ar gostau gweithredol glanhau strydoedd, ond incwm uwch amlosgiadau a chladdedigaethau chwarter pedwar yn ei wrthbwyso.

Gan fod yr Adran wedi symud cyllidebau a defnyddio cronfeydd wrth gefn i geisio lleihau'r gorwariant, mae'n rhesymol i ddarparu cefnogaeth ariannol un-tro i gynorthwyo'r Adran gyda'r sefyllfa ariannol.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £203k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2018/19.

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 377 | 328 | (49) | 0 | (49) | (3) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 258 | 298 | 40 | 0 | 40 | 0 |
| Eraill | (16) | (32) | (16) | 0 | (16) | (13) |
| | 242 | 266 | 24 | 0 | 24 | (13) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | (23) | 17 | 40 | 0 | 40 | 1 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 127 | 119 | (8) | 0 | (8) | (15) |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 365 | 378 | 13 | 0 | 13 | (7) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,843) | (1,795) | 48 | 0 | 48 | (5) |
| Cludiant Integredig | 1,606 | 971 | (635) | 378 | (257) | (40) |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 22 | 23 | 1 | 0 | 1 | 6 |
| | 254 | (287) | (541) | 378 | (163) | (60) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 714 | 726 | 12 | 0 | 12 | 13 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 299 | 299 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,427 | 1,384 | (43) | 0 | (43) | (2) |
| Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 1,446 | 1,476 | 30 | 0 | 30 | 4 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | 89 | 89 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **4,759** | **4,192** | **(567)** | **467** | **(100)** | **(61)** |

| |
|---|
| **<u>Amgylchedd</u>**<br>Parhad yn y tueddiad tanwariant ar draws nifer o wasanaethau'r Adran, sydd yn bennaf ar swyddi gwag yn dilyn ail-strwythuro, felly effaith un-tro yn 2017/18.<br><br>**Gofal Stryd a Thrafnidiaeth -** Colled incwm ar ffioedd parcio, a Chynllunio Ymlaen yn cyllido gwariant cyfalaf. Yn Cludiant Integredig, mae cymorth ariannol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cynyddol yn dilyn ail-dendro teithiau bysus un gweithredwr bysus yn ddiweddar, ynghyd â derbyniad grant bysus ychwanegol ym mis Mawrth. Mae'r Adran yn awyddus i glustnodi £378k o'u tanwariant i gwrdd â chostau cysylltiedig â bysus yn 2018/19. |
| **Argymhellir** trosglwyddo £378k o danwariant 2017/18 yr Adran Amgylchedd yn ymwneud â bysus a chost llwybrau i gronfa benodol, i'w ddefnyddio yn 2018/19.<br><br>Cynaeafu (£89k) o danwariant yr Adran Amgylchedd, sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18. |

**Cyfrifon Terfynol 2017/18**

| Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (417) | (527) | (110) | 0 | (110) | (57) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (35) | (43) | (8) | 0 | (8) | 25 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 566 | 575 | 9 | 0 | 9 | 0 |
| Rheolaeth Adeiladu | 119 | 146 | 27 | 0 | 27 | 23 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **233** | **151** | **(82)** | **0** | **(82)** | **(9)** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg -** llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol, drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol, wedi arwain at gynnydd yn yr incwm gan Lywodraeth Cymru, Cefnffyrdd a sefydliadau allanol yn y chwarter olaf, sydd yn golygu fod y tanwariant wedi cynnyddu i (£110k).

**Gwasanaeth Adeiladu** - tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn denu rhagor o incwm am waith gan sefydliadau allanol, ynghyd â thanwariant ar gostau staff.

**Rheolaeth Adeiladu -** diffyg incwm yn gyfrifol am y gorwariant o £27k.

| **Cyfrifon Terfynol 2017/18** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,887 | 1,821 | (66) | 0 | (66) | (67) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 5,832 | 5,766 | (66) | 0 | (66) | (72) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,909 | 7,842 | (67) | 0 | (67) | (88) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,628** | **15,429** | **(199)** | **0** | **(199)** | **(227)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** tanwariant o (£66k) gyda (£57k) ohono yn deillio o dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, a (£9k) o arbedion a wireddwyd ymlaen llaw yn y maes Cynllunio Argyfwng.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** sefyllfa diwedd y flwyddyn yn unol â'r rhagolygon, gyda thanwariant o (£66k). Tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran, ynghyd â denu incwm uwchlaw lefel y gyllideb yn Technoleg Gwybodaeth ac Archwilio Mewnol yn gyfrifol am y sefyllfa.

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** tanwariant o (£67k), sydd yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i drosiant staff, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Iechyd Galwedigaethol, Cyfieithu a Chefnogol. Gorwariant o £50k ar Galw Gwynedd yn rhannol o ganlyniad i golli cytundeb allanol, ynghyd â gwariant un-tro ar gostau staffio ac ar system CCTV.

| **Cyfrifon Terfynol 2017/18** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | 441 | | 441 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (307) | | (307) | 0 |
| Bidiau a Chyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (563) | | (563) | 0 |
| Eraill | * | * | (465) | | (465) | (498) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | 894 | 894 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(894)** | **894** | **0** | **(498)** |



## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - gorwariant o £441k, oherwydd bod Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatáu i 282 eiddo drosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig, gyda 43% (122 o eiddo) yn ystod y chwarter olaf. Gwelwyd fod nifer y trosglwyddiadau yn 2017/18 dros 50% yn uwch na mewn blynyddoedd blaenorol, gydag effaith ôl-ddyddio rhai o'r ceisiadau i 2010/11.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - y tueddiad tanwariant ar gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn parhau, gyda lleihad yn y nifer o geisiadau yn dueddiad a welir hefyd gan Gynghorau eraill Gogledd Cymru.

**Bidiau a Chyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau** - (£255k) o ganlyniad i lai o alwad ar y ddarpariaeth yn ymwneud â'r drefn newydd cofrestriad pensiynau awtomatig, (£172k) ar dderbyniad grant gan Lywodraeth Cymru ar ôl gosod y gyllideb, a gwerth (£136k) o fidiau na ddefnyddiwyd yn 2017/18.

**Eraill** - tanwariant o ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau na ragwelwyd wrth osod y gyllideb, tanwariant ar ffioedd archwilio allanol a lleihad yn y ddarpariaeth dyledion drwg.

**Argymhellir** cynaeafu (£894k) o'r tanwariant net ar gyllidebau diwygiedig Corfforaethol a'i drosglwyddo i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.

Hefyd, argymhellir trosglwyddo £66k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, sef y balans sydd angen i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.

**Atodiad 3**

## Cynaeafu Cronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol o'r cronfeydd isod:

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Datblygu Effeithlonrwydd (ei drosglwyddo i wireddu blaenoriaethau corfforaethol) | 47,000 |
| Arweinydd Rhaglenni Arbennig (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 70,162 |
| Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 56,039 |
| E-Lywodraeth (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 250,000 |
| Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 66,829 |
| Tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 34,687 |
| Cronfa Swyddog Beicio (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 10,000 |
| Materion Perthnasol â Diddymu Cwmni Gwastraff Môn Arfon (wedi cwblhau) | 165,504 * |
| Cronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol (ei drosglwyddo i wireddu blaenoriaethau corfforaethol) | 2,214,585 |
| **Cyfanswm** | **2,914,806** |

gan eu trosglwyddo i'r cronfeydd isod fel a ganlyn:

| **Cronfa** | **Swm i'w ychwanegu £** |
|---|---:|
| Materion Gwastraff | 165,504 * |
| Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 2,749,302 |
| **Cyfanswm** | **2,914,806** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 Mai 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2017/18 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2018)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £4,514,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £326,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- lleihad £371,000 mewn defnydd o fenthyca arall
- lleihad £335,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £53,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
- lleihad £65,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r broses cau cyfrifon 2017/18. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £51.734m am y 3 blynedd 2017/18 – 2019/20.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net o £4.016m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2017/18 i 2018/19

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Llwyddodd y Cyngor i wario dros £23m yn 2017/18 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £11m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Bydd £15.6m o gyllideb gwariant yn llithro o 2017/18, o'i gymharu â llithriad o £9.9m ar ddiwedd 2016/17. Ni achoswyd unrhyw golled ariannu grant i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2017/18 i 2019/20

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig hyd at ddiwedd Mawrth 2018:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Addysg | 10,575 | 2,620 | 0 | 13,195 | (257) |
| Amgylchedd | 4,888 | 7,561 | 0 | 12,449 | 1,992 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 28 | 124 | 0 | 152 | 0 |
| Cyllid | 389 | 883 | 0 | 1,272 | 16 |
| Economi a Chymuned | 1,249 | 293 | 200 | 1,742 | 480 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 2,150 | 4,486 | 0 | 6,636 | (35) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 631 | 370 | 0 | 1,001 | 54 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 214 | 0 | 0 | 214 | 7 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3,095 | 8,607 | 2,247 | 13,949 | 1,714 |
| Ymgynghoriaeth | 179 | 153 | 0 | 332 | 45 |
| Corfforaethol | 0 | 792 | 0 | 792 | 0 |
| **CYFANSWM** | **23,398** | **25,889** | **2,447** | **51,734** | **4,016** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £4.016m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,150 | 6,399 | 0 | 10,549 | 0 |
| Benthyca Arall | 3,635 | 5,045 | 861 | 9,541 | (371) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 11,109 | 2,688 | 200 | 13,997 | 4,514 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,384 | 371 | 0 | 1,755 | 326 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,739 | 282 | 0 | 2,021 | (335) |
| Cronfa Cyfalaf | 0 | 2,353 | 0 | 2,353 | (53) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 1,381 | 8,751 | 1,386 | 11,518 | (65) |
| **CYFANSWM** | **23,398** | **25,889** | **2,447** | **51,734** | **4,016** |

**5. ARGYMHELLION**

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2017/18 i 2019/20, a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 4 uchod).**

**6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2017/18 - 2019/20.

**7. Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**8. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2017/18, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol cyn diwedd mis Mehefin.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Awdur yr adroddiad / Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**

Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu (2017/18)
Atodiad B: Ail-broffilio cyllideb – prif gynlluniau

----------------------

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU (2017/18):**
Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | Cynnydd/ (Lleihad) £'000 |
|---|---|
| **Benthyca Arall** | |
| • Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain – proffil bellach yn dangos mwy o grant felly angen llai o fenthyca. | (240) |
| • Addasiadau Technegol – cyfnewid ariannu Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol efo Cronfeydd. | (130) |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | |
| • Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain – proffil bellach yn dangos mwy o grant felly angen llai o fenthyca a caniatawyd mwy o grant i gynllun Bangor. | 272 |
| • Grant Newydd Hylendid Toiledau Merched mewn ysgolion. | 30 |
| • Grant Newydd TAIS – gwelliannau Traethau Banner Las. | 114 |
| • Goramcannu gwariant Cynlluniau Cyfalaf Dechrau'n Deg. | (17) |
| • Grant Newydd Adnewyddu Ffyrdd. | 1,989 |
| • Grant ychwanegol yn y maes Gwastraff (Cartgylchu). | 173 |
| • Grantiau ychwanegol Cronfa Trafnidiaeth Lleol. | 1,915 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain – Addasiad technegol i gyfnewid ariannu rhwng refeniw adrannol a derbyniadau cyfalaf i adlewyrchu'r sefyllfa yn well ers yr adolygiad diwethaf. | 300 |
| • Ail Asesu'r ffynhonnell ariannu yng Nghynllun Ffridd Arw/Caergylchu. | 15 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain – Gweler uchod. | (300) |
| • Cynnal a Chadw Ysgolion wedi ei gyfalafu. | (280) |
| • Nifer o gynlluniau ychwanegol, a rhai'n gwario mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol, o fewn maes yr Adran Economi - Llwybr Tegid, Diogelwch a Dymchwel Pier Trefor, Peiriannau Hunan Wasanaeth Llyfrgelloedd. | 193 |
| • Nifer o gynlluniau ychwanegol neu rai'n gwario mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol o fewn maes yr Adran Amgylchedd – Trafnidiaeth, cynlluniau Gwledig, Cerbydau ac Offer. | 55 |
| **Cronfa Cyfalaf** | |
| • Tanwariant ar gynlluniau - Uwchraddio Systemau Electronig Gwasanaeth Ysgolion a Rhesymoli Darpariaeth y System Ysgolion. | (20) |
| • Ail Asesu'r amcan i gynllun Fflerau Safleoedd Gwastraff. | (32) |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Llai o angen defnyddio'r Cronfeydd Adnewyddu, oherwydd cynnydd yn y grant Cartgylchu yn y maes Gwastraff. | (163) |
| • Nifer o addasiadau defnyddio Cronfeydd mewn amrywiol wasanaethau. | 95 |

---------------------------

## AIL-BROFFILIO CYLLIDEB – PRIF GYNLLUNIAU:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi'u hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor a Chynlluniau Rheoli Carbon (Adran Amgylchedd – Uned Eiddo) | (3,091) | 3,091 |
| Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (3,944) | 3,944 |
| Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Dai) | (1,024) | 1,024 |
| Cynlluniau Adnewyddu Cyfrifiaduron (Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth) | (534) | 534 |
| Ysgolion Ganrif 21(Adran Addysg) | (2,077) | 2,077 |
| Ail-wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd) | (260) | 260 |
| Cynllun Safle Sipsiwn Llandygai | (612) | 612 |
| Addysg – amrywiol gynlluniau megis grant Hylendid Toiledau, Systemau Ysgolion, Diogeledd ayyb | (287) | 287 |
| Amgylchedd - amrywiol gynlluniau eraill megis gwelliannau traffig, Pont Briwet, technoleg gwybodaeth, cerbydau, addasiadau adeiladau gweinyddol | (436) | 436 |
| Oedolion – cynlluniau Gwelliannau Cartrefi ac Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm | (370) | 370 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Amrywiol Gynlluniau megis Adnewyddu Ffensys Diogelwch, Dŵr ar y Ffryrdd, Pibellau Dŵr, Toiledau | (335) | 335 |
| Cynlluniau a ariennir o'r grant newydd diwedd 2017/18 i adnewyddu ffyrdd | (1,988) | 1,988 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella. Diau fydd yr Aelodau Cabinet cyfrifol a'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bodloni eu hunain ynglŷn â'r ail-broffilio yma.

---------------------------

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Mai 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Paratoi ar gyfer sefyllfa ariannol aneglur o 2019/20 ymlaen.** |

**Y penderfyniad a geisir**

a) Dygymod gyda'r sefyllfa ariannol aneglur yr ydym yn ei wynebu o 2019/20 ymlaen drwy ddilyn y drefn a nodir yng nghymal 10 yr adroddiad.

b) Gosod cyfundrefn yn ei le er mwyn sicrhau fod pob Adran wedi edrych ymhob twll a chornel am arbedion effeithlonrwydd.

c) Comisiynu adolygiad o haenau rheolaethol o fewn y Cyngor (gan gynnwys Craffu yn y broses honno) i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn galendr er mwyn sicrhau fod ein trefniadau rheolaethol yn addas at ei bwrpas.

**Cefndir**

1. Nid oes argoel ar hyn o bryd fod y cyfyngiadau ariannol y mae'r Llywodraeth yn eu gosod ar Lywodraeth Leol am ddod i ben yn fuan. Mae hyn yn creu problem gynyddol i ni fel pob Cyngor arall yng Nghymru gan nad yw'r arian yr ydym yn ei dderbyn yn ddigonol hyd yn oed i gwrdd â chwyddiant heb son am y galwadau cynyddol sydd arnom.

2. Golyga hynny fod yr angen i edrych am arbedion i falansio'r llyfrau am barhau ond mae ein gallu i ddarganfod yr arbedion hynny heb effeithio'n andwyol ar bobl Gwynedd yn mynd yn anoddach fyth.

3. Mae'r adroddiad a gyflwynodd y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor wrth gyflwyno ein Strategaeth Ariannol ar gyfer y cyfnod i ddod yn nodi y gallasem fod angen unrhyw le rhwng £8.5m ac £17.5m o arbedion o 2019/20 ymlaen. Hwn oedd

casgliad y graff oedd yn cyfrifo llu o bosibiliadau ariannol gwahanol allasai ddigwydd. Er mwyn atgoffa aelodau, amgaeir copi o'r graff yn Atodiad 1.

4. Wrth gwrs, ni fyddwn yn gwybod y gwir sefyllfa ariannol hyd nes yn agosach at ddechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, ond os ydym am gynllunio'n rhesymegol, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer y gwaethaf.

5. Adroddodd y Prif Weithredwr ar drefn posibl ar gyfer gwneud hynny i'r Cyngor yn yr Hydref y llynedd. Byddai'r drefn honno wedi golygu ein bod yn dechrau amlygu'r dewisiadau posibl yn y cyfnod i ddod.

6. Fel y gwŷr aelodau'r Cabinet, dros y misoedd diwethaf, 'rydym wedi bod mewn trafodaethau anffurfiol gyda'r Penaethiaid i weld beth yw'r cyfleoedd sydd ar ôl ar gyfer gwneud arbedion, er mwyn gallu dod i gasgliad ynglŷn â beth sy'n rhesymol i'w osod fel targedau ar eu cyfer.

7. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn y trafodaethau anffurfiol yma yw bod ceisio dod yn agos at yr hicyn uchaf o £17.5m am olygu cymryd penderfyniadau anodd dros ben.

8. Mae hynny wedyn yn amlygu gwendid eithaf sylfaenol arall trefn o'r fath. O baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf, pe byddem yn diweddu fyny dyweder yn y sefyllfa ganolig o sefyllfaoedd posibl, yna byddem wedi gorfod adnabod cynlluniau arbedion na fydd eu hangen. O gofio ein bod bellach yn edrych ar oblygiadau "gwaeth" na'r hyn a wynebwyd yn ystod cyfundrefn "Her Gwynedd" fe fyddai hynny yn creu pryder di angen ymysg trigolion Gwynedd ac ymysg staff y Cyngor.

9. Mae'r Prif Weithredwr wedi trafod hyn gyda Chadeiryddion ac Is gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ac roeddent hwy hefyd yn gweld fod y sgil effaith yma yn golygu efallai y dylem edrych ar ffordd wahanol o ddygymod gyda'r sefyllfa.

**Trefn Newydd**

10. Rwyf wedi bod yn trafod y sefyllfa gyda'r Prif Weithredwr ac 'rydym yn cytuno, yn hytrach na dilyn y drefn oedd dan sylw, dylem bellach ddygymod gyda'r sefyllfa ariannol drwy ddilyn y drefn ganlynol -

    a. Penaethiaid i barhau i ystyried lle byddent yn arbed pe byddai angen iddynt wneud hynny drwy dalu sylw i'r anghenion sydd wedi eu hadnabod o fewn y graff a'r angen i ddod a chynlluniau ymlaen ar fyrder pan fydd eu hangen;

b. Hynny i gynnwys bod yn barod i restru yn ôl trefn ardrawiad ar drigolion Gwynedd;

c. Pan fydd y Cabinet yn gwybod beth fydd y bwlch cyllidol yn yr Hydref, cynnal gweithdy o holl aelodau'r Cyngor i ystyried y cynlluniau arbedion hynny fyddai a'r ardrawiad lleiaf ar drigolion Gwynedd gyda golwg ar i'r aelodau fynegi eu barn ynglŷn â pha gynlluniau ddylid eu hymgorffori yn y Strategaeth Ariannol i gau unrhyw fwlch ariannol;

d. Cabinet i ystyried argymhellion y gweithdy a chynnwys rhestr arbedion yn y Strategaeth Ariannol i'w gyflwyno i'r Cyngor;

e. Ail adrodd y drefn yn y flwyddyn ganlynol.

11. Credaf y byddai dilyn trefn o'r fath yn taro'r balans priodol rhwng sicrhau nad ydym yn gôr ymateb wrth sicrhau hefyd ein bod yn barod i gwrdd â'r amrediad o bosibiliadau ariannol allasai godi i'r dyfodol.

12. Wrth gwrs, fe fydd yn cywasgu'r cyfnod benderfynu i gyfnod sy'n llai na'r hyn a ragdybiwyd yn wreiddiol ond bydd modd dygymod gydag unrhyw sgil effaith hynny drwy bontio hyd nes y byddai arbediad ar gael.

**Natur yr arbedion**

13. Un mater ddaeth i'r amlwg yn y trafodaethau anffurfiol gyda Phenaethiaid oedd bod nifer o adrannau bellach yn amlygu y byddai'n rhaid i gyfran uwch o'r arbedion ddod o doriadau, yn hytrach na medru gwireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd, am eu bod yn ei chael yn anoddach dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd.  Efallai na ddylai hyn ddod yn syndod i ni.

14. Fel yr ydym wedi nodi fwy nag unwaith, dros y 12 mlynedd diwethaf 'rydym wedi cyflawni £62m o arbedion sydd yn gyfystyr â 25% o gyllideb net eleni.

15. Mae'r rhan helaethaf o'r swm yma wedi bod yn arbedion effeithlonrwydd, sydd gyfystyr â bod wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd uwch na 2% y flwyddyn dros 12 mlynedd.

16. Wedi dweud hynny, dwi ddim yn grediniol fod y ffynnon yma yn hollol sych eto, a gall fod yna gyfleoedd i gael arbedion effeithlonrwydd pellach.  Tra bod rhai adrannau wedi amlygu rhai cyfleoedd amlwg wrth drafod gyda ni, mae'n bosibl nad yw'r technegau newydd a roddwyd i reolwyr yn sgil yr hyfforddiant

a roddir ar Ffordd Gwynedd wedi cael cyfle i wreiddio eto, a bydd angen mwy o amser i ddod o hyd i'r arbedion effeithlonrwydd "anoddach" yma.

17. Yr hyn sydd yn amlwg wrth gwrs yw cyn symud i doriadau, mae'n rhaid i ni geisio sicrhau fod pob gronyn o arbedion effeithlonrwydd wedi ei wasgu allan, ac er mwyn sicrhau hynny, **argymhellaf** ein bod yn gosod cyfundrefn yn ei le er mwyn sicrhau fod pob Adran wedi edrych ymhob twll a chornel am arbedion effeithlonrwydd.

18. Gellir symud hyn yn ei flaen rhwng rŵan a'r Hydref.

**Rheolaeth y Cyngor**

19. Un agwedd arall sydd wedi codi gan aelodau yn ystod y trafodaethau yw haenau rheolaethol y Cyngor a'r cwestiwn a oes lle i leihau yn y fan honno.

20. Yn y gorffennol 'rydym wedi gadael i Benaethiaid ystyried yr hyn sydd ei angen o fewn eu gwasanaethau. Mae hyn yn gyson gyda'r egwyddor mai nhw sy'n gyfrifol am gyflawni, ond nodwyd y gallasai hynny arwain at anghysondebau yma a thraw.

21. Ar adeg o argyfwng ariannol, rhaid i ni ystyried efallai a oes angen cyfyngu mwy ar y swyddogaeth reolaethol. Wedi dweud hynny, rhaid i ni hefyd fod yn fyw i'r ffaith ein bod yn hollol ddibynnol ar reolwyr da i arwain ein staff drwy'r cyfnod anodd yma.

22. **Argymhellaf** felly fod y Cabinet yn comisiynu adolygiad o'r fath (ac i gynnwys Craffu yn y broses honno) er mwyn sicrhau fod ein trefniadau rheolaethol yn addas at ei bwrpas. Er na ddylem ragdybio fod yna unrhyw ostyngiad am fod, os cyfyd unrhyw arbedion, gall fynd tuag at yr arbedion yr ydym eu hangen.

23. Oherwydd yr ansicrwydd y gallasai greu i swyddogion allweddol, dylid anelu dod i gasgliadau cyn diwedd y flwyddyn galendr cyfredol.


24. Mae'n bwysig cofio drwy hyn oll, mai paratoi ar gyfer y gwaethaf yr ydym yn ei wneud gan obeithio am y gorau - sef yr hyn y dylem fod yn ei wneud fel Cyngor cyfrifol. Bydd yr union arbedion y byddwn eu hangen yn ddibynnol ar faint y bwlch fydd angen ei gyfarch, fydd yn ei dro, yn ddibynnol ar y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth y Llywodraeth.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Mae adolygu'r drefn o baratoi ar gyfer bwlch ariannol yn gam priodol wrth i'r gwaith ddatblygu. Mae'n caniatáu hyblygrwydd i ymateb wrth i sefyllfa ddod yn fwy eglur sydd yn gyfrwng i roi ffocws i'r penderfyniadau

**Pennaeth Cyllid**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys

**ATODIAD 1**



Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2020/21
Fersiwn Ionawr 2018
30,000
25,000
20,000
15,000
10,000
5,000
0
-5,000
£000
£2.7
£13.8m
£12.0
£8.5m
£20.2
£15.9m
£11.2m
2018/19
2019/20
2020/21